Hyrwyddo Crefydd:

Hanes Mudiad Addysg Gristnogol / Grefyddol Cymru, 1965–2015

Aled D Jones

℗ Mudiad Addysg Grefyddol Cymru 2017

Testun gwreiddiol: Aled D Jones
Addasiad Cymraeg: Marian B Hughes
Golygydd Cyffredinol: Aled Davies

ISBN: 9781859948675

Argraffwyd yng Nghymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo unrhyw ran o'r deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwyr.

Cyhoeddwyd gan
Mudiad Addysg Grefyddol Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad 5

Pennod 1 –
Dau yn un: sefydlu Mudiad Addysg Gristnogol Cymru: 1962–1965 7

Pennod 2 –
Dechreuadau chwim: 1965–1969 13

Pennod 3 –
Gweithiwr newydd: 1969–1973 19

Pennod 4 –
Cynnal y weledigaeth, adolygu'r pwrpas: 1974–1984 26

Pennod 5 –
Helynt cyflogau athrawon: 1984–1988 51

Pennod 6 –
Argyfwng annisgwyl: 1988–1994 58

Pennod 7 –
Ad-drefnu: 1994–1996 71

Pennod 8 –
Adnewyddu a dirywio: 1996–2015 82

Prif swyddogion y mudiad 103

Cyflwyniad

Bwriad y gyfrol hon yw adrodd hanes bywyd mudiad sydd wedi bod wrth galon addysg grefyddol yng Nghymru am y rhan fwyaf o'i oes hyd heddiw. Daeth Mudiad Addysg Gristnogol Cymru (MAGC) i fod ar adeg o newid ac ehangu yn y byd addysg mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd Pwyllgor Gittins yn anelu at drawsffurfio addysg gynradd, roedd y rhwystrau yn ffordd uchelgais a achoswyd gan system dair rhan addysg uwchradd dan Ddeddf Addysg 1944 yn dechrau cael eu symud, ac addysg uwchradd yn ehangu wrth i oedran gadael ysgol gael ei godi i 16 unwaith eto.

Roedd addysg grefyddol ei hun yng nghanol chwyldro araf wrth i syniadau newydd am ddelfryd aml-ffydd, heb ei lesteirio gan hollbresenoldeb lled-sefydledig Cristnogaeth, ddechrau magu gwreiddiau. Cafodd y cysyniadau newydd hyn eu cynnwys o fewn Mudiad Addysg Gristnogol Cymru am flynyddoedd lawer cyn iddynt gael eu cludo'r tu hwnt i hynny yn ei flynyddoedd diweddar fel Mudiad Addysg Grefyddol Cymru. Mae'r ffaith fod y trawsnewid hwn wedi digwydd o fewn y mudiad dros gyfnod o 40 mlynedd heb frwydr barhaus ynghylch ei hunaniaeth – brwydr a allai fod wedi dinistrio'r hyn oedd yn ei ddal at ei gilydd – yn dysteb i gadernid a chywirdeb y mudiad.

Mae cenedlaethau o blant a phobl ifainc, yn ogystal â'u hathrawon, wedi elwa o wasanaethau'r mudiad, ei gynlluniau blaengar a'i eiriolaeth ar eu rhan. Roedd Mudiad Addysg Gristnogol Cymru a Mudiad Addysg Grefyddol Cymru yn bodoli pan oedd hynny'n bwysig, yn asiantaeth arbenigol, anstatudol, a hawliai barch o fewn ysgolion, eglwysi, sefydliadau hyfforddi ac yng nghylchoedd y llywodraeth.

Yn y diwedd, ffactorau'r tu hwnt i reolaeth y mudiad fu'n bennaf cyfrifol am ei ddirywiad araf o benllanw ei weithgareddau. Arweiniodd helyntion diddiwedd y 1980au ynghylch tâl athrawon at golli llawer o sail gweithredu MAGC ymysg disgyblion hŷn yr ysgolion uwchradd. Dilynwyd hyn yn fuan iawn gan lif diddiwedd o newidiadau o du'r Llywodraeth Ganolog, a oedd ar un llaw yn bygwth boddi Addysg Grefyddol oherwydd eu dibyniaeth ar dechnoleg, ac ar y llaw arall yn chwalu cefnogaeth graidd y mudiad o fewn yr awdurdodau addysg lleol drwy gael gwared ar eu rhyddid ariannol.

Rhan o'r rheswm dros ddirywiad MAGC oedd ei lwyddiant yn y 1970au a'r 1980au yn galw am gnewyllyn proffesiynol o ymgynghorwyr addysg grefyddol o fewn yr awdurdodau addysg lleol. Yng nghyd-destun addysg heddiw, efallai mai buddugoliaeth wag oedd honno mewn gwirionedd

gan fod llawer o'r ymgynghorwyr hynny bellach wedi'u cynnwys o fewn gweddillion crebachlyd unedau gwella ysgolion yr awdurdod addysg lleol a'r consortiwm.

Bydd Mudiad Addysg Grefyddol Cymru yn parhau yn ei ffurf bresennol am rai blynyddoedd eto, ond mae ei allu i weithredu yn y cyfnod diweddar wedi cael ei lesteirio gan amgylchedd sy'n gynyddol heriol. Er hynny, rhaid ceisio cynnal ei nod mewn rhyw ffordd gan bawb sy'n gweld addysg fel mwy na dim ond fframwaith arloesol ar gyfer llythrennedd neu rifedd, ac sy'n gweld dyfodol llwyddiannus pob plentyn fel un sy'n cael ei fynegi yn y person cyflawn: y corff, yr enaid a'r ysbryd yn cael eu hybu i ddatblygu'n llawn.

Rwyf yn ddiolchgar i'm mentoriaid fy hun ar hyd y daith hon, yn eu mysg y Parch. E Lyn Rees, fy athro Addysg Grefyddol yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman; mae'n rhaid ei fod yn syfrdan wrth imi fynnu, yn fy rhwystredigaeth yn Nosbarth 3, nad cameleon oedd yn newid i gydymffurfio â darlun pob diwylliant ohono oedd Iesu. Cafodd fy mhlant fy hun eiliad tebyg o ddryswch pan ddywedais fod gan Dadi ragor o waith cartref Addysg Grefyddol i'w orffen.

Wrth imi wneud hynny, hoffwn ddiolch i Sali Roberts a swyddogion Mudiad Addysg Grefyddol Cymru sydd wedi fy annog a'm hysbrydoli i ysgrifennu'r hyn yw eu hanes hwy mewn gwirionedd. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i staff adran llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru am fod mor hael wrth hwyluso mynediad i mi at archif Mudiad Addysg Gristnogol Cymru / Mudiad Addysg Grefyddol Cymru. Mae clod hefyd yn ddyledus i Aled Davies a'i dîm yn Gair am Air am sicrhau bod y gyfrol hon yn gweld golau dydd. Yn olaf, mae eglwysi fy ngofalaeth a'm cyd-weithwyr yng Ngholeg yr Annibynwyr Cymraeg wedi bod yn wrol o amyneddgar wrth imi gwblhau'r gwaith hwn.

Cydlynydd Hyfforddiant Coleg yr Annibynwyr Cymraeg yn ne Cymru yw'r awdur, ac mae'n weinidog ar dair eglwys Annibynnol yn ardal Llandysul. Fe'i haddysgwyd yng Ngholeg Prifysgol Llundain, Coleg yr Annibynwyr Cymraeg, Ysgol Astudiaethau'r Dwyrain ac Affrica a Phrifysgol Stellenbosch.

Dau yn un:
sefydlu Mudiad Addysg Gristnogol Cymru, 1962–1965

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, sefydlodd dau fudiad Cristnogol bresenoldeb yn y maes addysg yng Nghymru fel canghennau o sefydliadau a oedd yn gweithredu ledled y Deyrnas Unedig. Roedd Cymdeithas Gymreig y Sefydliad Addysg Gristnogol (Institute of Christian Education) yn bennaf cyfrifol am gefnogi gwaith athrawon addysg grefyddol wrth iddynt geisio gweithredu darpariaethau Adran 25(2) Deddf Addysg 1944, sef y 'dylid cyflwyno addysg grefyddol ym mhob ysgol sir ac ym mhob ysgol wirfoddol'.

Roedd Cyngor Cymru Mudiad Myfyrwyr Cristnogol mewn Ysgolion hefyd yn gweithio gyda disgyblion mewn ysgolion drwy drefnu cynadleddau a gwersylloedd preswyl i'w cefnogi a'u hannog yn eu ffydd a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth. Ym Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr, a oedd wedi bod yn gweithredu mewn prifysgolion ym Mhrydain ac Iwerddon er 1889, yr oedd gwreiddiau'r mudiad hwn mewn ysgolion.

Dechreuodd y ddwy ffrwd hyn o weithgarwch mewn addysg Gristnogol ddod at ei gilydd ar lefel eu harweinyddiaeth Brydeinig yn nechrau'r 1960au, wrth i'r Sefydliad Addysg Gristnogol a'r Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion (Student Christian Movement in Schools), dau fudiad Seisnig mewn gwirionedd, ddatblygu perthynas weithio glòs ac yn y pen draw ddyhead i gyd-dyfu fel mudiad unedig. Rhoddodd Pwyllgor Gwaith y Sefydliad Addysg Gristnogol sylw i'r trefniant cychwynnol hwn yng Nghymru am y tro cyntaf ym mis Medi 1962, ac erbyn Ebrill 1963, gyda chyhoeddi 'dyweddïad' a sefydlu corff dros dro yn Llundain i weithredu'r 'briodas' rhwng y ddau fudiad, trafodwyd y datblygiadau hyn gan Gyngor Cymru o'r Sefydliad Addysg Gristnogol.

Ar y pryd, roedd llawer o gyrff cenedlaethol Cymru yn dewis cynnal eu cyfarfodydd rheolaidd yn Amwythig, oedd yn gyfleus o ran teithio yno ar y trên o wahanol rannau o'r wlad. Nid oedd y Sefydliad Addysg Gristnogol yn eithriad yn hyn o beth, ac felly cyfarfu ei Gyngor yng Nghastell Amwythig i drafod y posibilrwydd o uno, a phenderfynu ei bod yn amser ystyried pa gamau fyddai orau i'w cymryd. Nodwyd bod delfrydau'r Sefydliad Addysg Gristnogol yn wahanol i rai'r Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn

Ysgolion; ymwneud ag athrawon a wnâi'r Sefydliad Addysg Gristnogol, tra gweithiai'r Mudiad Myfyrwyr gyda phlant. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, roedd y Sefydliad Addysg Gristnogol yn trefnu cynadleddau chweched dosbarth, a byddai'r un bobl yn aml yn ymwneud â gwaith y ddau sefydliad.

Cytunwyd bod pwyllgor cychwynnol bychan yn cael ei benodi i gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion, ac y dylai'r Sefydliad Addysg Gristnogol gymryd y cam cyntaf drwy hysbysu Ysgrifennydd y Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion. Gan sylweddoli y byddai angen arweinydd craff a dylanwadol yn ystod y cyfnod hwn, tybiwyd y byddai'n ddoeth gwahodd Syr Ben Bowen Thomas i fod yn llywydd yn ystod yr hyn fyddai gweddill bodolaeth y Sefydliad Addysg Gristnogol. Byddai ei brofiad a'i gyngor yn ddefnyddiol iawn i'w lywio drwy'r cyfnod hwn, fel y gwnaethai Syr Wynn Wheldon yn ystod cyfnodau cynnar bywyd y Gymdeithas Gymreig.

Roedd Syr Ben wedi dilyn Syr Wynn i swydd ysgrifennydd parhaol (sef gwas sifil uchaf) Adran Gymreig y Weinyddiaeth Addysg yn 1945, ac wedi cyfrannu tuag at gyflwyno newidiadau i ysgolion Cymru, yn cynnwys canlyniadau pellgyrhaeddol Deddf 1944.

Adroddwyd am fwriadau'r Sefydliad Addysg Gristnogol yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith Cymreig y Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion, a chytunwyd i gyfarfod fel cynrychiolwyr y ddwy gymdeithas Gymreig yn Llyfrgell Amwythig ym mis Mehefin 1963. Roedd T. R. Newell Price, Ysgrifennydd Cyffredinol (Y Deyrnas Unedig) y Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion, wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y corff dros dro yn Llundain, a chyflwynodd adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf. Er bod memorandwm o ddealltwriaeth yn 1962 wedi awgrymu Mudiad Addysg Gristnogol (Christian Education Movement) yn enw ar y mudiad newydd – a dyna oedd ei enw yn y diwedd – adroddodd mai ei enw fyddai'r Sefydliad dros Addysg Gristnogol (Association for Christian Education).

Yn dilyn ei adroddiad, cafwyd trafodaeth hir ar y camau y gellid eu cymryd yng Nghymru. Cyfeiriodd Cadeirydd y cyfarfod, Dr Evan John Jones, at y ffaith mai cangen yn unig o'r Sefydliad Addysg Gristnogol yn Llundain oedd Sefydliad Addysg Gristnogol Cymru, ond ei fod yn ei ariannu ei hun yn annibynnol. Awgrymodd y byddai'r sefydliad newydd yn dod â'i anawsterau

ariannol ei hun gan y byddai angen Ysgrifennydd amser llawn arno. Byddai angen iddynt ystyried ymhle yn union yr oeddent yn sefyll mewn perthynas â Lloegr: pa un a fyddai'n well i Gymru ddod yn rhan lawn o'r mudiad Prydeinig newydd, neu ffurfio sefydliad tebyg o fewn y tair sir ar ddeg.

Cafwyd nodyn o anghytundeb gan y Parch. Derrick Childs (a ddaeth wedi hynny'n Archesgob Anglicanaidd), a oedd yn siarad ar ran Cymdeithas Sefydliad Addysg Gristnogol Caerdydd. Byddai'n well ganddynt hwy, meddai, fod yn gysylltiedig â'r sefydliad Seisnig yn Llundain, na chyda chorff annibynnol yng Nghymru. Fel yr oedd pethau, mewn enw yn unig yr oedd perthynas rhwng cangen Caerdydd a Sefydliad Addysg Gristnogol Cymru, gan eu bod yn dewis ymwneud yn uniongyrchol â Llundain.

Yna, cyfeiriodd Newell Price at y ffaith fod y Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion yn dibynnu ar nawdd o Lundain, ac awgrymodd D. Jones-Davies y byddai'r Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion – Cymru, yn annhebygol o adael y corff gwreiddiol. Roedd agweddau'r bobl oedd yn ymwneud â'r ddau gorff yn debyg iawn, er hynny, ac roedd y ddau sefydliad yn barod i ehangu ffiniau eu menter Gristnogol drwy roi eu hadnoddau at ei gilydd a mabwysiadu agwedd gydenwadol.

Er gwaetha'r problemau ymddangosiadol, penderfynwyd bod y cynrychiolwyr yn dychwelyd at eu cyrff eu hunain gyda'r argymhelliad eu bod yn cytuno â'r camau a gymerwyd yn Llundain ac yn parhau i siarad â'i gilydd am y sefyllfa yng Nghymru. Pan dderbyniodd Sefydliad Addysg Gristnogol yr adroddiad hwn, fe wnaethon nhw fynnu, petai uno'n digwydd ar lefel y Deyrnas Unedig, y byddai'n rhaid gwneud yn glir fod anghenion penodol yng Nghymru ac y byddai'n rhaid cadw'r 'awyrgylch' Cymreig mewn unrhyw sefydliad yn y dyfodol.

Yn 1964, dywedodd Evan John Jones wrth y Sefydliad Addysg Gristnogol na wnaed unrhyw gynnydd yn ystod y trafodaethau ar y cyd yn Llundain. Er hyn, cytunwyd y dylai'r trafodaethau fynd yn eu blaen yn annibynnol yng Nghymru, a hynny fel mater o frys. Dylid hwyluso cydweithio ac uno yng Nghymru, gan hysbysu Llundain am unrhyw ddatblygiadau.

Yn ystod yr ail gyfarfod ar y cyd ym mis Ebrill, etholwyd Syr Ben Bowen Thomas yn unfrydol yn gadeirydd, ac amlinellodd Meredydd Hughes y camau ansicr tuag at yr 'allor' yn Llundain. Roedd yn ymddangos fel petai llwybr newydd wedi'i agor yn y trafodaethau i uno, sef gweithredu ar y

cyd wrth benodi staff gan ystyried penodi Cyfarwyddwr ar y cyd. Ond nid aethpwyd cyn belled ag uno'n gyfansoddiadol, fodd bynnag.

Ond, yng Nghymru, penderfynwyd y dylai'r ddau gorff oedd yn bodoli ar y pryd barhau mewn enw yn unig am ddim mwy na blwyddyn arall, ac yn y cyfamser y dylai Cyd-bwyllgor weithredu ar ran y ddau fudiad. Felly, i bob pwrpas, dechreuodd y Mudiad Addysg Gristnogol yng Nghymru ar ei waith ar 1 Gorffennaf 1964, gan i'r ddau gorff a'i rhagflaenodd gytuno i ymddiried eu rhaglenni i waith y Cyd-bwyllgor Gweithredu; y Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion yn gyntaf, ar 23 Mai 1964, ac yna'r Sefydliad Addysg Gristnogol wythnos yn ddiweddarach.

Gan ddychwelyd i Amwythig ym mis Gorffennaf, penderfynodd y Cyd-bwyllgor y byddai'r mudiad newydd yn gweithredu fel corff ymgynghorol ar gyfer addysg grefyddol yng Nghymru, yn gwasanaethu athrawon ac awdurdodau addysg lleol, yn ogystal â chadw mewn cyswllt agos â'r eglwysi Cristnogol. Byddai'n cyhoeddi gwerslyfrau a phamffledi yn Gymraeg, ac yn edrych ar yr adnoddau addysgu Saesneg oedd ar gael, gyda golwg ar eu gwella.

Roedd cyrsiau i athrawon hefyd ar agenda'r Cyd-bwyllgor Gweithredu, ond gyda'r ddealltwriaeth y byddai gwaith y mudiad mewn cydweithrediad ag adrannau addysg y colegau a'r prifysgolion. Roedd cynllun gwaith y mudiad newydd hefyd yn cynnwys dod yn fudiad i ddisgyblion hŷn holl ysgolion uwchradd Cymru. Byddai'n rhaid trefnu cynadleddau – 22 i gyd, efallai – i gynnwys y wlad gyfan, a byddai'r gwersylloedd gwyliau a'r criwiau gwaith yn parhau.

Yn olaf, byddai'n rhaid sefydlu cymdeithasau lleol. Byddai angen i'r rhai oedd yn bodoli eisoes, yng Nghaerdydd yn benodol, fod yn aelodau o'r corff Cymreig newydd. Y gyllideb a amcangyfrifwyd ar gyfer cyflawni'r rhaglen am y flwyddyn gyntaf oedd £3,340. Byddai'r rhan fwyaf o'r arian hwn yn dod o'r Awdurdodau Addysg Lleol gan ddefnyddio'r un fformiwla ariannol (yn seiliedig ar nifer y boblogaeth a'r gwerth trethiannol) ag a ddefnyddid gan y cynghorau i ariannu gwaith y Cyd-Bwyllgor Addysg (CBAC). Rhan o waith y Cyd-bwyllgor Gweithredu fyddai sicrhau cytundeb gan yr Awdurdodau Addysg Lleol y byddai'r mudiad yn cael ei ariannu gan lywodraeth leol.

Aed ati'n ddiymdroi i benodi Ysgrifennydd Trefniadol i weithio i'r Cyd-bwyllgor Gweithredu. O blith saith o ymgeiswyr, gwahoddwyd y Parch.

Herbert D. Hughes, o Nantyffyllon, Maes-teg – a fyddai'n datblygu'n ffigwr allweddol yng ngwaith y mudiad – i ymgymryd â'r swydd, am gyflog o £1,250 y flwyddyn. A daeth ymgeisydd aflwyddiannus yn y cyfweliadau hefyd yn ffigwr canolog yn hanes MAGC, sef Rheinallt Armon Thomas. Ar y pryd roedd yn athro mewn ysgol ramadeg yn Bolton, ond cyn hir dechreuodd ar yrfa oes yn Ysgol Addysg Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, gan ddod yn Gyfarwyddwr cyntaf y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol ym Mangor.

Aeth Herbert Hughes, yn ogystal a'r Parch. Philip Lee-Woolf, Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig), i gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Gweithredu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 1964. Ac yn y cyfarfod hwn y trosglwyddwyd gwaith cangen Casnewydd o ardal Bryste i Gymru. Gobeithid y byddai cynifer â deunaw o ganghennau tebyg yn cael eu sefydlu yng Nghymru.

Roedd cynadleddau ysgol y Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion wedi bod yn gyfyngedig i ysgolion gramadeg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfun, ond penderfynwyd mewn egwyddor ymestyn y gweithgareddau hyn i gynnwys cynadleddau cyfochrog ar gyfer ysgolion uwchradd modern a cholegau addysg bellach, gyda phwyslais arbennig ar ddisgyblion y pedwerydd dosbarth, sef y rhai ar eu blwyddyn olaf yn yr ysgol.

Roedd y Pwyllgor Llên eisoes yn brysur yn y flwyddyn hon o newid yn paratoi cyfieithiadau o ddeunyddiau addysg grefyddol i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cyfaddefai'r aelodau, er hynny, eu bod yn ei chael yn anodd iawn atgynhyrchu arddull lafar deunydd gwreiddiol Gwasg Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr, a gynlluniwyd ar gyfer y cwricwlwm i ddisgyblion 15 mlwydd oed yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd 1964 cytunwyd ar y cyfansoddiad ar gyfer y mudiad newydd, yn ogystal â'i enw Cymraeg, sef Mudiad Addysg Gristnogol Cymru (MAGC). Gwahoddwyd dau gynrychiolydd o Gymru i lansiad swyddogol Mudiad Addysg Gristnogol y Deyrnas Unedig ar 22 Ionawr 1965, 13 diwrnod wedi i MAGC ddod i fodolaeth ar 9 Ionawr. Cytunwyd hefyd ar sail y trefniadau ariannol rhwng y ddau fudiad: MAGC fyddai'n gyfrifol am bob apêl a chais i'r Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru, ond byddai'r cyfrifon yn dal i gael eu cadw yn swyddfeydd y Mudiad Addysg Gristnogol yn Annandale, Golders Green.

Y bwriad oedd i'r Cyd-bwyllgor Gweithredu barhau â'i waith am flwyddyn gyfan, ond ar 9 Ionawr 1965 trefnodd gyfarfod ar y cyd yn Amwythig o gynghorau Cymreig y Sefydliad Addysg Gristnogol a'r Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion. Ystyriwyd cyfansoddiad Mudiad Addysg Gristnogol Cymru, ac fe'i mabwysiadwyd yn unfrydol.

Clywyd y byddai gwaith y Sefydliad Addysg Gristnogol yn cael ei barhau drwy'r Panel Llên a'r is-bwyllgor oedd yn paratoi tystiolaeth i bwyllgor y Cyngor Ymgynghorol Canolog ar Addysg Cymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro C. E. Gittins, ac y byddai gwaith y Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion yn cael ei ymestyn drwy gynllunio cynadleddau chweched dosbarth ledled Cymru, yn ogystal â chynadleddau 'blwyddyn gadael' yn yr ysgolion uwchradd modern. Yn sgil hynny, cynigiwyd gan Rhys T. Davies, a'i eilio gan y Parch. Isaac Thomas, y dylid diddymu'r Sefydliad Addysg Gristnogol a'r Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion yng Nghymru, ac y dylid cyfleu gwerthfawrogiad diffuant y cyfarfod i bawb a oedd wedi gweithio mor ffyddlon i'r ddau fudiad.

Pasiwyd yn unfrydol y cynnig i ddiddymu'r Sefydliad Addysg Gristnogol a'r Mudiad Cristnogol i Fyfyrwyr mewn Ysgolion, a daethpwyd â'u gweithrediadau i ben gyda gwasanaeth o diolchgarwch ac ymgysegriad dan arweiniad y Parch. Elfed Davies, gyda Rhiannon Lewis yn darllen o'r Ysgrythur. Y mis canlynol, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng nghapel Siloh, Nantyffyllon, i fendithio gwaith Herbert Hughes, gweinidog y capel, fel Ysgrifennydd MAGC. Philip Lee-Woolf o Bencadlys y Mudiad Addysg Gristnogol roddodd yr anerchiad.

Dechreuadau chwim: 1965–1969

Wrth esgyn i'r gadair ar 3 Mawrth 1965, estynnodd y Llywydd, Syr Ben Bowen Thomas, groeso cynnes i bawb i gyfarfod cyntaf Cyngor newydd Mudiad Addysg Gristnogol Cymru, penllanw ymdrechion y Cyd-bwyllgor Gweithredu dros gyfnod o 15 mis. Yn ei farn ef, roedd gan achos addysg Gristnogol yng Nghymru ddyled fawr i waith ffyddlon y mudiadau a fodolai cyn hynny, ac roedd sefydlu'r mudiad newydd yn galondid mawr iddo. Byddai cysylltiad clòs yn cael ei gynnal rhwng y mudiad a'r hyn a welai fel y Mudiad Addysg Gristnogol yn Lloegr, â'r ddau fudiad yn tyfu ochr yn ochr.

Roedd Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) wedi anfon ei gyfarchion i'r cyfarfod, gan ddatgan bod y datblygiadau yng Nghymru yn rhai calonogol ac y gobeithiai y byddai cydweithio hwylus yn datblygu rhwng y ddau gyngor.

Parhaodd yr ysbryd hyderus hwn wrth i'r Trysorydd, Hamer Jones, adrodd bod pob Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru, ac eithrio Abertawe, wedi ymateb yn gadarnhaol i'r apêl ariannol. Yna cadarnhawyd Herbert Hughes yn ffurfiol fel Ysgrifennydd y mudiad, ac fe fynegodd yntau ei ddiolchgarwch i'r Llywydd am ei gefnogaeth ffyddlon a chadarn i'r mudiad newydd yn ystod cyfnod y trawsnewid.

Roedd cynlluniau eisoes ar y gweill i gynnwys pob ysgol ramadeg ac ysgol gyfun o fewn rhwydwaith y cynadleddau myfyrwyr, ac roedd dau gynllun peilot ar y gweill ar gyfer patrwm tebyg o gynadleddau ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn olaf yr ysgolion uwchradd modern.

Etholwyd T. Glyn Davies yn Gadeirydd cyntaf y mudiad newydd. Ef oedd Cyfarwyddwr Addysg Sir Ddinbych, ac yn ystod ei yrfa hir a nodedig câi ei gydnabod yn arloeswr mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cymunedol, fel ei gilydd. Dewiswyd T. Glyn Davies i draddodi'r ddarlith yng nghyfarfod y mudiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan barhau'r traddodiad a ddechreuwyd gan y Sefydliad Addysg Gristnogol. Er hynny, ychydig iawn oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ac oherwydd diffyg cefnogaeth penderfynwyd canslo'r cyfarfodydd hyn ar gyfer y dyfodol.

Roedd gwersylloedd gwyliau wedi cael eu trefnu ers rhai degawdau gan y Mudiad i Fyfyrwyr Cristnogol mewn Ysgolion yn ogystal â chan gymdeithasau ar wahân ar gyfer merched a bechgyn. Teimlai Cyngor Gwyliau Merched Cymru (Welsh Girls' Holiday Council) y dylent gael eu cynrychioli ar Gyngor newydd MAGC. Ond penderfynodd y cyfarfod cyntaf o Bwyllgor Gwaith y mudiad y byddai panel newydd yn gyfrifol ar ran MAGC am weithgareddau gwyliau a gwersylloedd gwaith, gan ddilyn trefn y Mudiad Addysg Gristnogol yn Llundain.

Yn fuan wedi hyn, cynhaliwyd cyfarfod arbennig rhwng MAGC, Cyngor Gwyliau Merched Cymru a'r Mudiad Gwersylloedd i Fechgyn Ysgol Cymru (Welsh Schoolboys' Camp Movement) i drafod gweithgareddau'r tri mudiad yn y dyfodol. Gan fod diffyg cefnogaeth yn gyffredinol i waith Cyngor Gwyliau Merched Cymru a bod y rhan fwyaf o wersyllwyr y Mudiad Gwersylloedd i Fechgyn Ysgol Cymru yn dod o ysgolion yn Lloegr, teimlid efallai y gallai MAGC roi hwb newydd i waith y gwersylloedd.

Oherwydd hyn, yr oedd mudiadau'r bechgyn a'r merched yn fodlon bod yn rhan o bwyllgor gwyliau/gwersylloedd gwaith arfaethedig MAGC, cyn belled ag y ceid sicrwydd y byddai'r gwersyll haf i fechgyn yn parhau. Cytunwyd i sefydlu cyngor gwersylloedd gyda chynrychiolwyr o bob un o'r mudiadau hyn. Er hynny, erbyn y flwyddyn ddilynol, sef 1966, penderfynwyd na fyddai angen pwyllgor ar gyfer y gwersylloedd wedi'r cyfan, gan fod y Mudiad Addysg Gristnogol yn Llundain yn gwneud y gwaith o drefnu'r gwersylloedd yn ddigonol.

Roedd Mudiad Addysg Gristnogol Cymru yn rhan o gymdeithas ryngwladol a sefydlwyd gan Fudiad Cristnogol y Myfyrwyr, sef Ffederasiwn Myfyrwyr Cristnogol y Byd (World Student Christian Federation). Yn 1966, gwrandawodd aelodau Cyngor MAGC ar adroddiad gan ddau berson ifanc, sef Andrea Quinter o Ysgol Llwyn-y-bryn i Ferched, Abertawe, a Paul Cowen o Ysgol Ramadeg Trecelyn. Cyflwynodd y ddau ohonynt ddisgrifiad gwybodus ac ysbrydoledig o'u profiadau yng nghynhadledd chweched dosbarth y Ffederasiwn yn Woudschoten, yr Iseldiroedd. Roedd Andrea a Paul, yn ogystal â nifer o bobl ifainc eraill a enwebwyd gan yr Ysgrifennydd, wedi cymryd rhan mewn rhaglen deledu ar y BBC o'r enw *Meeting Point*. Yn yr un modd, yn 1967, bu disgyblion o Gaerdydd a Chasnewydd yn trafod eu hymweliad â chynhadledd y Ffederasiwn yn Duisburg yng Ngorllewin yr Almaen.

Yn Adroddiad Blynyddol 1966 rhestrwyd gwaith y mudiad yn ystod blwyddyn lawn gyntaf ei waith ar ei newydd wedd. Roedd y 22 cynhadledd chweched dosbarth a gynlluniwyd wedi'u cynnal, gyda 2,206 o fyfyrwyr yn cymryd rhan ynddynt, yn ogystal ag 11 cynhadledd arall ar gyfer 1,031 o ddisgyblion y pedwerydd dosbarth yn eu blwyddyn ysgol olaf. Cynhaliwyd gwersyll gwyliau ar gyfer merched 11½–13½ mlwydd oed yng Nghrucywel, gwersyll gwaith cymysg i rai 16–19 oed yn Nhyddewi a gwersyll gwaith cymysg, rhyngwladol – gyda hanner y rhai oedd yn cymryd rhan o Tsiecoslofacia – yng Nglynllifon.

Yna, cyfeiriodd Herbert Hughes at y ffaith fod mwy o gynadleddau bellach yn cael eu cynnal mewn tymor nag mewn blwyddyn gyfan yn y gorffennol. Roedd deunydd yn cael ei anfon ymlaen llaw i ysgolion i'w cynorthwyo i baratoi, a byddai ymgais i gynnal cyfarfodydd gyda'r staff yn dilyn y gynhadledd ym mhob ardal. Gan fod yr agwedd hon ar waith y mudiad wedi ehangu mor gyflym, cytunwyd i ffurfio Panel Ysgolion Uwchradd i adolygu a chyfnerthu'r rhaglen oedd yn bodoli eisoes, yn ogystal â sefydlu ac ysgogi patrymau newydd o weithgarwch o fewn yr ysgolion. Un anhawster a achoswyd gan yr ehangu sydyn hwn oedd dod o hyd i arweinwyr a siaradwyr cymwys ar gyfer y cynadleddau. Arweiniodd hyn at ffurfio ysgol hyfforddi ar gyfer gweinidogion a chlerigwyr ifainc dan arweiniad y Parch. Brian Duckworth o Gaerdydd.

Gofynnodd y Parch. T. J. Davies, o Gymdeithas y Beibl, am gymorth MAGC i gynllunio Wythnos y Gair yn Aberystwyth ym mis Awst 1967, gŵyl ar ffurf Kirk Week yr Alban a'r Kirchentag yn yr Almaen. Pobl ifainc fyddai hanner y rhai fyddai'n cymryd rhan yn yr ŵyl, a disgwylid i bob enwad ac Awdurdod Addysg Lleol gydweithio i gynllunio'r digwyddiad. Cytunwyd y byddai MAGC yn ymwneud â'r digwyddiad drwy ei Ysgrifennydd; byddai'n cael secondiad am bythefnos i Gymdeithas y Beibl er mwyn trefnu'r rhaglen ieuenctid.

Er gwaethaf yr hyn a gyflawnwyd ymysg pobl ifainc yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn, a bod hynny'n sylweddol iawn, pryderai rhai nad oedd digon yn cael ei wneud i ddiwallu anghenion athrawon addysg grefyddol yng Nghymru. I'r diben hwn, yn 1967 gwahoddodd y Pwyllgor Gwaith Brychan Hughes o Goleg Addysg Caerdydd i awgrymu pa gymorth y gallai MAGC ei gynnig iddynt. Credai ef y byddai lobïo i sicrhau bod ymgynghorwyr addysg grefyddol ym mhob Awdurdod Addysg Lleol yn annog addysgu'r pwnc yn effeithlon gan ddefnyddio'r dulliau diweddaraf.

Ymhellach, efallai y gallai MAGC adolygu llenyddiaeth a deunydd clyweledol addysg grefyddol, ac y gellid rhannu eu cyngor i'r ysgolion drwy'r Awdurdodau Addysg Lleol. Gallai hyd yn oed ystyried bod yn gyfrifol am lyfrgell ffilmiau ganolog ar gyfer addysg grefyddol yng Nghymru. Teimlai Herbert Hughes hefyd fod angen ymchwilio i grefydd yng Nghymru, yn arbennig gan y byddai'r sefyllfa yno'n debygol o fod yn wahanol i'r sefyllfa yr ymchwiliwyd iddi yn Lloegr.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, cyfeiriwyd at y ffaith fod MAGC *eisoes* wedi cyflwyno dogfennaeth i Bwyllgor Gittins a oedd yn ystyried pob agwedd ar addysg gynradd a throsglwyddo i addysg uwchradd. Roedd y mudiad wedi cynghori Pwyllgor Gittins y dylid penodi ymgynghorwyr addysg grefyddol yn yr ardaloedd poblog i annog mwy o arbrofi a brwdfrydedd mewn addysg grefyddol.

Nodwyd hefyd fod Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) yn darparu gwybodaeth werthfawr i athrawon, ond roedd yn amlwg fod angen sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n ehangach. Er hynny, credai'r Ysgrifennydd fod yr hyn y gellid ei gyflawni gan un gweithiwr amser llawn â chymorth ysgrifenyddol rhan-amser wedi cyrraedd terfyn y byddai'n anodd gwella arno. Pwysleisiodd fod digon o waith ar gyfer dau aelod amser llawn o staff – rhwng y gwaith gyda'r chweched dosbarth, y rhai oedd ar fin gadael yr ysgol, athrawon, gwaith y gangen a chydweithio ag eglwysi – ond byddai'n anodd i Awdurdodau Addysg Lleol roi sêl eu bendith i gefnogi sefydlu cynifer â hynny o aelodau staff mor gynnar ym modolaeth y mudiad.

Felly, tybiwyd y byddai'n ddoeth ceisio chwilio am ffyrdd creadigol o ehangu nifer y rhai oedd yn gweithio i'r mudiad drwy gyfrwng secondiad neu benodiad ar y cyd â sefydliad Cristnogol arall. Cytunodd CBAC i gynyddu cyllid MAGC yn ystod y flwyddyn ganlynol er mwyn darparu gwell cyfleusterau swyddfa i'r Ysgrifennydd, yn ogystal ag ariannu swydd ysgrifennydd rhan-amser yn y gogledd. Erbyn mis Hydref 1967, yr oedd y Parch. Gwilym Hughes o Hen Golwyn wedi ymgymryd â'r gwaith hwn, gan gymryd y cyfrifoldeb dros y gwaith gyda'r rhai iau oedd yn gadael ysgol.

Yn 1968 cynhaliwyd cynhadledd breswyl am dridiau yng Ngholeg Addysg Cartrefle, Wrecsam, er mwyn rhoi digon o gyfle i drafod ac ystyried polisi a blaenoriaethau MAGC. Byddai hwn yn batrwm a fyddai'n parhau hyd y 1970au, gan alluogi'r mudiad i roi ystyriaeth lawn i'r datblygiadau cyflym mewn syniadau ynghylch addysg grefyddol.

Ar ddechrau cynhadledd Cartrefle, amlinellodd yr Ysgrifennydd y modd yr oedd y mudiad yn cael ei dderbyn gan ysgolion, eglwysi ac Awdurdodau Addysg Lleol fel sefydliad gwerthfawr a chyfrifol ym maes addysg grefyddol. Roedd cydweithio'n datblygu â'r Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Gymdeithas Gristnogol Ryng-ysgolion (Inter-schools Christian Fellowship), estyniad o waith y mudiad efengylaidd Scripture Union mewn ysgolion. Gan fod y Mudiad Addysg Gristnogol a'i ragflaenwyr yn coleddu delfrydau Protestannaidd, rhyddfrydol, roedd yr enghreifftiau newydd hyn o gydweithio'n dangos pwyslais ecwmenaidd arwyddocaol.

Roedd gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Gymdeithas Gristnogol Ryng-ysgolion fel ei gilydd rôl bwysig yn natblygiad Cristnogol plant ysgol. Gobeithiai Herbert Hughes yn benodol y byddai dealltwriaeth lawn rhwng MAGC a'r Gymdeithas Ryng-ysgolion. Roedd ei sgyrsiau ag ysgrifennydd y Gymdeithas yn ne Cymru wedi bod yn galonogol, a derbyniwyd awgrym Herbert Hughes y dylai dau sylwedydd gynrychioli'r Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru ar MAGC, er mwyn hwyluso cydweithrediad llawn ag ysgolion Catholig Rufeinig.

Penderfynodd y Cyngor hefyd fynd ati i geisio sefydlu cysylltiadau â Chyngor yr Ysgolion Sul. Byddai'r Cyngor hwnnw'n cael gwahoddiad i enwebu aelod ar gyfer MAGC, a MAGC yntau'n enwebu aelod ar Gyngor yr Ysgolion Sul. Teimlent ei bod yn amlwg y byddai'r ddau fudiad yn elwa o'r cydweithio a'r ddealltwriaeth fyddai'n dilyn o hyn.

Ar y bore Sadwrn, trodd meddyliau'r rhai oedd yn bresennol yng Ngholeg Cartrefle tuag at ystyried tueddiadau a chyfeiriadau newydd mewn addysg grefyddol a moesol. Arweiniwyd y drafodaeth gan y Parch. Ddr Basil Jones, a chyfeiriodd at waith yr Athro Ninian Smart ym Mhrifysgol Lancaster, lle addysgid crefydd bellach heb unrhyw ddatganiad hanfodol Gristnogol fel ei sail. Mewn rhai colegau addysg, meddai, yr oedd cyrsiau addysg grefyddol amgen ar gael lle nad oedd Cristnogaeth yn ddim mwy nag un gangen ymysg eraill.

Awgrymodd Basil Jones fod y tensiwn hwn yn dechrau cael ei deimlo ar lefel yr ysgolion uwchradd, gyda chynnydd yn y galw am grefydd gymharol ar un llaw, ac ar y llaw arall gynnydd yn y disgyblion oedd yn sefyll arholiadau'r Dystysgrif Addysg Uwchradd a Safon Gyffredin y Dystysgrif Addysg Gyffredinol, oedd wedi hen sefydlu, mewn Ysgrythur.

Tro'r ysgolion cynradd oedd hi i ddod dan y chwyddwydr nos Sadwrn, gyda Gwyneth Evans a Pollard Jones yn arwain trafodaeth ar addysg grefyddol i'r oedrannau iau. Er bod llawer o arloesi wedi digwydd mewn addysg i fabanod ac addysg iau, awgrymwyd ganddynt fod gwersi ysgrythur yn aml y tu allan i'r datblygiadau hyn. Awgrymodd y siaradwyr fod amharodrwydd i newid dulliau addysgu yn golygu bod angen ymdrin ag athrawon ysgolion cynradd ar sail leol. Yn y sesiwn cloi ar y bore Sul, penderfynwyd y dylid cynhyrchu llyfryn Cymraeg ar y tueddiadau modern mewn addysgu addysg grefyddol.

Erbyn mis Mehefin y flwyddyn honno, fodd bynnag, daeth yn amlwg fod y bennod gyntaf yn hanes MAGC yn tynnu tua'i therfyn. Roedd Herbert Hughes, yr Ysgrifennydd, wedi cyflwyno'i ymddiswyddiad yn sgil ei benodi'n Ddarlithydd mewn Diwinyddiaeth yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin – y cyntaf o dri o ysgrifenyddion MAGC a aeth ymlaen i swyddi addysgu mewn colegau addysg.

Roedd y mudiad yn dal mewn sefyllfa lle gallai ehangu ei waith yn sylweddol, gyda gwasanaethau Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) i ysgolion cyswllt yn cael eu hymestyn i bob ysgol uwchradd yng Nghymru, a nifer y gwersylloedd gwaith a gynhaliwyd yng Nghymru yn ystod haf 1968 oedd yr uchaf erioed – cyfanswm o saith. Yn anffodus, er gwaethaf anogaeth Herbert Hughes y dylid ceisio sicrhau mai byr fyddai'r bwlch rhwng ysgrifenyddion, nid ymgeisiodd neb addas am y swydd pan gafodd ei hysbysebu gyntaf.

Ni chafwyd newyddion da yn y cyswllt hwn tan fis Mawrth 1969, pan gyhoeddwyd y byddai'r Parch. John Lewis, Pennaeth Addysg Grefyddol Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot, yn cael ei wahodd i fod yn Ysgrifennydd/Trefnydd MAGC ar secondiad o Awdurdod Addysg Morgannwg. Byddai'n dechrau ar ei waith ar gyflog o £1,500 y flwyddyn, gyda lwfans car o £145 y flwyddyn, a chostau o 3¼d y filltir (£1.35 yn arian heddiw).

Gweithiwr newydd: 1969–1973

Dechreuodd John Lewis ar ei waith yn Nhŷ John Penri, cartref Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Abertawe, ym mis Medi 1969. Wrth iddo wneud hynny, gallai'r Trysorydd adrodd fod sefyllfa ariannol Mudiad Addysg Gristnogol Cymru yn iach, er wedi'i chwyddo i ryw raddau gan ôl-daliadau gan rai Awdurdodau Addysg Lleol a'r bwlch – ysgafn yn ariannol – o flwyddyn rhwng ysgrifenyddion.

Roedd Gwilym Hughes, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol, yn falch o adrodd bod amrywiol gynadleddau i fyfyrwyr wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod heb ysgrifennydd, yn ogystal â chwe gwersyll waith: nifer uchel, o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig. Mewn cam oedd yn rhagargoel o'r gwaith manwl a wnaed tua diwedd y 1970au ar y maes llafur addysg grefyddol cytûn, hysbysodd Victor Steele y Pwyllgor Gwaith fod cangen Caerdydd yn teimlo bod diffygion ym maes llafur cytûn 1963 a'u bod yn awyddus i MAGC ystyried hyn.

Gofynnwyd i gangen Caerdydd am fanylion yr hyn oedd yn broblem iddynt o fewn y maes llafur, ond adroddwyd wedi hynny na dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach gan gangen athrawon Caerdydd ynglŷn â hyn. Un mater a godwyd ganddynt, fodd bynnag, oedd dadl a gynhaliwyd gan Gymdeithas Dyneiddwyr Caerdydd ynghylch addysg grefyddol mewn ysgolion. Roedd pwnc bytholrwydd addysg grefyddol statudol yn codi ei ben eto.

Roedd Hywel Evans, Swyddog Pwnc Addysg Grefyddol yn Adran Addysg Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ar y pryd a Phennaeth Coleg Addysg Cartrefle yn ddiweddarach, wedi'i ethol yn Is-gadeirydd MAGC yn 1968. Ar ddechrau tymor yr Ysgrifennydd newydd, gofynnwyd iddo agor trafodaeth ar flaenoriaethau'r mudiad. Gan gydnabod bod angen dewis a dethol yn ofalus yn sgil prinder adnoddau dynol ac ariannol y mudiad, roedd y materion a restrwyd i gyd yn ymwneud ag agweddau athro-ganolog ar waith y mudiad: sefydlu grwpiau lleol i athrawon; edrych yn fanwl ar grwpiau gallu cymysg o fewn yr ysgolion cyfun newydd; y flwyddyn ychwanegol yn yr ysgol pan godwyd oedran gadael ysgol i 16 mlwydd oed yn 1973; a'r cymorth yr oedd ei angen ar athrawon i gyflwyno'r maes llafur cytûn.

Mewn llythyr at John Lewis, cyfaddefodd Hywel Evans ei fod yn teimlo bod Herbert Hughes wedi bod braidd yn esgeulus o'r gwaith ar gyfer athrawon yn ystod ei gyfnod o bedair blynedd fel Ysgrifennydd y mudiad. Roedd yn briodol fod yr ehangu cyflym a wnaethai yn y gwaith ar gyfer disgyblion yn cael ei ganmol, ond roedd bellach yn bryd i'r pendil symud yn ôl tuag at bwyslais addysgol penodol y mudiad ar waith athrawon.

Dadlennodd y drafodaeth a ddilynodd yng nghyfarfod 1969 fod athrawon ysgol gynradd yn aml yn cael eu gadael i wneud fel y mynnent wrth addysgu addysg grefyddol; roedd angen ystyried gofal bugeiliol dros blant yn ystod y trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd – un o brif bryderon Pwyllgor Gittins; roedd angen egluro nod neu athroniaeth addysg grefyddol mewn termau cyfoes ac yn nhermau'r dyfodol; ac roedd angen archwilio'n fanwl rôl athrawon addysg grefyddol o fewn y dyniaethau.

Eitem arall a godwyd gan Hywel Evans yn ei restr o flaenoriaethau ar gyfer MAGC oedd ei argyhoeddiad fod angen rhoi sylw i stad enbyd arholiad Ysgrythur y Dystysgrif Addysg Uwchradd (CSE). Pan ddosbarthwyd cofnodion y cyfarfod – y rhai cyntaf i gael eu paratoi gan yr Ysgrifennydd newydd – fis yn ddiweddarach, ysgrifennodd Hywel Evans at John Lewis yn pryderu'n fawr ei fod wedi mynegi ei farn bersonol braidd yn ormodol. Er ei fod yn mynnu ei bod yn drychinebus fod astudio'r Hen Destament yn orfodol ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwchradd, ond fod dysgeidiaeth Iesu'n ddewisol ar ei chyfer, nid oedd am roi'r argraff fod y mudiad yn ceisio tresmasu mewn maes a oedd yn cael ei reoli'n briodol gan athrawon. Roedd Hywel Evans yn ymwybodol iawn o'r angen am ddoethineb a sensitifrwydd wrth ddelio'n gyhoeddus â'r proffesiwn, er bod ei lythyrau'n dangos ei fod yn ddiflewyn-ar-dafod gyda'r rhai y gallai ymddiried ynddynt.

Flwyddyn yn ddiweddarach, cynhaliwyd cyfarfod dros nos yn Neuadd Reichel, Bangor. Cyflwynodd Dr John Hull o Brifysgol Birmingham ddarlith i aelodau MAGC, yn ogystal â chynulleidfa luosog ac amrywiol o drigolion gogledd Cymru. Ei bwnc oedd 'Beth allwn ni – ac na allwn ni – ei wneud', athroniaeth ar gyfer addysg grefyddol a ysgogodd gryn ymateb o'r llawr.

Ymatebwyd i geisiadau'r flwyddyn flaenorol i ganolbwyntio ar athrawon mewn darlith a gyflwynwyd gan Glenys Roberts, Trefnydd Adrannau Babanod Sir Ddinbych, ar y datblygiadau diweddar mewn Addysg Grefyddol ar lefel 'babanod' (plant 4–7 oed). Erbyn 1972 yr oedd cwrs ar gyfer athrawon babanod wedi'i baratoi, gan ddefnyddio cynifer â phosibl o arbenigwyr ar

fabanod fel arweinwyr grwpiau ac ymgynghorwyr. Roedd dros 30 o athrawon 'babanod' yn bresennol; er bod ganddynt wahanol ragdybiaethau ynghylch addysg grefyddol, yr un oedd eu consýrn am ddatblygiad eu disgyblion. Yn 1973 cynhyrchwyd adnodd ar gyfer oedran babanod, sef *Ar gyfer yfory*, i'w ddosbarthu i gynulleidfa mor eang â phosibl. Ildiwyd yr hawlfraint, gan adael i bawb ei gopïo fel y mynnent.

Erbyn 1971, yr oedd Syr Ben Bowen Thomas wedi camu o'r neilltu fel llywydd y mudiad, a chymerwyd ei le gan T. Glyn Davies. Golygai hyn fod angen cael Trysorydd newydd, a chamodd T. Alun V. Evans, Cyfarwyddwr Addysg Sir Drefaldwyn, i lenwi'r bwlch hwnnw. Cadeirydd MAGC erbyn hyn oedd Hywel Evans, Pennaeth Cartrefle, a hynny'n dilyn marwolaeth y Cadeirydd blaenorol, y Parch. T. Gwilym Davies.

Nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno fod y gweithgareddau a gynhaliwyd ledled Cymru yn anwastad eu natur. Ffactorau megis nifer y boblogaeth, y pellter o ganolfan y mudiad a diffyg pobl i weithio'n lleol oedd yn gyfrifol am yr anghydbwysedd hwn. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd yr angen am gryfhau ansawdd addysgol gweithgareddau'r mudiad, yn hytrach na'u nifer yn unig, er y dangoswyd y gellid cael 'Blitzkrieg' o weithgareddau mewn rhai ardaloedd poblog iawn.

Yn 1972 disgrifiodd John Lewis raglen gytbwys o weithgareddau, yn cynnwys cynhadledd breswyl i fyfyrwyr chweched dosbarth yn Aberystwyth, cynhadledd breswyl i ddisgyblion y pedwerydd dosbarth yn Aberdâr, a nifer o gyrsiau hyfforddiant mewn swydd, yn cynnwys cwrs wythnos i athrawon addysg grefyddol Awdurdod Addysg Sir Forgannwg.

Er gwaethaf pryder Hywel Evans dair blynedd ynghynt na ddylai'r mudiad ymddangos fel petai am ymyrryd ag arholiadau'r Dystysgrif Addysg Gyffredinol, yn dilyn papur gan Banel Ysgolion Uwchradd Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) ar adolygu maes llafur yr arholiadau Addysg Grefyddol, Safon Gyffredin a Safon Uwch, penderfynodd Cyngor MAGC ymwroli a chysylltu â CBAC ynglŷn â'r mater. Ysgrifennodd yr aelodau at y Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth, ond gwrthodwyd eu syniadau'n ddiymdroi gan baneli Ysgrythur CBAC.

Teimlai rhai aelodau o'r paneli nad oedd syniadau'r Mudiad Addysg Gristnogol yn ddigon datblygedig na blaengar. Ond o astudio papur y mudiad, mae'n anodd deall penderfyniad y paneli, a rhaid cydymdeimlo i

raddau â dygnwch swyddogion MAGC wrth iddynt gael eu gwrthod gan CBAC.

Gwnaeth Panel y Mudiad Addysg Gristnogol ymdrech lew i hyrwyddo achos addysg grefyddol o fewn trefn arholiadau 16+ a 18+ y Dystysgrif Addysg Gyffredinol. Yn y lle cyntaf, awgrymodd enw newydd, sef Astudiaethau Crefyddol, ar gyfer arholiadau crefydd y Dystysgrif Addysg Gyffredinol. Dadleuai'r aelodau y gallai'r enw hwn ddisgrifio sawl agwedd ar addysg grefyddol, yn cynnwys Ysgrythur a diwinyddiaeth, yn ogystal ag astudiaethau ar hanes a dehongli crefyddau a moeseg. Roedd panel MAGC wedi pwysleisio bod yn rhaid i Astudiaethau Crefyddol ystyried safbwyntiau croes i'w gilydd yng nghyd-destun cymdeithas blwralaidd a chosmopolitaidd, yn ogystal â goblygiadau credoau ar gyfer ymddygiad. Dylid cyflwyno meta-astudiaeth o grefydd fel crefydd, yn ogystal ag astudio traddodiadau crefyddol eraill. Dylid cyflwyno enghreifftiau o ffydd seciwlar hefyd, yn enwedig ar gyfer Safon Uwch.

Wrth ysgrifennu at John Lewis ym mis Mehefin 1972, teimlai Hywel Evans y byddai'n anodd iawn ysgrifennu at y Cyd-bwyllgor Addysg ynglŷn â'r pwnc hwn eto, er gwaethaf cryfder eu dadleuon, heb wynebu'r posibilrwydd y byddai'r bwrdd arholi'n gwrthod trafod yn ffurfiol â'r mudiad o gwbl. Gwyddai Hywel Evans fod Gwynn Jones, Swyddog Arholiadau'r Dystysgrif Addysg Gyffredinol, yn weddol gefnogol i safbwynt y mudiad, ond yr honnid bod gan ei bennaeth, Andrew Davies, farn bersonol gref ar y mater, ac y byddai rhwystr.

Roedd Hywel Evans yn amlwg yn pryderu am ddelwedd gyhoeddus MAGC, a theimlai na fyddai'n briodol gwneud y mudiad yn agored i gael ei wrthod yn gyhoeddus, petai'n ymddangos y byddai ymateb CBAC yn anffafriol yn y pen draw. Rhoddodd gyfarwyddyd i'r Ysgrifennydd yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol iddo fod braidd yn annelwig ynglŷn â phenderfyniad blaenorol y mudiad ar y pwnc, os nad oedd eisoes wedi gorffen llunio cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 1972.

Er hynny, yn ddigon craff i werthfawrogi posibiliadau gweithredu'n ddiplomatig, penderfynodd Hywel Evans y byddai'n fuddiol codi mater diwygio'r arholiadau yn anffurfiol dros ginio gyda Gwynn Jones ac eraill, er mwyn ceisio darganfod a fyddai Andrew Davies, Ysgrifennydd CBAC, yn agored i gael ei berswadio. Mae'n amlwg i Hywel Evans, yr Is-gadeirydd Eluned Jones a'r Ysgrifennydd fod yn llwyddiannus wrth ddefnyddio'u

swyn dros ginio; nodwyd yng nghofnodion y Cyngor ar gyfer mis Mehefin fod y cyfarfod wedi'i gynnal, ac yn dilyn hynny fod gwybodaeth a syniadau defnyddiol wedi'u rhannu.

Cyfaddefodd CBAC fod MAGC yn wir mewn sefyllfa dda i ysbrydoli defnyddio 'Dull 3' ar gyfer y Safon Gyffredin, ac yn arbennig ar gyfer y Dystysgrif Addysg Gyffredinol. Câi meysydd llafur 'Dull 3' eu llunio'n annibynnol ar y bwrdd arholi, er eu bod yn cael eu cymeradwyo a'u cymedroli ganddo. Roedd y meysydd llafur hyn yn boblogaidd iawn yn ystod y cyfnod dan sylw, a hynny oherwydd newidiadau cyson i'r cwricwlwm. Parhâi'r mudiad yn amlwg i lwyddo i ddylanwadu ar bolisïau cyhoeddus bryd hyn, a hynny'n bennaf oherwydd craffter amyneddgar ei swyddogion.

Datblygiad pwysig arall yn nechrau'r 1970 oedd codi oedran gadael yr ysgol yng Nghymru a Lloegr, o 15 i 16 oed. Ar adeg pan oedd y rhan fwyaf o bobl ifainc yn gadael yr ysgol ar ddiwedd eu cyfnod o addysg orfodol, golygai hyn fod angen newid sylweddol yn isadeiledd addysg o ran darpariaeth gwricwlaidd, staff ac adeiladau ychwanegol ar gyfer pumed flwyddyn ysgol uwchradd. Pwysleisiodd y mudiad yr angen am ddarpariaeth addas a chyflawn ar gyfer disgyblion llai academaidd yn sgil codi'r oedran gadael ysgol.

Yn gynnar yn ystod cyfnod y newid hwn, aeth MAGC ati i ganfod pa gymorth fyddai ei angen ar athrawon addysg grefyddol i addasu i'r oedran gadael ysgol newydd. Sefydlwyd panel i baratoi maes llafur addysg grefyddol ar gyfer y flwyddyn ychwanegol, a hwnnw wedi'i addasu at anghenion disgyblion ym mhumed flwyddyn yr ysgolion uwchradd modern, yn ogystal â disgyblion tebyg yn yr ysgolion cyfun a dwyieithog. Cynhaliwyd cynhadledd hyfforddi lwyddiannus iawn, lle rhoddwyd i'r rhai oedd yn bresennol rannau o gynllun gwaith cydlynol ar gyfer disgyblion y flwyddyn ychwanegol yn sgil codi oedran gadael ysgol yn 1972/73, a gwerthfawrogwyd y gwaith hwn yn fawr gan eu cyd-weithwyr. Cadarnhaodd Cyngor y mudiad fod ei flaengaredd yn y mater hwn yn amserol ac yn ddilys.

Daeth yn amlwg yn 1973, fodd bynnag, fod y newid o weithgarwch ar gyfer disgyblion i weithgarwch ar gyfer athrawon wedi arwain at batrwm anwastad o ran cynadleddau ysgolion. Roedd hyn yn destun gofid, ym marn yr Ysgrifennydd, gan y teimlai y dylai rhaglenni'r mudiad oedd yn canolbwyntio ar yr athrawon a'r rhai oedd yn canolbwyntio ar y disgyblion orgyffwrdd yn gyson. Daeth gweithgareddau ar gyfer disgyblion mewn

cynadleddau ar gyfer y pedwerydd a'r chweched dosbarth, er enghraifft, yn ddigwyddiadau hyfforddiant mewn swydd i'r athrawon oedd yn bresennol. Roedd y cynadleddau lleol a gynhelid ar eu mwyaf effeithiol, adroddodd John Lewis, pan fyddai'r athrawon yn gyffredinol yn mynd â'r syniadau i'r ystafell ddosbarth.

Anogodd T. R. Newell Price, a oedd bellach yn Ysgrifennydd Cyffredinol Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig), y mudiad Cymreig i ystyried y prif faterion oedd yn berthnasol i'w waith: addysg grefyddol, addysg Gristnogol ac ansawdd a diben addysg ei hun. Ym mhob agwedd o'r gwaith, yr oedd angen gwerthuso'r plentyn oedd yn cael ei addysgu, gan fod yn ymwybodol o'i hunaniaeth fel unigolyn. Ni ddylai athrawon ofni ffurfio barn ar sail gwerthoedd, awgrymodd, ond dylent bob amser barchu didwylledd yr unigolyn.

Roedd newidiadau i lywodraeth leol bellach ar y gorwel, wrth i 13 sir a 17 Awdurdod Addysg Lleol Cymru gael eu had-drefnu ar 1 Ebrill 1974 yn wyth awdurdod â chyfrifoldeb dros addysg mewn ysgolion. Awgrymodd Newell Price y byddai hwn yn gyfle delfrydol i swyddogion MAGC ac eraill i annog cael ymgynghorwyr addysg grefyddol ym mhob un o'r Awdurdodau Addysg Lleol newydd. Byddai hwn yn cael ei weld fel cam mawr ymlaen o ran darparu ar gyfer anghenion addysg grefyddol – rhywbeth yr oedd y mudiad ei hun yn unig, fwy neu lai, wedi'i wneud hyd hynny, yn ôl Adroddiad Blynyddol MAGC. Pwysleisiai'r Adroddiad fod y dyfodol yn ymddangos yn addawol i'r mudiad, gyda'r posibilrwydd o fanteisio ar strwythur y siroedd newydd drwy drefnu cyrsiau i ddisgyblion a chynadleddau ar lefel sirol.

Yn 1973 ymddiswyddodd John Lewis fel Ysgrifennydd MAGC wedi iddo gael swydd ddarlithio yng Ngholeg Addysg Abertawe. Yn ei epilog personol, mynegodd ei ddiolch am bedair blynedd o fyw'n anturus. Er hynny, ystyriai fod treulio dwy neu dair awr y dydd, ar gyfartaledd, yn y car yn broblem i waith yr ysgrifennydd, gan awgrymu y byddai'n fwy buddiol treulio'r amser hwn yn ymwneud â gweithgareddau'r mudiad. Roedd Ysgrifennydd Cynorthwyol Gogledd Cymru hefyd wedi ymddiswyddo, a phenodwyd ysgrifenyddion ardal, rhan-amser, byr eu tymor yn aml, i geisio ysgafnhau llwyth gwaith yr Ysgrifennydd cenedlaethol, ond roedd diffyg adnoddau dynol digonol yn parhau'n broblem gyson. Penderfynwyd y dylid ystyried y posibilrwydd o benodi ail berson yn llawn amser wedi i rywun gael ei ddewis i gymryd lle John Lewis.

Roedd cynadleddau preswyl i fyfyrwyr chweched dosbarth wedi bod yn nodwedd o gyfnod John Lewis fel Ysgrifennydd. Ychydig cyn iddo ymddiswyddo, cyfeiriodd at y gynhadledd a drefnwyd ac a arweiniwyd ganddo yn Aberystwyth yn ystod cyfnod y Pasg 1973 fel uchafbwynt ei waith am y flwyddyn, os nad ei gyfnod cyfan yn gweithio gyda'r mudiad. Roedd 48 o ieuenctid o Gymru benbaladr wedi dod at ei gilydd i ddysgu sut y dylai Cristnogion ymateb i faterion yn ymwneud â thanddatblygiad ymysg pobloedd a chenhedloedd y byd. Trysorai'r gynhadledd hon fel digwyddiad gwirioneddol werth chweil a dosbarthodd gopïau o lyfryn o gerddi, *The Third World*, a gynhyrchwyd gan y rhai a gymerodd ran, yn ogystal â threfn gwasanaeth o addoliad a baratowyd gan y myfyrwyr chweched dosbarth eu hunain.

Gweithred olaf yr Ysgrifennydd hwn oedd trefnu cwrs Cymraeg ar gyfer athrawon addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd, er mwyn trafod materion oedd yn ymwneud ag addysgu'r pwnc mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg. Roedd y Cyngor Llyfrau a CBAC yn bresennol yn y digwyddiad yn Aberystwyth i roi gwybodaeth ac arweiniad, ond siomwyd y mynychwyr wrth i'r ddau sefydliad gyfaddef mai cymorth cyfyngedig yn unig y gallent ei gynnig. Byddai'n rhaid i'r athrawon eu hunain baratoi deunyddiau Cymraeg, ac awgrymwyd y byddai galw ar MAGC i gynorthwyo eto yn y dyfodol agos. Roedd y llyfryn *Byw Nawr* ar gyfer pobl ifainc eisoes wedi arwain at nifer o geisiadau i'r mudiad i gynhyrchu rhagor o adnoddau Cymraeg.

Cynnal y weledigaeth, adolygu'r pwrpas: 1974–1984

Yn dilyn bwlch byr, a chyda cydweithrediad ardal y Rhondda o Awdurdod Addysg Sir Forgannwg, dechreuodd Ann Bonner Evans (Mrs Bonner-Steel yn ddiweddarach) ar ei swydd fel Ysgrifennydd MAGC ym mis Chwefror 1974. Byddai'n parhau â'i hymrwymiad fel athrawes Ysgrythur yn Ysgol Gyfun Ferndale a Warden yng Nghanolfan Ieuenctid y Maerdy tan ddiwedd y tymor hwnnw.

Ei blaenoriaeth gyntaf oedd ceisio cysylltu â chyfarwyddwyr addysg yr wyth Awdurdod Addysg Lleol newydd a fyddai'n dod i fodolaeth ar 1 Ebrill. Roedd hefyd yn bwriadu ceisio parhau i ddarparu cyrsiau i ddisgyblion ac athrawon, rhoi mwy o bwyslais ar addysg grefyddol mewn ysgolion cynradd a chynhyrchu mwy o gyhoeddusrwydd i'r mudiad.

Hysbysodd Alun Evans, y Trysorydd, aelodau'r Cyngor / Pwyllgor Gwaith fod gan y mudiad £3,000 mewn llaw, a bod y gyllideb o £5,840 a amcangyfrifwyd ganddo wedi'i chytuno gan CBAC. Ymhellach, roedd y Cyd-bwyllgor wedi derbyn amcangyfrif o £3,230 i gyflogi ysgrifennydd cynorthwyol. Petai'r awdurdodau newydd yn cydsynio, golygai hyn gynnydd sylweddol yng nghyllideb gyffredinol MAGC.

Roedd y cyfarfod dros nos a gynhaliwyd yng Ngholeg Addysg Cartrefle, Wrecsam, yn achlysur addas i ailedrych ar y mudiad ei hun, wrth i Bonner Evans ddechrau ar ei dyletswyddau fel ei ysgrifennydd. Treuliwyd sesiwn yn trafod cynnwys papur a oedd yn cyflwyno barn a phersbectif cyferbyniol ynghylch rôl MAGC yn y dyfodol. Gwnaed y cyfraniadau hyn ar adeg o lwyddiant yng ngwaith y mudiad, ond hefyd ar adeg o her yn sgil ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd y flwyddyn honno, yn ogystal â hinsawdd newidiol bywyd crefyddol a gwleidyddol Cymru. Yn y degawd hwnnw yn gyffredinol cafwyd sawl cyfnod o hunanymholi dwys yng nghanol awydd i adennill yr hyder a oedd wedi dod â'r mudiad newydd yn fyw mor rhwydd. Cynhwysir yma'r prif themâu oedd yn crynhoi'r amrywiol weledigaethau ar gyfer dyfodol y mudiad.

Yn ôl T. Glyn Davies, Llywydd y mudiad, roedd angen i MAGC fod yn barod i'w addasu ei hun i ofynion ysgolion a'r gymuned – gofynion oedd

yn newid yn barhaus, a hynny nid yn araf ond weithiau'n gyflym iawn. Dadleuai fod y mudiad wedi methu datblygu perthynas lwyddiannus gydag eglwysi a gweinidogion Cristnogol, a'i bod yn bryd 'ymosod' ar y maes arbennig hwn yn fwy cadarn.

Atgoffodd Herbert Hughes, Ysgrifennydd cyntaf y mudiad newydd, ei ddarllenwyr fod MAGC, ers ei sefydlu, wedi pwyso am gael ymgynghorwyr addysg grefyddol o fewn yr Awdurdodau Addysg Lleol a hefyd am benodi ail aelod o'r staff i'r mudiad. Roedd y ddau beth hyn bellach ar fin cael eu gwireddu. Roedd wedi rhag-weld mai un o brif wasanaethau MAGC fyddai gweithredu fel fforwm ac ysgogydd ar gyfer syniadau a safbwyntiau newydd mewn cydweithrediad ag ymgynghorwyr a phaneli CBAC.

Cyfeiriodd y Parch. Ddr Glyndwr Harris at faterion yn ymwneud ag ymateb MAGC i'r newidiadau yn y colegau addysg. Gallai'r mudiad gynorthwyo yn y broses ad-drefnu drwy gynnig bydolwg o safbwynt addysg Gristnogol, a dadleuodd fod angen i'r mudiad ddarganfod y prif feysydd lle roedd yn bosib y byddai Cristion ifanc yn profi gwrthdaro wrth geisio gweithredu ei ffydd yn y byd o'i gwmpas.

Gwelai Glenys Roberts yr angen i'r mudiad ddarparu adnoddau fyddai'n galluogi ysgolion cynradd i ragori mewn addoli ar y cyd a gwersi addysg grefyddol. Honnai fod llawer o ysgolion yn gwneud unrhyw esgus dros beidio â chynnal gwasanaeth boreol, o'r ymarferol: 'mae'r offer addysg gorfforol ar y ffordd', y cyffredin: 'rhaid casglu'r arian cinio', i'r mwy gonest: 'dim syniadau'. Roedd yn rhaid dangos i athrawon o hyd sut i gynnal addoliad gyda phlant bychain. O ran addysg grefyddol, gofynnodd a allai MAGC alluogi'r athrawon i werthuso'r deunyddiau a ddewiswyd ganddynt yn feirniadol er mwyn sicrhau eu bod yn addas.

Rhiannon Williams a wnaeth y cyfraniad mwyaf gwrth-ddiwylliannol, efallai, ond eto un radical yn ddiwinyddol. Rhagwelai y byddai MAGC yn chwarae ei ran yn cynorthwyo'r eglwysi i ddeall eu gwaith yn yr argyfwng presennol oedd yn wynebu Cristnogaeth, yn benodol yr angen am ryddhad. Pwysleisiai fod y Byd Cristnogol wedi marw, ac nad oedd cymdeithas bellach yn un Gristnogol. Dyfynnodd eiriau'r Canon David Jenkins (Esgob Anglicanaidd Durham yn ddiweddarach), 'Ni allwn arwain; y cwestiwn yw sut y gallwn gael ein rhyddhau i ddilyn, i ymateb, i fod yn rhan o'r ymateb cyflawn', a gofyn sut yr oedd MAGC am weithredu os byddai'n sicrhau presenoldeb ymysg y rhai hynny a fyddai'n penderfynu ar amcanion addysg.

Y gwirionedd, wrth gwrs, oedd fod y mudiad yng Nghymru wedi'i lyffetheirio'n dynnach wrth weddillion y Byd Cristnogol na'r eglwysi y teimlai Rhiannon Williams y byddai'n cynorthwyo i'w rhyddhau. Derbyniai ei holl arian, bron, o gymhorthdal y llywodraeth ganolog i'r awdurdodau lleol ac o bocedi trethdalwyr Cymru. Mae'n ddiddorol na fu i'r ffaith fod MAGC yn ddyledus i'r awdurdodau seciwlar am ei gyllid erioed boeni ei swyddogion na'i Gyngor. Yn wir, deilliodd brwydrau dirfodol blynyddoedd degawd olaf yr ugeinfed ganrif a degawd cyntaf yr unfed ganrif yr hugain nid o argyfwng ffydd, ond o'r ymryddhau terfynol – anfwriadol, yn wir – o'r Byd Cristnogol: y ffaith nad oedd cyllid gan y llywodraeth bellach ar gael i sefydliad crefyddol.

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Mentrodd yr ysgrifennydd newydd i fyd cyhoeddus polisïau addysg am y tro cyntaf yn gynnar yn 1974 pan fynegodd Gareth Reynolds ei bryder nad oedd Ysgrythur ymhlith y pynciau oedd wedi'u cynnwys yn y Dystysgrif Addysg Estynedig, arholiad oedd wedi'i anelu at ddisgyblion chweched dosbarth y teimlid bod yr arholiadau Safon Uwch yn anaddas ar eu cyfer. Wfftiodd CBAC at bryderon y mudiad, gan ddatgan na fyddai unrhyw bynciau newydd yn cael eu hychwanegu tan 1977. Er hynny, penderfynwyd parhau i bwyso ar CBAC ynglŷn â'r mater. Wrth ymateb, dadlennodd y Cyd-bwyllgor y meini prawf ar gyfer cynnwys pwnc o fewn y dystysgrif newydd, sef y deg pwnc oedd â'r nifer mwyaf yn sefyll yr arholiad ar lefel y Dystysgrif Addysg Gyffredinol.

Teimlai'r Cyngor, fodd bynnag, ar sail y meini prawf hyn, y dylai Ysgrythur yn sicr fod wedi'i gynnwys fel pwnc. Byddent yn cysylltu eto ag Andrew Davies, Ysgrifennydd CBAC, i'w hysbysu bod MAGC yn parhau'n anesmwyth ynglŷn â'r mater. Roedd y mudiad wedi dangos ei gonsýrn penodol tuag at y disgyblion hynny y bwriedid y Dystysgrif Addysg Estynedig ar eu cyfer, yn union fel yr oedd wedi darparu cyrsiau ar gyfer rhai fyddai'n gadael yr ysgol yn gynnar ac wedi paratoi cynlluniau gwaith yn ystod y newidiadau yn sgil codi oedran gadael yr ysgol.

Gan adrodd o Lundain, dywedodd Eluned Jones fod polisïau'r Mudiad Addysg Gristnogol wedi cael eu cwestiynu, ac y byddai comisiwn yn archwilio sut y gallai'r 'rhanbarthau' (y cenhedloedd Celtaidd, mae'n debyg) ddod yn hunangynhaliol. Cyfeiriwyd yn agored yn y cofnodion at y comisiwn hwn fel 'gweithgor Lloegr', a chytunwyd y byddai swyddogion MAGC yn cwrdd â'i aelodau.

Daeth agwedd y Parch. John Sutcliffe, Ysgrifennydd Cyffredinol Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig), yn amlwg yn ystod hydref 1974. Mewn llythyr at ei Gadeirydd ym mis Hydref, nododd Alun Evans, Trysorydd MAGC, fod Llundain wedi gosod cyfyngiadau ar gyflogau ysgrifenyddion rhanbarthol. Mynnodd, er hynny, yn ei lythyr ef at John Sutcliffe na fyddai'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i Gymru. Daeth ymateb o'r pencadlys yn awgrymu bod yr hyn a delid am weinyddiaeth ranbarthol yn rhy isel; teimlid nad oedd Cymru'n cyfrannu digon, ac na ddylid trin Miss Bonner Evans yn wahanol i'r aelodau 'rhanbarthol' eraill.

Cyfaddefodd Alun Evans iddo gael ei gynhyrfu gan hyn, gan fod Ysgrifennydd CBAC wedi cwestiynu lefelau cyfredol y taliadau i'r Mudiad Addysg Gristnogol, a oedd dros £600 y flwyddyn. Aeth ymlaen i honni bod Sutcliffe wedi plymio ar ei ben i fater sensitif yn y berthynas rhwng y mudiad yng Nghymru a phencadlys y Mudiad Addysg Gristnogol, lle roedd ef ei hun yn troedio'n ofalus. At hynny, roedd gan Sutcliffe argyfwng oedd gryn dipyn yn fwy dwys ar ei ddwylo: ceisio adfer cyllid y mudiad wedi i ddiffyg anesboniadwy o £40,000 ymddangos ar y gyfriflen.

Parhaodd yr ymyrraeth o Lundain ym mis Rhagfyr, y tro hwn mewn llythyr gan John Sutcliffe at Hywel Evans. Er yn cyfaddef bod angen ail ysgrifennydd – y swydd gynorthwyol oedd yn cael ei hysbysebu ar y pryd – yng Nghymru, pwysleisiodd Sutcliffe nad oedd yn cytuno mai hon oedd yr adeg briodol i hysbysebu swydd wag. Ychwanegodd y byddai Cymru'n ymddangos fel petai'n cael ffafriaeth annheg o fewn teulu'r Mudiad Addysg Gristnogol gan y pencadlys, os byddent yn parhau â'r broses. Yn drahaus, bron, anogodd Sutcliffe Alun Evans i beidio â symud ymlaen heb ei gynnwys ef fel Ysgrifennydd Cyffredinol a chynrychiolydd y mudiad cyfan.

Yn ystod 1975, gofynnodd y ddau sylwedydd ar ran y Catholigion Rhufeinig, sef y Tad Regan a'r Tad Breen, am gael dod yn aelodau llawn o'r Cyngor, er nad oedd hyn o anghenraid yn golygu eu bod yn cytuno â holl bolisi'r Mudiad Addysg Gristnogol. Croesawyd eu haelodaeth lawn gan y Cyngor. Ailystyriwyd yr hen gwestiwn: 'addysg grefyddol ynteu addysg Gristnogol?' unwaith eto yn ystod y cyfarfod, wrth i drafodaeth fywiog ddilyn y sylw gan Gomisiwn Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) mai mudiad Cristnogol ydoedd yn sylfaenol, ac y dylid cadw'r gair Cristnogol yn rhan o enw'r mudiad.

Cadarnhawyd enw'r Parch. Brian Evans, y Bermo, yn Ysgrifennydd Cynorthwyol, ac fe'i cyflwynwyd fel gweinidog Annibynnol ac arweinydd ieuenctid rhan-amser, profiadol. Mynegodd Ann Bonner Evans ei gwerthfawrogiad i bawb oedd wedi gwneud y gynhadledd chweched dosbarth oedd wedi'i chynnal ychydig cyn hynny yn llwyddiant. Cynhaliwyd cynadleddau i ddisgyblion yn Abertawe, ac arddangosfeydd o adnoddau yng Nghaerllion ac Abertawe, a diolchwyd i Banel Athrawon Addysg Grefyddol y Rhondda am drefnu cynadleddau ar gyfer disgyblion y pedwerydd a'r chweched dosbarth. Roedd myfyrwyr Ysgrythur yn y chweched dosbarth wedi mynychu cwrs yn Hwlffordd, ac er bod cynhadledd chweched dosbarth a gynhaliwyd ychydig cyn hynny ym Môn wedi bod yn eithaf llwyddiannus, teimlid nad oedd digon o ddefnydd wedi'i wneud gan ysgolion o'r deunydd oedd wedi'i anfon atynt ymlaen llaw.

Mynegodd Herbert Hughes ei rwystredigaeth ynghylch y ffordd y cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Addysg Grefyddol yn Llundain, ond teimlai fod llawer o fudd wedi'i gael o'r trafodaethau yno, yn enwedig o bapur Edwin Cox, 'A ellir cael cytundeb ynghylch Addysg Grefyddol?'

Yn y cyfamser, gallai John Sutcliffe adrodd bod cyllid y Mudiad Addysg Gristnogol yn fwy sefydlog y flwyddyn honno, er gwaethaf lefel uchel chwyddiant. Roedd y comisiwn yn awyddus iawn i'r mudiad a'i rannau cyfansoddol gydgysgylltu'n well; er y byddai nifer aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cael ei leihau, byddai'n cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau MAG Cymru, yr Alban ac Iwerddon.

Yna, trodd swyddogion MAGC eu sylw at Awdurdod Addysg Lleol De Morgannwg. Roedd athrawon Caerdydd eisoes wedi mynegi amheuon ynghylch y maes llafur cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol yn ystod 1969, ac roedd yr olwynion bellach yn troi ar gyfer galw cynhadledd i drafod y maes llafur yn yr Awdurdod Addysg Lleol newydd. Ysgrifennodd Hywel Evans at Eluned Jones yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf i'w hysbysu bod Fred Adams, Cyfarwyddwr Addysg De Morgannwg, wedi dweud wrtho fod yr awdurdod yn awyddus i symud ymlaen â'r gwaith o adolygu'r maes llafur cytûn.

Teimlai Hywel Evans nad oedd yn dymuno atgoffa Fred Adams mai'r Mudiad Addysg Gristnogol (drwy'r corff a'i rhagflaenodd, sef Cymdeithas Gymreig y Sefydliad Addysg Gristnogol) oedd wedi bod yn gyfrifol am y ddau faes llafur Cymreig blaenorol dan Ddeddf Addysg 1944. Y rheswm

dros ei amharodrwydd i wneud hyn oedd ei deimlad ei bod yn annhebygol iawn y byddai MAGC yn dymuno ymgymryd â gwaith sylweddol o'r fath ar y pryd.

Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, dengys gohebiaeth bellach fod Eluned Jones a Hywel Evans yn parhau'n anesmwyth ynglŷn â'r mater. Honnai Eluned Jones fod Dafydd Treharne, ymgynghorydd Addysg Grefyddol De Morgannwg, wedi bod yn cysylltu â'r athrawon ynghylch y maes llafur, ac efallai'n wir eu bod wedi'i berswadio, ar sail eu hanesmwythyd, i drefnu cynhadledd. Ymhellach, honnai Dafydd Treharne mai'r Cyfarwyddwr Addysg oedd y mwyaf pleidiol dros newid, a bod yr athrawon yn cefnogi cynllun Fred Adams.

Rhannai Eluned Jones amheuon Hywel Evans am y sefyllfa yn y sir, gan ofidio bod y maes llafur yn cael ei adolygu tua dwy flynedd yn rhy gynnar. Atebodd Hywel Evans nad oedd yn sicr a oedd yn dymuno i'r mater gael ei drafod yn fanwl mewn cyfarfod o MAGC, gan y tybiai y byddai cymaint o weithgarwch ar y gweill fel y byddai'n mynd â sylw'r ddau ysgrifennydd oddi wrth eu gwaith ar y pryd. Roedd yn amlwg am i'r mudiad ganolbwyntio ar ei dasg addysgol greiddiol, yn hytrach na gorfod ymdrin â materion trefniadol.

Bydd sylw pellach yn cael ei roi i'r maes llafur cytûn yn ddiweddarach yn y bennod hon. Cyn hynny, rhaid ystyried yr anawsterau a gafwyd gyda rhai o'r gweithgareddau ar gyfer y myfyrwyr. Roedd gwersylloedd gwaith wedi bod yn nodwedd lwyddiannus o waith y mudiad tua diwedd y chwedegau ac yn 1975 adroddodd yr Ysgrifennydd am wersyll o'r fath yn Islington: math ar waith ymarferol â sail Gristnogol benodol oedd yn cynnwys gweithgareddau dilynol gan eglwys leol. Penderfynwyd archwilio'r syniad o ailgyflwyno'r gwersylloedd hyn yng Nghymru.

I'r diben hwnnw, gallai Ann Bonner Evans adrodd iddi fod yn trafod ag Urdd Gobaith Cymru ynghylch trefnu gwersylloedd gwaith ar y cyd. Fel y cyfeiriodd Anne England, roedd yr Urdd mewn bodolaeth ers dros hanner canrif ac roedd ei aelodaeth bellach yn 50,000. Ei arwyddair o hyd oedd gwasanaeth – i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist – er mwyn creu cenedl gyfrifol, a rhoddai gryn bwyslais ar estyn allan yn gymdeithasol drwy ei wersylloedd, gweithio gyda rhai ag anabledd corfforol a Chymorth Cristnogol.

Yn ddiweddarach, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd fod cymhorthdal o £312 wedi'i dderbyn gan y mudiad Cymorth Trefol (Urban Aid) tuag at gynnal gwersyll gwaith ym Mangor. Cafwyd rhybudd gan John Sutcliffe fod

gwersylloedd gwaith yn ddrud iawn, ond roeddent yn ymdrech i gydlynu amrywiol weithgareddau'r mudiad. Yn y diwedd, bu'n rhaid canslo'r gwersyll yn hytrach na'i gynnal heb ddigon o wirfoddolwyr, gan y byddai hynny'n peryglu'r bobl ifainc a fyddai'n ei fynychu ac enw da'r mudiad gyda chyrff cysylltiedig a'r Awdurdodau Addysg Lleol.

Roedd y gynhadledd genedlaethol i fyfyrwyr chweched dosbarth hefyd yn fregus a than fygythiad yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf diffyg cyllid gan yr Awdurdodau Addysg Lleol, cynhaliwyd cynhadledd Pasg 1976 yng Nghaerfyrddin – ar y thema 'Un Byd?' – gyda nifer llai yn ei mynychu. Roedd cwrs preswyl chweched dosbarth yn y Fenni wedi'i ganslo, yn ogystal â chwrs i athrawon ym Mhowys. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, barnwyd bod cynhadledd breswyl chweched dosbarth Gorllewin Morgannwg yn llwyddiant, a chafwyd adroddiadau ffafriol gan brifathrawon lleol.

Er hynny, oherwydd yr hinsawdd economaidd, byddai'n rhaid ailystyried ariannu a dyfodol y gynhadledd genedlaethol. Y bwriad oedd cynnal cynhadledd 1977 yng Ngholeg Trefeca, ar y thema 'Chwalu Ffiniau – Adeiladu Pontydd'. Ni allai'r Awdurdodau Addysg Lleol roi grantiau i ddisgyblion eu mynychu, a rhoddwyd caniatâd i'r Ysgrifennydd ei chanslo, petai raid. Roedd hi'n awyddus iawn i barhau â'r gynhadledd breswyl genedlaethol, ac yr oedd yn drychineb yn wir pan roddwyd y gorau ymhen hir a hwyr i'r cyswllt hwn â gorffennol y mudiad.

Bu cynhadledd 1977 yn llwyddiant yn y pen draw, ond yr oedd hynny oherwydd parodrwydd Coleg Trefeca i estyn y dyddiad cofrestru hyd at y munud olaf, bron. Golygodd hynny fod y gynhadledd yn llawn hyd at yr ymylon. Er hynny, cadarnhawyd pryderon Ann Bonner Evans ynghylch dyfodol y gynhadledd hon y flwyddyn ganlynol, wrth i'r trysor pennaf ymysg cynadleddau disgyblion MAGC gael ei disodli gan wersyll ymarferol/astudio yn Nyfed dan yr enw 'addysg amgen', sef adnewyddu hen ysgol nad oedd yn cael ei defnyddio bellach.

Yn 1976 gwnaed ymdrech hefyd i adfer presenoldeb MAGC ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd gan Fudiad Cristnogol y Myfyrwyr (SCM) stondin yno, er bod prinder deunyddiau Cymraeg yn anhawster mawr. Fel menter fasnachol, bu hyn yn fethiant, gan mai £62.40 yn unig o ddeunyddiau Cymraeg MAGC a werthwyd, ond roedd yr Ysgrifennydd yn falch fod y babell wedi golygu bod presenoldeb y mudiad i'w weld yn eglur ar y Maes.

Yn yr un flwyddyn, adroddodd Gareth Reynolds fod pamffledi Cymraeg MAGC wedi'u dosbarthu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac i'r ymateb fod yn ffafriol. Roedd y Cyngor Llyfrau wedi cynnig cynorthwyo gyda gwirio'r cyfieithiadau a rhoi cyngor ar gyhoeddi, yn ogystal â chyfeirio at adnoddau'r mudiad yn eu taflen newyddion am lyfrau. Yn y cyfamser, roedd Cyngor yr Ysgolion Sul ar fin cyhoeddi llawlyfr ar gyfer rhai dan 11 oed a chyfres newydd i rai dros 11 oed.

Cynhyrchwyd adnoddau hefyd gan y Cyngor Addysg Grefyddol, mudiad newydd â'r nod o hyrwyddo addysg grefyddol fel pwnc aml-ffydd. Aeth aelodau MAGC ati i gynnal trafodaeth ar rinweddau rhai o gyhoeddiadau'r Cyngor Addysg Grefyddol. Dywedodd M. L. Evans fod deall y Beibl yn hanfodol mewn addysg grefyddol. Wrth i athrawon ddelio â phlant o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel gwactod ysbrydol, roedd yn anodd iddynt ddeall mwy nag un ffydd. Dadleuwyd mai'r ateb, efallai, fyddai cyflwyno Cristnogaeth fel 'cyfarfyddiad'. Honnai fod agwedd bositif yn cael dylanwad positif, a allai newid bywydau.

Awgrymodd G. A. L. Owens, ar y llaw arall, mai swyddogaeth athrawon addysg grefyddol oedd gwneud i blant feddwl. Nid oedd ffeithiau hanfodol yn cael eu gwthio i lawr gyddfau pobl, meddai, mewn disgrifiad braidd yn lliwgar o'r sefyllfa. Nid oedd efengylu yn y dosbarth yn gweithio, ac roedd methodoleg addysgu effeithiol yn hanfodol. Roedd brwdfrydedd, meddai, yn heintus.

I grynhoi, dywedodd y Cadeirydd fod y drafodaeth wedi dangos bod diffyg cytundeb clir ynghylch amcanion addysg grefyddol. Ond, yn ddiddorol, iddo ef nid oedd ceisio cyfosod y safbwyntiau gwahanol hyn yn ymarfer diwerth. Yn hytrach, ymresymai Hywel Evans y dylai'r Cyngor geisio diffinio amcanion addysg grefyddol, yn ogystal ag addoli ar y cyd mewn ysgolion. Cynhaliwyd y drafodaeth hon ym mis Rhagfyr 1975, a chylchredwyd papur trafod yn cynnwys barn saith o aelodau'r mudiad. Mae eu cyfraniadau'n haeddu eu cynnwys yn helaeth yma, gan eu bod yn archwilio mewn modd systematig farn amrywiol iawn athrawon ac eraill ar gyflwyno crefydd a chrefyddau i ddisgyblion ysgol.

I ddechrau, awgrymodd y Tad Edwin Regan (Esgob Wrecsam yn ddiweddarach) fod egwyddor gyntaf dadl resymegol – sef yr angen am ddiffinio'r termau – yn cael ei hanwybyddu wrth drafod amcanion addysg grefyddol. Fel aelod o Eglwys Rufain, credai mai bwriad addysg grefyddol

oedd cyfleu neges iachawdwriaeth: mynd â'r Efengyl at ddynion. Ei nod penodol oedd datblygu ffydd, a hynny ar sail cyffes.

Gofidiai Margaret Hemmings nad oedd gan athrawon syniad clir o'r hyn a olygid gan addysg grefyddol orfodol, a hynny genhedlaeth wedi i Ddeddf 1944 gael ei phasio. Mor gynnar ag astudiaeth Harold Loukes yn 1961 i gredoau crefyddol pobl ifainc yn eu harddegau, dangoswyd bod nifer sylweddol o'r ieuenctid yn teimlo bod addysg grefyddol yn yr ysgol yn 'blentynnaidd ac yn amherthnasol'.

Felly, holodd Margaret Hemmings, sut y gellid datrys problem addysg grefyddol? Awgryma fod athrawon yn ymwneud ag addysg gydol oes. Pan fyddai eu disgyblion wedi hen anghofio dyfyniadau o waith Shakespeare, a manylion polisïau Walpole a Disraeli, beth fyddai athrawon yn *gobeithio* y byddai eu disgyblion yn ei gofio? Onid gwell dealltwriaeth ohonynt eu hunain, eu lle mewn cymdeithas a gwerth pobl eraill? Rhaid i athrawon bob amser ddefnyddio dull agored; nid eu lle hwy yw 'rhwydo' disgyblion i dderbyn unrhyw ffydd arbennig, ac ni ddylent fod yn rhy awyddus i 'addysgu'r Beibl'.

Os oedd athrawon yn credu bod addysg grefyddol yn bwysig, yna roedd yn rhaid iddynt ei chyflwyno mewn ffordd mor ddiddorol, mor gyffrous ac mor heriol â phosib. Roedd crefydd yn berthnasol i fywyd yn ei gyfanrwydd. Roedd Duw ym mhobman, ac nid pwnc cyfyng ei derfynau oedd addysg grefyddol.

Cyfaddefodd Siân Daniel fod ei barn hi ynghylch addysg grefyddol yn seiliedig ar theori ac ychydig o arsylwi. Er hyn, credai'n gryf na ddylid ystyried addysg grefyddol yn bennaf mewn termau ysbrydol, moesol, eglwysolegol, hanesyddol neu ddiwylliannol. Ei nod, yn hytrach, oedd addysgu pobl mewn 'ffyrdd crefyddol', gan eu harwain at ddealltwriaeth ddyfnach o eraill, yn ogystal â chael mwy o ymrwymiad iddynt. Byddai hyn yn arwain at wella hunanymwybyddiaeth a meddwl yn ddyfnach. Os deellir amcanion addysg grefyddol yn y modd hwn, yna rhaid cyflwyno crefydd yn ei chyfanrwydd. Byddai cynifer o gredoau crefyddol a systemau o feddwl â phosibl, yn ogystal â chynifer o gwestiynau athronyddol â phosibl, yn cael eu cynnwys yn y maes llafur.

Awgrymodd cyfraniad John Sutcliffe y gellid, yn y cyd-destun cymdeithasol cyfoes, gynnig gwirionedd Cristnogol, ond byddai'n rhai iddo ateb cwestiynau, dangos ei sail a'i ddilysu ei hun mewn profiad. Dylai'r Beibl

fod yn ganolog fel dogfen o arwyddocâd enfawr yn ymchwil grefyddol y ddynoliaeth. Yn benodol, y Beibl yw dogfen safonol y ffydd Gristnogol; heb wybodaeth ohono, nid yw'n bosibl gwneud asesiad deallus o hawl Cristnogaeth i'r gwir. Y ffordd fwyaf ystyrlon o gyflwyno natur a hawl Duw yw drwy'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd. Dylid cyflwyno Iesu, felly, nid fel ymwelydd estron, ond fel y norm clasurol, ffurf nodweddiadol gwir ddynoliaeth.

Yn fras, i David Burch, dylai addysg grefyddol yn yr ysgolion gwladol anelu at estyn ymwybyddiaeth y disgyblion o rai o'r cwestiynau sylfaenol a chynhenid sy'n berthnasol i'r cyflwr dynol, yn ogystal ag annog dealltwriaeth o ddimensiwn crefyddol bywyd a chydymdeimlad tuag ato. Roedd hyn yn golygu bod angen dysgu am grefyddau eraill heblaw Cristnogaeth, ond roedd y cysylltiadau cryf rhwng y grefydd honno a'r gymdeithas ym Mhrydain yn golygu mai ar Gristnogaeth y dylai addysg grefyddol yn ysgolion Prydain barhau i ganolbwyntio'n bennaf. Ym marn Burch, dylai addysg grefyddol gynorthwyo disgyblion i fod yn fwy hyddysg mewn gwybodaeth grefyddol, ac yn fwy sensitif i'w credoau eu hunain a chredoau rhai eraill. Gall addysg hefyd chwarae rhyw ran yn ymchwil plentyn am ffydd i'w dilyn, a dylai wneud hyn.

Pwysleisiodd J. Lloyd-Williams fod addysg grefyddol yn ymwneud ag addysgu am fodolaeth duwdod, yn ogystal ag ufuddhau i'r cod ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan ddilynwyr y duwdod hwnnw. Dysgir am fodolaeth Duw drwy ganiatáu i'r plentyn amgyffred rhyfeddodau natur y bydysawd, gan gydnabod Duw fel creawdwr y bydysawd hwnnw. Yna, dysgir geiriau, defodau a gweithredoedd addoli fel ymateb i barchedig ofn ac edmygedd y plentyn tuag at y grym creadigol rhyfeddol hwn.

Mae datblygu'r enaid a'r ysbryd dynol yn hanfodol i J. Lloyd-Williams, a hynny er mwyn cyflwyno syniadau ysbrydol a ffurfio gwerthoedd haniaethol; gall astudio syniadau gwych a phobl ddylanwadol fod yn rhan hanfodol o addysg grefyddol. Yn olaf, pan fydd duwdod yn cael ei adnabod a'i addoli, bydd cyfreithiau'r duwdod yn cael eu derbyn. Rhan o dasg yr addysgwr crefyddol yw gwneud yn eglur beth yw'r cyfreithiau hynny. Rhaid astudio bywyd Crist er mwyn gwerthfawrogi ei werthoedd a'i ofynion; y syniadau am ofalu a thosturio a amlygwyd ganddo. Gallai fod yn ddiddorol astudio crefydd wahanol i'ch crefydd eich hun, ym marn Lloyd-Williams, ond dim ond pan fyddai'r datblygiad ysbrydol wedi cyrraedd aeddfedrwydd. Felly, yn eithaf diweddar yn y cwricwlwm ysgol y byddai hynny'n digwydd, os o gwbl.

Yn olaf, mynegodd G. A. L. Owens rwystredigaeth athrawon addysg grefyddol ledled y wlad: mewn un wers addysg grefyddol yr wythnos roedd angen cyflwyno maes llafur parod, eithriadol o ddiddorol, gan 'daranfollt' o athro oedd yn gorlifo o egni, ac a allai berswadio'r disgyblion fod addysg grefyddol cyn bwysiced â phob pwnc arall, er gwaethaf y ffaith mai hanner yr amser a neilltuid ar ei chyfer.

Ychydig yn gellweirus, felly, awgrymodd G. A. L. Owens mai nod cyntaf addysg grefyddol oedd cael ei chydnabod yn gyfwerth â gweddill cwricwlwm yr ysgol. Os addysg grefyddol oedd y Sinderela ymysg pynciau blynyddoedd cynnar yr ysgol uwchradd, faint o ddisgyblion fyddai'n ei ddewis fel pwnc ar gyfer arholiadau'r Dystysgrif Addysg Uwchradd (CSE) neu'r Dystysgrif Addysg Gyffredinol (GCE), holodd. Y tu hwnt i sefydlu statws cyfartal, roedd yn hanfodol fod credoau sylfaenol Cristnogaeth yn cael eu cyflwyno, ond nid mewn modd fel y byddai plant a phobl ifainc yn teimlo bod rhywun yn 'pregethu' wrthynt; roedd yn gas ganddynt gael rhywun yn dweud wrthynt *beth* i'w feddwl. Ymhellach, ni fyddai tri chwarter y dosbarth yn eu credu, yn syml oherwydd bod yr athro wedi dweud wrthynt fod yn rhaid iddynt wneud hynny! Nid gwneud i blant gredu oedd gwaith athrawon addysg grefyddol, ond cyflwyno hanfodion Cristnogaeth gan ddefnyddio'r holl ddeunyddiau oedd ar gael i ysgogi'r meddwl.

Yn ogystal, roedd angen gwneud Cristnogaeth yn berthnasol i sefyllfaoedd mewn bywyd go iawn, er enghraifft, mewn perthynas ag eraill, patrymau ymddygiad a rôl gwyddoniaeth. Yr hyn oedd ei angen oedd arweiniad i feddwl yn adeiladol, yn hytrach na phregethu; rhaid i'r disgyblion hefyd gael y fraint o allu dewis ymwrthod hefyd. Cyfaddefai G. A. L. Owens y dylai'r bobl ifainc, o bosibl, tua diwedd eu gyrfa ysgol weld Cristnogaeth mewn perthynas â chrefyddau eraill.

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Bedair blynedd ynghynt, roedd CBAC wedi bod yn eithaf dilornus o gynlluniau'r mudiad i ddiwygio maes llafur y Dystysgrif Addysg Gyffredinol (GCE). Erbyn 1976, fodd bynnag, adroddodd A. C. Williams o'r Cyd-bwyllgor y byddai maes llafur addysg grefyddol newydd ar gael cyn hir. Byddai'r fanyleb hon yn cynnwys elfen an-Feiblaidd o fewn y ddau bapur: papur gorfodol ar y Testament Newydd, a phapur arall dewisol – un ai ar yr Hen Destament neu 'Crefydd mewn byd sy'n newid'.

Ymddeolodd Hywel Evans fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn hon, a hynny oherwydd yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'pwysau amgylchiadau', a chymerwyd ei le gan Fred Adams, Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir De Morgannwg. Tybiai Hywel Evans fod llawer wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd blaenorol, ond mai araf iawn fu'r cynnydd yn y gwaith o ymwneud â'r eglwysi, sefydlu canghennau lleol a gwella delwedd gyhoeddus y mudiad drwy'r cyfryngau. Roedd ei goleg hyfforddi, Coleg Cartrefle, wedi dod yn rhan o sefydliad newydd Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru, ac roedd yn gwbl ymwybodol o'r pwysau a ddeuai yn sgil newidiadau sefydliadol.

Byddai adolygu'r maes llafur addysg grefyddol cytûn ar gyfer Cymru gyfan yn rhan sylweddol o waith MAGC dros y pedair blynedd nesaf. Yn betrus, awgrymodd Herbert Hughes y dylai'r Cyngor drafod dyfodol y maes llafur gan fod MAGC wedi etifeddu rhywfaint o gyfrifoldeb amdano yn sgil rôl bwysig y mudiadau a'i rhagflaenodd yng nghynadleddau'r maes llafur ddechrau'r chwedegau. Sefydlwyd gweithgor i ystyried y cwestiwn hwn, a chyfarfu am y tro cyntaf ym mis Medi 1976 yng ngwesty'r Wellington yn Aberhonddu. Gyda gwir ostyngeiddrwydd, roedd yr is-bwyllgor yn barod o'r cychwyn cyntaf i ofyn y cwestiwn deublyg: a oedd yn briodol yn awr i awgrymu maes llafur newydd, ac a oedd gan MAGC unrhyw beth rhesymol i'w ychwanegu at y broses?

Atgoffodd Glyndwr Harris o Athrofa Addysg Uwch Gwent y cyfarfod fod meysydd llafur y gorffennol gan mwyaf yn Feibl-ganolog ac yn Gristnogol eu pwyslais. Roedd gofyn a oedd angen maes llafur newydd yn rhagdybio nad oedd yr un presennol yn ddigonol bellach. Pwysleisiodd Glyndwr Harris y dylai maes llafur newydd ddiwallu'r anghenion presennol, gan gadw mewn cof y chwyldro mewn addysg grefyddol, ac yn arbennig y datblygiadau mewn theori gwricwlaidd oedd yn berthnasol i addysg grefyddol. Ond awgrymodd y byddai angen iddo barhau i gynnwys partneriaeth rhwng yr eglwys a'r ysgol. Nid partneriaeth ar sail awdurdod fyddai hon, fodd bynnag, ond un a fyddai'n archwilio ystyr addysg. Roedd maes llafur cytûn yn cael ei benderfynu'n lleol gan y gymuned addysgol a'r gymuned grefyddol, a dylai amlygu crefydd fel yr ymchwil am gyflawnder dwyfol ac estyn allan i fywyd personol a chenedlaethol.

Os byddai MAGC yn parhau'n niwtral ynghylch y maes llafur, yna roedd perygl y gallai'r Awdurdodau Addysg Lleol ddechrau'r broses eu hunain, fel a oedd eisoes wedi digwydd yn Ne Morgannwg. Daeth y cyfarfod i ben yn gytûn fod maes llafur 1963, a baratowyd gan y Sefydliad Addysg Gristnogol,

yn parhau i fod yn werthfawr. Er hynny, gyda thwf ysgolion cyfun, codi oedran gadael yr ysgol i 16 oed, a'r datblygiadau niferus i'r cwricwlwm addysg grefyddol er 1963, yr oedd angen rhywfaint o adolygu ar y maes llafur presennol. Ond ymarferiad seithug fyddai'r gwaith llafurus o baratoi maes llafur statudol, cytûn, newydd. Byddai'n ddigon ychwanegu datganiad newydd o amcanion yn rhagair i faes llafur 1963, a pharatoi llawlyfr o ganllawiau wedi'i baratoi gan athrawon ar gyfer athrawon.

Wrth i'r Cyngor dderbyn ymddiswyddiad Brian Evans fel Ysgrifennydd Cynorthwyol, cofnodwyd diolch diffuant yr aelodau iddo am ei gyfraniad i waith y mudiad. Er bod penodi olynydd i Brian Evans yn y gwaith yng ngogledd Cymru yn bwysig, penderfynwyd gadael y mater hyd nes y byddai'r sefyllfa ariannol yn cyfiawnhau hysbysebu'r swydd wag. Adroddodd yr Ysgrifennydd ei bod wedi torri tir newydd gan fod gwaith Brian Evans yn y gogledd wedi'i rhyddhau i ganolbwyntio ar y de: cynhaliwyd saith gynhadledd disgyblion yng Ngwent, y Rhondda, Caerdydd ac Aberhonddu, yn ogystal â chyrsiau i athrawon ac arddangosfeydd addysg grefyddol. Dychwelodd at y thema hon yn yr Adroddiad Blynyddol: oherwydd ei bod yn treulio llai o amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i ogledd Cymru, llwyddodd i ganolbwyntio ar ddatblygu gweithgareddau yn nes at ei swyddfa yn Ferndale. Cyfaddefodd na allai'r sefyllfa ffodus hon barhau bellach, ond gobeithiai y gellid dod o hyd i rywun yn lle Brian Evans yn fuan.

Ym mis Chwefror 1977 cyflwynodd Jean Davies, un o Arolygwyr ei Mawrhydi, adroddiad, sef Arolwg Addysg Cymru Rhif 3: Addysg Grefyddol yn Ysgolion Uwchradd Cymru. Mae'n werth ei astudio'n fanwl gan ei fod yn amlygu rhai materion hanfodol bwysig am y pwnc yn ysgolion Cymru ddiwedd y 1970au. Un ffactor pwysig oedd prinder cenedlaethol o athrawon â chymwysterau mewn addysg grefyddol. Dywedwyd yn bendant yn yr Arolwg fod gwybodaeth arbenigol yn hanfodol ar gyfer rhai agweddau ar addysg grefyddol. Ond, yr un pryd, yr oedd diddordeb a brwdfrydedd gan lawer oedd yn addysgu addysg grefyddol heb unrhyw arbenigedd, a byddent yn croesawu hyfforddiant mewn swydd.

Roedd yr amser a neilltuid ar gyfer addysg grefyddol hefyd ymhell o fod yn foddhaol. Nid oedd rhai ysgolion yn cyflawni eu goblygiadau dan Ddeddf Addysg 1944, ac roedd yn destun pryder nad oedd llawer o benaethiaid ysgolion yn deall y rhesymeg addysgol dros gynnwys addysg grefyddol o fewn y cwricwlwm. Roedd gormod o blant yn derbyn ychydig iawn o addysg grefyddol, h.y. un wers 35 munud yr wythnos yn unig.

Roedd un wers yn annigonol, gan ei bod yn amhosibl gwneud unrhyw gynnydd ystyrlon tuag at gyflawni amcanion addysg grefyddol o fewn amserlen mor dynn. Ni allai'r athrawon sefydlu perthynas ddigonol â'r disgyblion, ac roedd yn rhaid iddynt addysgu nifer fawr iawn o ddisgyblion yn ystod yr wythnos. Honnai'r penaethiaid nad oedd ganddynt ddigon o arbenigwyr addysg grefyddol ar y staff i ddysgu dosbarthiadau arholiad a'r dosbarthiadau statudol, di-arholiad.

Adroddodd tri chwarter yr ysgolion a ymatebodd i'r holiadur oedd yn sail i'r Arolwg mai eu prif reswm dros addysgu addysg grefyddol oedd er mwyn dysgu'r Beibl a'r neges Gristnogol, a dywedodd dros chwarter ohonynt eu bod yn dymuno gwneud eu plant yn ymwybodol o'r dimensiwn crefyddol i fywyd. Er bod llawer o athrawon yn Gristnogion diffuant, yn yr Arolwg teimlid bod angen pwysleisio mai addysgwyr yw athrawon, ac nid cenhadon ac efengylwyr.

Roedd yn rhaid i athrawon ddarganfod y ffordd fwyaf effeithiol o wneud eu gwaith, ac roedd yn rhaid iddynt ddeall cyd-destun, gwerthoedd a blaenoriaethau eu disgyblion. Yn aml iawn mewn gwersi addysg grefyddol, tueddid i gymryd yn ganiataol fod y disgyblion yn mynychu eglwys neu gapel neu ysgol Sul. Ond roedd pob plentyn mewn man unigryw ar daith bywyd a'i ymchwil i ddarganfod beth oedd gwir ystyr bod yn ddynol. Tanlinellodd yr Arolwg y pwynt na all unrhyw athro neu athrawes, pa mor fedrus bynnag ydyw, addysgu plentyn i fod yn grefyddol. Ond efallai y gallai rhai athrawon addysg grefyddol berswadio pobl ifainc o realiti a dilysrwydd y maes o fewn eu datblygiad. Ni ddylid caniatáu i wersi addysg grefyddol esgeuluso agweddau emosiynol ac ysbrydol addysg.

Ceisiai'r Arolwg ysgogi dadl rhwng syniadau gwahanol am grefydd, gan holi a oedd addysg grefyddol wedi canolbwyntio'n rhy gul ar roi gwybodaeth ac adeiladu corff o wybodaeth, ac ar hynny yn unig. Dadleuai Jean Davies mai'r cwestiwn dyfnach a mwy sylfaenol oedd: Beth yw addysg *grefyddol* mewn gwirionedd? Pwysleisiai fod ymateb, creadigrwydd, dychymyg, perthynas bersonol, ac ymdeimlad o'r dwyfol i gyd yn elfennau o'r dimensiwn ysbrydol, ac awgrymodd fod hanfod addysg grefyddol yn ymwneud â'r elfennau ysbrydol hyn. Byddai llai o berygl i addysg grefyddol golli ei nodweddion hanfodol petai'r pwnc yn cael ei gynnwys yn yr un grŵp â cherddoriaeth, drama, celf, llenyddiaeth a dawns, yn hytrach na chyda hanes, daearyddiaeth ac astudiaethau cymdeithasol.

Wrth i'r gyfrol hon gael ei chwblhau, ddeugain mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Papur ar Addysg yng Nghymru a drafodir yma, mae'n berthnasol gofyn tybed a yw awgrym yr Athro Graham Donaldson y dylid cynnwys addysg grefyddol o fewn maes dysgu a phrofiad y dyniaethau (yn ei adroddiad, *Dyfodol Llwyddiannus*, i Lywodraeth Cymru yn 2015) yn peryglu addysg grefyddol i'r un graddau yn awr ag a wnâi yn y 1970au?

Roedd angen i ysgolion benderfynu, felly, a oedd creu ethos penodol a hybu rhai gwerthoedd yn fwriad ganddynt. Sut, holodd Jean Davies, y gallent gyflwyno disgyblion i ffyrdd eraill o feddwl a dulliau o gael gwybodaeth y tu hwnt i'r empiriaeth a nodweddai gymaint o'r cwricwlwm? Os empiriaeth oedd yn peri pryder i Jean Davies yn y 1970au, i ba raddau y mae'r holl faes addysg yng Nghymru wedi'i hudo gan ysfa gyffredinol am gaffael sgiliau – a hynny, fe ymddengys, ar draul celf, gwerth a hyd yn oed moesoldeb – yn yr unfed ganrif ar hugain?

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Er bod is-bwyllgor Aberhonddu wedi mynegi dymuniad i'r perwyl mai CBAC ddylai arwain y gwaith o baratoi maes llafur newydd, cafwyd gwybodaeth newydd gan Adran Addysg y Swyddfa Gymreig ym mis Rhagfyr 1976 a fu o fantais i'r mudiad. Roedd y gweision sifil wedi rhybuddio'r cyfarwyddwyr addysg eu bod yn torri rheoliadau Atodlen 5 o Ddeddf 1944 drwy barhau i ddefnyddio'r meysydd llafur a fabwysiadwyd gan y 17 cyn-Awdurdod Addysg Lleol. Gan fod y siroedd newydd bellach wedi cael chwe mis i ddechrau cywiro'r sefyllfa, erbyn mis Chwefror 1977 yr oedd MAGC wedi cytuno i baratoi maes llafur drafft newydd i'w ystyried gan yr Awdurdodau Addysg Lleol. Byddai'r is-bwyllgor yn parhau â'i waith, er y byddai angen cymorth arno gan rywun a allai gyfrannu persbectif ysgol iau (ar gyfer plant 7–11 oed) ar feysydd llafur addysg grefyddol.

Erbyn mis Tachwedd yr oedd y maes llafur drafft wedi'i ddosbarthu'n helaeth, a gallai'r Ysgrifennydd adrodd i'r ymateb iddo fod yn ffafriol; er enghraifft, derbyniwyd llythyr gan Archesgob Gwilym Williams o'r Eglwys yng Nghymru yn canmol MAGC am ei waith. Fel yr oedd Hywel Evans wedi proffwydo gyda gofid dair blynedd, bron, cyn hynny, yng Nghyngor mis Mawrth 1978 rhagwelai Ann Bonner Evans y byddai llawer o'i hamser dros y deuddeng mis nesaf yn cael ei dreulio gyda'r gwaith o gyflwyno'r maes llafur drafft i'r siroedd.

Cyflwynodd Glyndwr Harris Faes Llafur Drafft MAGC ar gyfer addysg grefyddol ei hun, gan bwysleisio mai bwriad y ddogfen oedd iddi gael ei defnyddio'n eang gan athrawon fel sbardun i weithredu. Byddai dogfennaeth helaeth yn cael ei chynhyrchu i gynorthwyo'r Awdurdodau Addysg Lleol i'w gweithredu, a chymorth yn cael ei gynnig i'r rhai fyddai ei angen.

Mynnodd Herbert Hughes y dylai'r maes llafur fod yn fodd o wella statws addysg grefyddol, ac y dylid perswadio'r Awdurdodau Addysg Lleol i ddarparu mwy o raglenni hyfforddiant mewn swydd a gwell darpariaeth addysg grefyddol mewn ysgolion, yn ogystal â phenodi ymgynghorwyr addysg grefyddol ym mhob sir. Yna, cymerodd is-bwyllgor y maes llafur y cyfrifoldeb dros ysgrifennu'r canllawiau i gyd-fynd â'r maes llafur.

Estynnodd G. O. Roberts o'r BBC wahoddiad i'r Cyngor i lunio a chyflwyno cyfres o bum darllediad radio addysgol, 20 munud o hyd, un ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, wedi'u hanelu at athrawon, disgyblion ac eraill oedd yn ymwneud ag addysg grefyddol. Derbyniwyd y gwahoddiad hwn mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng nghanolfan y BBC ei hun yn Llandaf, a chan mai'r mudiad oedd wedi paratoi'r maes llafur drafft newydd, teimlid mai hwn fyddai'r pwnc mwyaf addas ar gyfer y darllediadau. Er gwaethaf y penderfyniad i fanteisio ar swyddfeydd braf y BBC, ni allai'r Cyngor benderfynu ar iaith y rhaglenni. Is-bwyllgor yn unig allai wneud penderfyniad ar fater mor ddyrys, wrth gwrs, ac felly fe'i trosglwyddwyd i'w ystyried a dod i benderfyniad!

Penderfynodd y grŵp hwn y byddai'r tair rhaglen gyntaf yn Saesneg, a'r ddwy olaf yn Gymraeg. Pwnc y ddwy raglen Saesneg gyntaf fyddai'r modd yr oedd addysg grefyddol yn newid, a'r drydedd yn trafod addoli yn yr ysgol. Byddai'r ddwy raglen Gymraeg yn trafod yr un pynciau. Sicrhaodd y BBC y Cyngor y byddai'r darllediadau, a fwriadwyd ar gyfer haf 1978, yn cael cyhoeddusrwydd eang drwy gyfrwng posteri a datganiadau i'r wasg. Yn dilyn y darllediadau, barnwyd i'r rhaglenni fod yn rhai gwerthfawr, ac y byddai'r Gorfforaeth yn cael ceisiadau am fwy o ddarllediadau o'r math hwn.

Judith Coleman oedd Ysgrifennydd Cynorthwyol MAGC yn ystod 1977/78. Disgrifiodd y cynulliad ieuenctid Cristnogol Dayspring, oedd wedi'i gynnal yn Nhyddewi yr haf hwnnw. Fe'i trefnwyd dan nawdd Uned Ieuenctid Cyngor Eglwysi Prydain, a daeth 1,200 o bobl ifainc o bob enwad a heb enwad ynghyd i wersylla o amgylch y gadeirlan mewn ymchwil am ysbrydolrwydd dyfnach ac ymdeimlad mwy clòs o gymuned.

Adroddodd Judith Coleman fod pobl ifainc o'r pedair gwlad o fewn Prydain bellach yn ystyried cynnal cynulliadau ieuenctid er mwyn deall sut y gallent gymryd rhan lawn ym mywyd yr eglwys Gristnogol. Hefyd, trafododd W. D. John a Glanville Jones adroddiad Cyngor Eglwysi Prydain ar 'Y Plentyn yn yr Eglwys'. Atgoffwyd y cyfarfod gan Glanville Jones fod yr adroddiad yn dweud cymaint am yr eglwys ag a wnâi am y plentyn, gan honni, hyd nes y deuai'r eglwys *yn wir* yn eglwys, na allai ddisgwyl meithrin plant o'i mewn.

Roedd blynyddoedd olaf y 1970au yn gyfnod anodd yn y berthynas rhwng MAGC a'r Mudiad Addysg Gristnogol, y mudiad oedd yn cyfateb iddo yn Lloegr yn bennaf. Yng nghofnodion un o gyfarfodydd y Cyngor yn 1977 datgelir, braidd yn amwys, fod Ann Bonner Evans, yr Ysgrifennydd, wedi cyfarfod â John Sutcliffe, Ysgrifennydd Cyffredinol Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig), i drafod y newid yn y Cyfansoddiad, gan ddatgan yn swta fod hyn bellach yn nwylo'r cyfreithiwr.

Daeth pethau'n gliriach y flwyddyn ganlynol, pan eglurwyd bod cynlluniau ar y gweill i newid cyfansoddiad Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) mewn modd fel y byddai Mudiad Addysg Gristnogol Cymru yn cael ei ddisgrifio fel rhanbarth o'r prif fudiad 'Seisnig', a than gwmpas ei gyfansoddiad canolog. Adroddodd y Trysorydd hefyd nad oedd cyflog yr Ysgrifennydd Cynorthwyol newydd wedi'i benderfynu eto, a hynny oherwydd yr hyn a ddisgrifiodd fel 'rhywfaint o anghytuno' rhwng yr hyn a alwodd ef yn bencadlys y mudiad yn Lloegr a Phwyllgor Gwaith Cymru.

Adroddodd y Llywydd, T. Glyn Davies, ei fod ef a Herbert Hughes wedi mynd i gyfarfod gyda'r cyfreithiwr yn Llundain yn ogystal â swyddogion pencadlys y mudiad 'Seisnig' (gan gyfeirio ato yn y dull hwn am yr ail waith yn y cofnodion hyn). Pwysleisiodd T. Glyn Davies eto bwysigrwydd cael cytundeb ar eiriad y cyfansoddiad, er mwyn diogelu safle MAGC yn y dyfodol. Roeddent yn bryderus oherwydd bod Llundain yn bwriadu gwrthod caniatáu i MAGC ei reoli ei hun fel y gwnaethai yn y gorffennol.

Erbyn y cyfarfod nesaf, roedd y cofnodion wedi'u cywiro i nodi mai aelodau cyfatebol Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) oedd yn bresennol yn y cyfarfod oedd Cadeirydd ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Mudiad. Mae'n amlwg fod rhywun wedi cael ei berswadio i awgrymu'r newid hwn, ond roedd rhywfaint o ddrwgdeimlad i'w weld yn glir. Fe aeth Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) ati i adolygu ei Reolau, sef ei offeryn llywodraethu, er gwaethaf ymgais gan MAGC i ohirio cydsynio â'r newid.

Erbyn 1980, teimlai'r mudiad Cymreig fod angen iddo adolygu ei gyfansoddiad ei hun, a luniwyd yn 1965, a hynny'n sylweddol er mwyn dangos yn glir ei fod yn fudiad annibynnol, yn ffeithiol ac yn ymarferol. Dywedodd Hywel Evans fod y Cyngor wedi trafod y mater nifer o weithiau, ond nad oedd modd cael cytundeb terfynol. Roedd Pwyllgor Gwaith y Mudiad Addysg Grefyddol yn Llundain wedi ystyried cynigion y Cyngor, ond teimlai na allai dderbyn y cyfansoddiad Cymreig fel yr oedd.

Ysgrifennodd Glenys Roberts, cynrychiolydd MAGC ar Bwyllgor Gwaith Mudiad Addysg Grefyddol (Y Deyrnas Unedig), at Hywel Evans ym mis Awst, gan gynnwys rhannau o lythyr yr oedd wedi'i dderbyn gan John Sutcliffe. Disgrifiodd dôn ei lythyr fel un cecrus wrth iddo awgrymu bod swyddogion Cymru wedi torri eu gair ynglŷn â thalu cyfraniad Cymru i Fudiad Addysg Gristnogol y Deyrnas Unedig. Roedd John Sutcliffe hefyd wedi atodi'r cofnod o drafodaeth Pwyllgor Gwaith y Mudiad Addysg Gristnogol ar gyfansoddiad drafft MAGC, sy'n cael ei wrthod yn y dull canlynol: 'Yr oedd y drafft yn gyffredinol mor annerbyniol fel na threuliwyd unrhyw amser yn ystyried y manylion'. Ymddengys bod y prif wrthwynebiad wedi'i grynhoi yn yr honiad y dylai Cyfansoddiad Cyngor y Mudiad (h.y. Mudiad y Deyrnas Unedig) yng Nghymru fod yn amlwg yn seiliedig ar Gyfansoddiad Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig). Mewn geiriau eraill, o'r Mudiad Addysg Gristnogol ehangach yr oedd MAGC wedi deillio, ac yn y pen draw nid oedd ganddo unrhyw sofraniaeth dros ei faterion ei hun.

Parhaodd y gwaith ar gyfansoddiad Cymreig newydd ond erbyn 1981 roedd yn rhaid i Fred Adams, y Cadeirydd, egluro, er y gobeithid bod yna sail i gytundeb, ei bod yn eglur bellach fod gwahaniaeth barn sylfaenol rhwng y rhai a deimlai mai mater o ymdrin â manion cyfansoddiadol oedd hyn a'r rhai oedd yn ceisio sicrhau bod hunaniaeth MAGC yn cael ei chydnabod, yn ogystal â gallu'r mudiad i ymateb i anghenion Cymru. Felly, yn anfoddog, er mwyn osgoi achosi mwy o anghytuno, gadawyd y mater heb ei setlo. Byddai Cyfansoddiad 1965 yn cael ei gadw, yn ogystal â'r Pwyllgor Gwaith 'dros dro', sef corff a sefydlwyd i ysgwyddo rhywfaint o faich gweinyddol Cyngor llawn MAGC.

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Roedd datblygiadau newydd eraill yn dod yn amlwg mewn addysg grefyddol yng Nghymru yr adeg hon. Yn 1978 cyhoeddodd Edwin Lewis fod Cyngor Ysgolion Cymru wedi sefydlu pwyllgor i ystyried adnoddau ar gyfer addoli

ar y cyd ac addysg grefyddol yn Gymraeg. Roedd hanner aelodau'r pwyllgor yn aelodau o MAGC. Mewn ymateb, mynegodd Herbert Hughes ei farn y dylai'r mudiad ddod yn fwy o 'system glirio' ar gyfer y gwaith oedd yn cael ei wneud ar y pryd, er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion.

Y flwyddyn honno hefyd cyflwynwyd adroddiad ar waith Kathy Dover gyda grwpiau Cristnogol mewn ysgolion i Bwyllgor Gwaith y Mudiad Addysg Gristnogol yn Llundain. Roedd hi wedi dangos bod grwpiau'r Mudiad Addysg Gristnogol yn brin iawn, â'r rhan fwyaf o grwpiau ysgolion dan yr hyn a ddisgrifiwyd ganddi fel 'dylanwad ffwndamentalaidd'. Roedd y Mudiad Addysg Gristnogol yn argyhoeddedig mai'r hyn yr oedd pobl ifainc ei angen oedd ymrwymiad Cristnogol diffuant heb agwedd ffwndamentalaidd eithafol, er nad oedd adroddiad Kathy Dover fel petai'n egluro sut yr oedd yr agwedd honno'n rhwystr i'r ymrwymiad hwn.

Yn benodol, mynegodd Philip Roderick, Ysgrifennydd Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr yng Nghymru, bryder ynghylch amlygrwydd grwpiau Undeb Cristnogol yn ysgolion Cymru, a'r ffaith nad oedd yna ddewis arall yn aml i bobl ifainc nad oedd yn cael eu denu gan y math hwnnw o Gristnogaeth. Dywedodd Ann Bonner Evans fod grwpiau ysgol wedi bod yn flaenoriaeth yn ei hamserlen hi ar un adeg, ond ei bod wedi darganfod nad oedd gan MAGC ddigon o bobl nac adnoddau i'w datblygu. Cyfeiriodd at bwysigrwydd cael athro neu grŵp o ddisgyblion brwdfrydig mewn ysgol, gan y gallent sefydlu a chynnal grŵp. Er hynny, ceisiodd John Sutcliffe liniaru'r feirniadaeth agored o Gristnogaeth efengylaidd drwy awgrymu bod angen sensitifrwydd mewn materion o'r fath er mwyn hybu amrywiaeth yn hytrach na gwrthdaro.

Cyflwynodd Eurwen Morris, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol yn ystod 1978/79, adroddiad ar y gynhadledd i ddisgyblion y pedwerydd dosbarth yn Wrecsam a'r cynadleddau chweched dosbarth yn yr Wyddgrug, Bae Colwyn, Pwllheli a Dolgellau. Yn gyffredinol, roedd llawer yn mynychu'r cynadleddau hyn, a'r disgyblion yn frwdfrydig, ac roedd y trafodaethau'n fywiog ac yn adeiladol. Adroddodd Eurwen Morris hefyd fod Cyngor yr Ysgolion Sul wedi penderfynu gofyn i bob Awdurdod Addysg Lleol benodi ymgynghorydd addysg grefyddol, a gobeithiai y gellid trafod cydweithio rhwng ysgolion Sul ac ysgolion sirol.

Roedd y Swyddfa Gymreig wedi dyrannu grant o £400,000 i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, i baratoi deunyddiau Cymraeg i addysgu daearyddiaeth, hanes ac addysg grefyddol yn nhair blynedd gyntaf yr

ysgol uwchradd. Trafodwyd manyleb newydd y cwrs Safon Uwch mewn Astudiaethau Crefyddol hefyd gan Eurwen Morris, a bwysleisiodd yr angen am hyfforddiant mewn swydd i alluogi athrawon i addysgu'r dewisiadau newydd.

Roedd Maes Llafur Drafft MAGC wedi'i gyflwyno i gyfarfodydd CBAC a'r Awdurdodau Addysg Lleol, a derbyniwyd llawer o lythyrau o werthfawrogiad am waith y mudiad. Yn y cynadleddau a drefnwyd dan Atodlen 5 Deddf Addysg 1944 yr oedd nifer o awdurdodau yn barod iawn i dderbyn dogfen MAGC fel eu maes llafur cytûn. Dosbarthodd Victor Steele o gangen De Morgannwg ddogfen yn amlygu pwysigrwydd llunio maes llafur cytûn newydd ar gyfer y 1980au. Penderfynwyd anfon copi o'i ddogfen at Gyfarwyddwr Addysg pob Awdurdod Addysg Lleol, a phenderfynodd chwech ohonynt ei dosbarthu i bob ysgol, at sylw penaethiaid a chyrff llywodraethu.

Mynnai Victor Steele fod angen i addysgu crefyddol roi'r sylw dyladwy i'r newidiadau mewn cymdeithas er 1944; ymhlith y pwysicaf ohonynt yr oedd presenoldeb nifer cynyddol o bobl yng Nghymru oedd yn dilyn ffydd wahanol i Gristnogaeth. Yn ychwanegol at hyn, roedd lleihad amlwg wedi digwydd mewn ymlyniad crefyddol yng Nghymru yn y degawdau blaenorol.

Addysg grefyddol oedd yr enw oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer y pwnc yn ysgolion Cymru bellach, yn hytrach na'r enwau a ddefnyddid yn y gorffennol, megis Ysgrythur, hyfforddiant crefyddol, neu wybodaeth grefyddol, ac yr oedd athrawon erbyn hyn yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno enghreifftiau byw a lleol o grefyddau eraill i'r plant. Pwysleisiwyd hefyd nad diben addysg grefyddol oedd efengylu neu gyflyru meddyliau; gwaith eglwysi oedd hynny. Roedd gwaith ysgolion yn fwy cymhleth: cyflwyno dealltwriaeth o natur crefydd ei hun, ynghyd â ffydd ac arferion pobl oedd yn cymryd eu crefydd o ddifrif.

Felly, disgyblaeth academaidd, wrthrychol oedd addysg grefyddol, ochr yn ochr â phynciau eraill yn y cwricwlwm wrth iddynt geisio datblygu pob disgybl fel person. Y rheswm dros apelio at bwysigrwydd addysg grefyddol yn y ffordd hon oedd er mwyn ceisio sicrhau bod pwyllgorau addysg, athrawon a llywodraethwyr ysgolion yn rhoi'r amser a'r adnoddau ariannol angenrheidiol i addysgu'r pwnc yn gywir. Heb gefnogaeth o'r fath, yn ôl Victor Steele, byddai'n amhosibl cyflwyno'r pwnc yn ddigonol.

Anfonodd Rheinallt Thomas, o'r Ganolfan Addysg Grefyddol newydd yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, neges i longyfarch MAGC ar y maes llafur newydd. Amlinellodd y cyfleoedd a gynigid gan y ganolfan newydd o ran ymchwil a datblygiad, yn ogystal â'r newidiadau i'r maes llafur a gweithredu'r newidiadau hynny. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn ceisio cydweithio ag ef, ac fe'i gwahoddwyd i annerch yr aelodau.

Pan aildrefnwyd sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn 1977, eglurodd Rheinallt Thomas, unwyd Coleg Addysg y Santes Fair ym Mangor ag Adran Addysg Coleg y Brifysgol i ffurfio Ysgol Addysg Coleg Prifysgol Gogledd Cymru. Yn dilyn yr uno, sefydlwyd Ymddiriedolaeth Coleg y Santes Fair i'r diben o gefnogi amcanion addysgol yr Eglwys yng Nghymru, fel a wnaed gynt gan Goleg y Santes Fair.

Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth y dylid sefydlu canolfan addysg grefyddol yn yr Ysgol Addysg, a derbyniodd awdurdodau'r coleg (Prifysgol Bangor bellach) y cynnig yn llawen. Bwriad y ganolfan fyddai cynnal ymchwil ar addysg grefyddol, datblygu deunyddiau ar gyfer cwricwlwm addysg grefyddol, cyfrannu at hyfforddiant cychwynnol i athrawon a hyfforddiant mewn swydd i athrawon mewn addysg grefyddol a gofal bugeiliol, a bod yn ganolfan adnoddau ar gyfer addysg grefyddol. Gobeithid y byddai'n gweithredu fel canolfan genedlaethol i Gymru i'r dibenion hyn.

Mewn cyfarfod yn 1980, penderfynwyd gwahodd Rheinallt Thomas i ddod yn aelod o Gyngor MAGC. Hefyd, yn y flwyddyn honno, daeth Rhiannon Lloyd-Williams yn ysgrifennydd cyswllt i'r mudiad yng ngogledd Cymru am ddeugain diwrnod y flwyddyn, a byddai swyddi tebyg yn cael eu hysbysebu ar gyfer y de-orllewin a'r gogledd-ddwyrain.

Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd Glenys Roberts y Cadeirydd, Fred Adams, ar dderbyn y CBE yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 1981. Adroddodd y Trysorydd fod CBAC wedi cymeradwyo cyfraniad o £14,960 i'r Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer 1981/82, ond rhybuddiodd y gallai'r sefyllfa fod yn llai boddhaol yn y dyfodol, gan fod y Cyd-bwyllgor wedi penderfynu mai'r awdurdodau lleol yn unigol fyddai'n pennu lefel y cyfraniad wedi hynny.

Adroddodd yr Ysgrifennydd, Mrs Bonner-Steel, yn dilyn ei phriodas ychydig cyn hynny, fod Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) wedi dynodi 1982/83 yn flwyddyn "Ffocws ar y Beibl". Sefydlwyd pwyllgor i fod yn gyfrifol am y prosiect yng Nghymru, yn cynnwys darparu'r deunyddiau

fyddai eu hangen yn Gymraeg, gyda Herbert Hughes a Glyndwr Harris yn gynullwyr iddo. Adroddodd Mrs Bonner-Steel ymhellach fod nifer o gynadleddau ysgolion wedi'u cynnal ar gyfer disgyblion o'r pedwerydd, y pumed a'r chweched dosbarth; roedd y rhain yn dal i dderbyn cefnogaeth dda ac yn cael eu gwerthfawrogi gan ysgolion. Hefyd, trefnwyd cyfarfodydd cydenwadol ar gyfer y Rhondda yn ymwneud â nifer o themâu. Cytunwyd i ddosbarthu dogfen gan Gyngor Eglwysi Prydain ar Eglwys yr Uniad (y 'Moonies'), gan fod rhai prifathrawon wedi mynegi pryder yn ei chylch.

Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa ym mhob un o'r wyth sir. Yn Nyfed, adroddwyd bod y Paneli Uwchradd wedi mynd i drafferthion athronyddol dwys, er nad yw'r cofnodion yn ceisio goleuo'r darllenydd pa faterion dwys yr oeddent yn ymgiprys â hwy! Gan fod yr awdur presennol ar y pryd ar drothwy ei addysg uwchradd yn Nyfed, mae'n pryderu y bu iddo, yn ddiarwybod, gamu i drobwll o anghytuno athronyddol.

Wrth adrodd ar y datblygiadau yng Ngorllewin Morgannwg, dywedodd David Burch fod cwrs newydd Dull 2 y Dystysgrif Addysg Gyffredinol/y Dystysgrif Addysg Uwchradd ar y cyd – rhagflaenydd y Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd, a arholwyd am y tro cyntaf yn 1988 – wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer ei arholi am y tro cyntaf yn 1983. Roedd y cwrs yn cynnwys chwe adran, ac wedi'i lunio i roi maes llafur ehangach i ysgolion.

Yn 1981/82 ac 1982/83, adroddodd yr Ysgrifennydd y byddai cynadleddau'n cael eu cynnal ledled y wlad ar gyfer dosbarthiadau pedwar, pump a chwech. Er hynny, nid oedd un rhiant yn fodlon ar gynnwys y gynhadledd ar gyfer y pedwerydd dosbarth y bu ei phlentyn ynddi, ac roedd hi wedi ysgrifennu at Ann Bonner-Steel yn cwyno bod y cynnwys yn anghristnogol. Roedd yr Ysgrifennydd wedi ateb, gan sicrhau'r rhiant fod amcanion MAGC yn rhai Cristnogol ac addysgol. Yn ystod yr ail flwyddyn, cynlluniwyd pum cwrs athrawon yn ne Cymru, ac yr oedd trafodaethau ar y gweill i gynnal cyrsiau pellach yn Nyfed a Phowys. Estynnwyd y thema "Ffocws ar y Beibl" i gynnwys y cyrsiau hyfforddiant mewn swydd a gynigiwyd i bob Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru.

Roedd Rheinallt Thomas wedi cynnig cefnogaeth y Ganolfan Addysg Grefyddol i ddylunio'r gwaith celf ar gyfer blwyddyn y Beibl, ac yr oedd cymhorthdal i gynhyrchu deunyddiau wedi'i dderbyn gan y Swyddfa Gymreig. Byddai'r arian hwn yn talu am ddeunyddiau Cymraeg, a byddai

fersiynau Saesneg yn dilyn cyn gynted ag y byddai arian ar gael. Gwerthodd yr adnodd Cymraeg, *Darganfod y Beibl*, yn dda iawn, a chafodd adolygiad ffafriol ar S4C. Erbyn mis Hydref 1984, dim ond 350 copi o'r rhediad argraffu o 1,500 oedd yn weddill, gan wneud elw o £2,500 i'r Mudiad.

Gobeithid y byddai galw tebyg am fersiwn Saesneg, er y byddai'n rhaid addasu rhywfaint ar y cynnwys gan fod rhai o'r enghreifftiau'n berthnasol i'r cyd-destun Cymraeg yn benodol. Yn anffodus, bu'r adnodd cyfatebol yn Saesneg, *Discovering the Bible*, yn drychineb yn fasnachol; roedd 3,000 o gopïau o'r llyfr yn y swyddfa, heb eu gwerthu, yn 1989, ac yn 1990 penderfynwyd hysbysebu'r stoc oedd yn weddill am bris o £10 am 30 copi.

Yn ystod 1982/83 daeth John Beale, Cyfarwyddwr Addysg Gorllewin Morgannwg, yn gadeirydd MAGC. Cyflwynodd Glyndwr Harris adroddiad ar yr arholiadau 16+, gan roi sylw arbennig i'r arholiad newydd Safon Uwch mewn Astudiaethau Crefyddol. Byddai'r maes llafur yn cynnwys tri maes: astudiaeth graidd o Gristnogaeth, ail astudiaeth o Gristnogaeth neu un grefydd arall, a phapur ar y pwnc 'Crefydd a Bywyd'. Pwysleisiodd Glyndwr Harris y byddai cyflwyno'r fanyleb newydd yn her, ond ychwanegodd ei bod yn bwysig sicrhau ei bod yn briodol ar y pryd; os na wneid hynny, efallai na fyddai cyfle am genhedlaeth arall. Mewn gwirionedd, wrth gwrs, mae'r rhaglen Safon Uwch wedi'i hadolygu'n sylweddol sawl gwaith yn y cyfamser, gyda'r adolygiad cynhwysfawr diweddaraf yn cael ei addysgu o 2016 ymlaen.

Gwelwyd cyferbyniad mawr yn y 1980au cynnar rhwng llwyddiant y mudiad yng Nghymru a'r anawsterau dybryd a gafwyd yn Lloegr. Dywedodd John Sutcliffe, Ysgrifennydd Cyffredinol Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig), wrth adrodd am y sefyllfa ariannol enbydus, fod pedwar o staff maes MAG wedi'u diswyddo erbyn mis Mehefin 1982, ond yng Nghymru yr oedd y gwaith yn ffynnu ac yn fwy deinamig nag ydoedd bum mlynedd ynghynt. Mynegodd John Sutcliffe ei falchder o gyfarfod Dafydd Elis-Thomas, Aelod Seneddol Meirionnydd (fel yr oedd ar y pryd), a oedd wedi canmol gwaith MAGC yn fawr.

Yn Lloegr, fodd bynnag, roedd yn ymddangos fel petai'r toriadau a orfodwyd gan lywodraeth San Steffan yn golygu bod yr Awdurdodau Addysg Lleol yn gyson yn methu bodloni'r argymhellion ar gyfer grantiau a wneid gan Bwyllgor yr Awdurdodau Addysg Lleol (Lloegr). Byddai ymdrechion allanol i godi arian yn dechrau o ddifrif yn Lloegr yn ystod y blynyddoedd

dilynol, ond mynegodd Glenys Roberts, cynrychiolydd MAGC ar Gyngor MAG (Y Deyrnas Unedig), ei diolch i Awdurdodau Addysg Lleol Cymru am gytuno i ariannu'r mudiad drwy gydol ei hanes hyd at y pryd hwnnw.

Trafodwyd gyrfaoedd ar gyfer pobl ifainc yn 1983 yn erbyn cefndir o ddiweithdra cynyddol. Cyfeiriodd Ann Bonner-Steel at y sgyrsiau a gawsai gyda phobl ddi-waith yn ne Cymru a'r cymorth yr oedd elusennau'n gallu ei gynnig iddynt. Er hynny, mynegwyd pryder ynghylch Cynllun Hyfforddi Ieuenctid newydd y Llywodraeth. Roedd yn ymddangos bod addysg grefyddol wedi'i hepgor o'r cynllun yn gyfan gwbl, a phenderfynwyd cysylltu â CBAC ac Ysgrifennydd Cymru ynglŷn â hyn. Roedd llyfryn MAGC, *10 Cwestiwn am Addysg Grefyddol a'ch Gyrfa*, yn ei bedwerydd argraffiad, ac yn boblogaidd yng Nghymru a Lloegr.

Adroddodd Patricia Williams fod y Pwyllgor Proffesiynol dros Addysg Grefyddol, mudiad i athrawon a fyddai'n uno cyn hir â'r Gymdeithas dros Addysg Grefyddol i ffurfio'r Cyngor Proffesiynol dros Addysg Grefyddol, yn bwriadu trefnu cwrs Pasg yn Bradford yn 1984 ar y pwnc 'Micro-dechnoleg ar gyfer Crefydd a Gwerthoedd'. Byddai iddo ddwy brif ffrwd: y defnydd a'r cam-ddefnydd o gyfrifiaduron a fideos; a goblygiadau moesol technoleg gwybodaeth fodern, ei heffaith ar fywyd a gwerthoedd oedd yn newid.

Roedd Patricia Williams yn bresennol yn y gynhadledd gyda'r Ysgrifennydd, a adroddodd iddi fod yn gynhadledd ddefnyddiol, er nad oedd hi'n bendant yn gwbl argyhoeddedig o werth cyfrifiaduron mewn addysg grefyddol. Cwynai fod llawer o'r deunydd cyfrifiadurol oedd yn cael ei arddangos yn Bradford yn ymddangos yn amaturaidd ac yn arwynebol.

Mynegodd y Pwyllgor Proffesiynol dros Addysg Grefyddol bryder hefyd ynghylch sefyllfa addysg grefyddol mewn colegau hyfforddi athrawon ac adrannau addysg prifysgol, gan fod y ddarpariaeth hyfforddi athrawon cynradd eisoes yn dioddef. Mynegwyd pryder difrifol gan y mudiad ynghylch hyn, a theimlid y dylid dod â'r mater i sylw'r Swyddfa Gymreig. Cytunodd Rheinallt Thomas i ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, a chyflwynwyd ei adroddiad yng Nghyngor mis Mai 1984 gan John Summerwill, un o'i gyd-weithwyr yn y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol. Amlinellai'r papur y gostyngiad sylweddol dros y saith mlynedd flaenorol yn niferoedd y myfyrwyr oedd yn dilyn cyrsiau addysg grefyddol yn ogystal â nifer y staff oedd yn darparu cyrsiau o'r fath. Ymhellach, yr oedd y cyrsiau un ai yn y broses o gael eu dileu neu eisoes wedi dod i ben yn llawer o'r sefydliadau addysg uwch.

Cynhaliwyd dau gyfarfod arwyddocaol iawn o grŵp swyddogion MAGC yn ystod hanner cyntaf 1984. Byddai'r cyntaf yn ymdrin â'r gofynion rheolaidd a wneid gan MAG (Y Deyrnas Unedig) am gynyddu'r taliadau o Gymru i Lundain. Nid oedd John Sutcliffe wedi ymateb i geisiadau o Gymru yn egluro sut y cyfrifid y gofynion ariannol hyn, ac roedd y mater bellach wedi cyrraedd y pen. Cyflwynodd Alun Evans, y Trysorydd, bapur ar gyfraniadau MAGC i'r corff ehangach (Y Deyrnas Unedig) er 1972/73. Trafodwyd y mater yn drylwyr, a phwysleisiwyd bod y cyfraniadau hyn, o'r cychwyn cyntaf, wedi'u gwneud fel *rhoddion*. Er bod y mudiad yn barod i ystyried y posibilrwydd o rodd bellach o'r natur hon, penderfynodd y swyddogion y gallai adnoddau MAGC ddiflannu'n sydyn iawn, yn sgil y dirywiad yn sefyllfa ariannol y mudiad Prydeinig.

Yn hollol annisgwyl, ar ddiwedd y cyfarfod swyddogion cyntaf hwn, fodd bynnag, a heb unrhyw gyd-destun ac eithrio'r drafodaeth ynghylch y rhoddion i MAG (Y Deyrnas Unedig), penderfynwyd ystyried cofrestru MAGC fel elusen. Cytunodd y Trysorydd i gyflwyno goblygiadau hyn i'r Cyngor.

Byddai'n rhaid i'r penderfyniad hwn aros hyd nes y ceid Ysgrifennydd newydd, fodd bynnag, oherwydd yn ail gyfarfod arwyddocaol y swyddogion trafodwyd ymddiswyddiad Ann Bonner-Steel o'r swyddogaeth honno. Ar ôl dros ddegawd wrth y llyw, cawsai ei phenodi'n ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, a phenderfynwyd hysbysebu'r swydd wag yn ddiymdroi, ar gytundeb tair blynedd. Byddai secondiad yn bosibilrwydd, ond roedd siarad Cymraeg yn rhugl a'r gallu i yrru car yn hanfodol. Byddai Capel y Wesleaid, Ferndale, yn peidio â bod yn swyddfa i'r mudiad, a byddai'r offer yn cael ei symud oddi yno mor fuan â phosibl.

Helynt cyflogau athrawon: 1984–1988

Dechreuodd Jean Humphreys ar ei phedair blynedd fel Ysgrifennydd MAGC ar drothwy anghydfod diwydiannol chwerw rhwng athrawon Cymru a Lloegr a'r llywodraeth yn San Steffan. Yn gynharach yn 1984, roedd John Beale, y Cadeirydd, wedi mynegi ei ofid fod cyn lleied yn bresennol yng nghyfarfod Cyngor MAGC yn Neuadd y Sir, Abertawe, gan nodi bod hyn oherwydd anawsterau ynghylch cyflogau a hawlid gan athrawon. Mewn geiriau eraill, roedd athrawon yn cynnal cyfres o streiciau undydd, gyda'r gwahanol undebau'n gweithredu ar ddyddiau gwahanol, yn ogystal â gweithio yn ôl y rheolau, a oedd yn cael effaith bellgyrhaeddol yn yr ysgolion.

Byddai'r anghydfod ynghylch cyflogau ac amodau athrawon yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y mudiad yn ystod y blynyddoedd hyn. Roedd hyfforddiant mewn swydd a chynadleddau disgyblion yn parhau'n llwyddiannus yn gynnar yn 1984: cynhaliwyd naw cynhadledd i ddisgyblion, gyda 965 o ddisgyblion yn cymryd rhan ynddynt, o fewn tri mis yn unig. Ond erbyn y flwyddyn ganlynol roedd yr Ysgrifennydd a'i gweithwyr maes yn adrodd bod y gwaith hwn wedi peidio â bod, bron. Teimlid y byddai cynadleddau i ddisgyblion ysgolion unigol yn ffordd o gadw cysylltiad rhwng MAGC a'r ysgolion.

Ond roedd Ann Bonner-Steel, oedd wedi'i chyfethol ar y Cyngor wedi iddi symud i Goleg y Drindod, yn amharod i gymryd y cam hwn, fodd bynnag. Atgoffodd aelodau'r Cyngor o'i hymdrechion i gadw'r cynadleddau rhyng-ysgolion; yn bersonol, byddai'n anhapus o weld MAGC yn cymryd cam yn ôl drwy drefnu cynadleddau ar gyfer ysgolion unigol. Cydnabyddai'r Cadeirydd, er hynny, y gallai newid cyfeiriad ychydig fod yn ddefnyddiol yn ystod y streic a'r gweithio yn ôl y rheolau, ond bod angen bod yn ofalus yn yr hinsawdd ar y pryd wrth weithio gydag ysgolion.

Trefnwyd nifer cyfyngedig o gynadleddau i ysgolion unigol yn ystod y cyfnod hwn, a llwyddodd cangen De Morgannwg i gynnal cynhadledd chweched dosbarth rhyng-ysgolion, gyda dros 200 o fyfyrwyr yn ei mynychu. Nid oedd unrhyw athrawon yn bresennol, er hynny, ac roedd Victor Steele yn gadarn y byddai'n annoeth cynnal cynadleddau ar gyfer y pedwerydd

dosbarth heb oruchwyliaeth athrawon. Cafodd y rhan fwyaf o'r cynadleddau rhyng-ysgolion eu canslo, ac ymddiswyddodd y Parch. Richard Jones fel ysgrifennydd cyswllt yn 1986 oherwydd yr anawsterau oedd yn deillio o'r anghydfod diwydiannol a newidiadau yn ei ddyletswyddau bugeiliol.

Daeth yr argyfwng ym mherthynas MAGC â Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig) i ben yn y diwedd yn ystod cyfnod Jean Humphreys fel Ysgrifennydd, ond nid cyn i bethau'n droi'n chwerw. Yn ei chyfarfod cyntaf un o'r Cyngor ym mis Hydref 1984, er enghraifft, gofidiwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad o gwbl ym mhamffled MAG *What is RE?* at yr wyth maes llafur cytûn oedd yn seiliedig ar waith MAGC yn ystod 1975–83. Roedd y cyhoeddiad yn canolbwyntio'n llwyr ar faterion oedd yn ymwneud â Lloegr, a chytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at John Sutcliffe, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, i brotestio ynghylch y ffaith fod y mudiad Cymreig fel petai'n anweledig o fewn cyd-destun y Deyrnas Unedig.

Erbyn 1985, penderfynwyd ailystyried adolygu'r cyfansoddiad Cymreig, yn ogystal â phwyso a mesur manteision ac anfanteision cofrestru fel elusen. Er bod Sutcliffe unwaith eto wedi mynnu bod y mudiad Cymreig yn parhau i anfon cyfraniadau ariannol i Lundain, penderfynodd swyddogion MAGC fod y mater hwn ynghlwm wrth yr angen am gael eglurder ynghylch yr union berthynas rhwng y ddau fudiad.

Ymddeolodd John Sutcliffe ym mis Hydref 1985. Disgrifiwyd yr ychydig fisoedd cyn hynny fel rhai llawn gofidiau, ac y byddai unrhyw gyswllt pellach â Llundain ar fater y cyfansoddiad yn cael ei ohirio am y tro. Cafwyd adroddiad manwl iawn ar ymdrechion MAG (Y Deyrnas Unedig), yn cynnwys crynodeb o'r modd – chwerthinllyd, bron – yr oedd materion yn ymwneud â'r staff a'r swyddfeydd yn Chester House, pencadlys y mudiad yn Llundain, yn cael eu trin oherwydd dull rheoli aneffeithiol y pennaeth. Penderfynodd y Pwyllgor Sefydlog ar y Cyfansoddiad ei bod yn dal yn hollbwysig sefydlu beth oedd yr union berthynas gyfansoddiadol â MAG (Y Deyrnas Unedig). Amlinellodd T. Glyn Davies, Cadeirydd cyntaf MAGC, y sefyllfa hanesyddol a adlewyrchwyd yng nghyfansoddiad 1965 ac yn y drafft a wrthodwyd gan Lundain yn 1981.

Gyda rhesymeg a threiddgarwch craff, dywedodd Glyn Davies yn blaen fod tri dewis posibl i MAGC: symud drwy broses o integreiddio i fod yn rhanbarth o MAG (Y Deyrnas Unedig), dod yn gorff annibynnol, neu sicrhau priodas rhwng dau gydradd. Bernid mai'r olaf oedd y sefyllfa cyn Rheolau

1980 MAG, gan fod statws unigryw MAGC eisoes wedi'i gydnabod.

Daeth y Pwyllgor Sefydlog i'r casgliad fod cyd-destunau diwylliannol, crefyddol a hanesyddol Cymru yn unigryw o fewn y Deyrnas Unedig; roedd MAGC yn cynrychioli uchelgais Cymru. Roedd gan y mudiad gyfraniad arbennig a gwahanol, a phenderfynwyd bod angen cyfansoddiad Cymreig i fod yn gyfrwng i'r cyfraniad hwnnw, un a fyddai'n caniatáu i MAGC ddilyn ei lwybr unigryw ei hun. Yn hanesyddol, yr oedd MAGC yn amlwg yn fwy na changen yn unig o MAG (Y Deyrnas Unedig) ac roedd y grŵp yn bendant fod yn rhaid ailsefydlu'r gwahaniaeth hwn yn glir.

Ar ôl bwlch o flwyddyn, bron, a sawl ymgais aflwyddiannus i ddod o hyd i olynydd i John Sutcliffe, penodwyd y Parch. Ddr Stephen Orchard yn Ysgrifennydd Cyffredinol MAG (Y Deyrnas Unedig). Daeth i'r swydd o Gyngor Eglwysi Prydain, lle roedd yn Ysgrifennydd yr Adran Materion Cymunedol. Roedd ei berthynas â MAGC yn llawer mwy cyfeillgar nag un ei ragflaenydd, ond er hynny nid oedd yn hollol esmwyth ar y dechrau. Adroddodd Glenys Roberts fod cyfarfod wedi'i drefnu ym mis Tachwedd 1986 rhwng MAG (Y Deyrnas Unedig) ac arweinwyr eglwysig, ond bod Cymru wedi'i hepgor yn llwyr. Byddai MAGC felly'n gofyn i'r Parch. Noel Davies, Ysgrifennydd Cyngor Eglwysi Cymru, i gynrychioli buddiannau'r genedl yn y cyfarfod.

Yn ystod yr un mis, cylchredwyd dogfen ymgynghorol gan MAG (Y Deyrnas Unedig) ynghylch diwygiadau i'w gyfansoddiad ei hun. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cymalau'n ymwneud yn uniongyrchol â Chymru, ond yr oedd Pwyllgor Sefydlog MAGC yn argyhoeddedig fod o leiaf un rheol yn cymryd yn ganiataol fod MAGC wedi'i sefydlu gan Lundain, a bod ei berthynas â MAG (Y Deyrnas Unedig) yr un fath â phetai'n rhanbarth o Loegr. Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod tensiwn cynyddol wedi bodoli rhwng y ddau fudiad, a bod y tensiwn hwnnw wedi dwysáu'n ddiweddar. Haerai fod MAGC yn awyddus i drafod materion yn ymwneud â chysylltiad y ddau fudiad a'u cyllid mewn modd cyfeillgar, er mwyn ailsefydlu partneriaeth glòs a fyddai'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

Mewn cyfarfod yn y Reform Club, Pall Mall, Llundain, ym mis Mawrth 1988 i gytuno ar wahanu materion ariannol y ddau fudiad, trawyd bargen gyfeillgar rhwng Stephen Orchard, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ac Edgar Lewis, Trysorydd MAGC, a Jean Humphreys, yr Ysgrifennydd Trefniadol. Byddai MAGC yn gwneud ei drefniadau ei hun i dalu'r staff; byddai MAG

yn caniatáu disgownt cyfanwerthu i MAGC ar ei lyfrau, ac ni fyddai MAG yn mynd ati i chwilio am danysgrifwyr yng Nghymru. Ond byddai disgwyl i MAGC gyfrannu tuag at y costau canolog, a bodloni'r awdurdodau fyddai'n dyfarnu grantiau fod yr arian yn cael ei wario'n briodol drwy ddarparu copïau o'i gyfrifon i MAG.

Yn ystod 1987 a dechrau 1988, aeth y cyfansoddiad Cymreig arfaethedig drwy sawl drafft ac adolygiad mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr. Cafodd y cyfansoddiad newydd ei gymeradwyo'n derfynol gan y Comisiwn mewn pryd i gael ei fabwysiadu yng Nghyngor MAGC ar 6 Mai 1988, a chofrestrwyd y mudiad yng Nghymru fel elusen. Gallai'r Llywydd hefyd longyfarch y Trysorydd a'r Ysgrifennydd ar sicrhau canlyniad mor hapus gyda Stephen Orchard.

Er gwaethaf yr anhawster, neu'n hytrach oherwydd yr anhawster, o drefnu gweithgareddau i athrawon a disgyblion yn ystod y cyfnod maith o weithredu diwydiannol, yr oedd sefyllfa ariannol MAGC yn iach erbyn 1987. Ar ôl 15 mlynedd wrth y gwaith, penderfynodd Alun Evans, y Trysorydd, ei bod yn bryd trosglwyddo'i ddyletswyddau i olynydd, ac ymgymerodd Edgar Lewis, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Clwyd, â'r dyletswyddau hyn. Roedd John Beale hefyd yn dymuno ymddiswyddo fel Cadeirydd, ac fe'i dilynwyd i'r gadeiryddiaeth gan Derrick Orrell, Cyfarwyddwr Addysg De Morgannwg.

Codwyd nifer o faterion pwysig eraill yn ystod y cyfnod hwn. Yn 1985, cynigiodd y Parch. Wynn Vittle, o Gymorth Cristnogol, gynllun ar y cyd, gan ganiatáu i MAGC wneud defnydd o'i ddeunyddiau mewn ysgolion. Roedd yn ymwybodol o'r angen a deimlai'r adrannau addysg grefyddol am gefnogaeth. Roedd y ffydd Bahá'i hefyd wedi gofyn i'w deunyddiau gael eu dosbarthu i ysgolion, ond credai'r Cadeirydd, a oedd ei hun yn gyfarwyddwr addysg, na fyddai'r rhan fwyaf o gyfarwyddwyr addysg Cymru'n cydsynio â'r cais hwn.

Cyflwynodd Glyndwr Harris bapur ar y berthynas rhwng MAGC a'r eglwysi Cristnogol, gan ddadlau bod partneriaeth rhyngddynt yn angenrheidiol ac yn ddymunol ar gyfer cynyddu dylanwad Cristnogaeth ar faterion addysgol ac i gyflwyno'r ffydd Gristnogol fel rhan normal a phriodol o addysg. Yn ddoeth iawn, penderfynodd y Cyngor na ddylid caniatáu i ddau fater pur wahanol, sef cymorth ariannol gan yr eglwysi a'r angen addysgol, gymylu ei gilydd, a bod y mudiad eisoes yn caniatáu i bartneriaeth strwythuredig fodoli. Cyfaddefwyd, fodd bynnag, y gellid gwneud mwy i feithrin ymhellach gysylltiadau MAGC â'r eglwysi.

Cynhaliwyd trafodaeth bellach yn 1986 ar y gwahaniaeth sylfaenol rhwng amcanion addysg Gristnogol yn yr eglwysi ar un llaw ac yn yr ysgolion ar y llaw arall; roedd un ohonynt yn ymwneud â chred a chyffes, a'r llall yn addysgol yn bennaf. Ailedrychwyd ar amcanion addysg grefyddol, fel a wnaed ganol y 1970au, ond gyda mwy o ymwybyddiaeth y dylid cofleidio rhinweddau addysg grefyddol ryng-ffydd. Roedd prinder athrawon arbenigol yn parhau'n broblem, yn enwedig yn y sector cynradd. Roedd proffesiynoldeb a chydbwysedd yn hollbwysig i'r arbenigedd hwn mewn ysgolion.

Cynigiwyd syniad, a fyddai yn y pen draw yn rhoi straen aruthrol ar gyllid y mudiad, am y tro cyntaf yn 1985, pan ofynnodd Glenys Roberts i'r Cyngor ystyried cynhyrchu cyfieithiad Cymraeg modern o'r Beibl i'w ddefnyddio mewn ysgolion. Gan fod MAGC wedi cytuno i nodi pedwar canmlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, daeth diffyg addasrwydd *Y Beibl Cymraeg Newydd* i'w ddefnyddio ar gyfer rhai 9–13 oed yn un o ystyriaethau blaenaf y mudiad. Roedd is-bwyllgor, yn cynnwys Edwin Lewis, T. Glyn Davies a Glyndwr Harris, wedi'i sefydlu i ystyried sut i nodi'r pedwar canmlwyddiant, a gofynnwyd i'r grŵp hwn estyn ei gylch gwaith i gynnwys y prosiect cyfieithu.

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 1987, penderfynodd y grŵp gynhyrchu fersiwn o Efengyl Marc, sef *Duw ar Waith*. Byddai'n rhaid i'r iaith fod yn addas ar gyfer oedran blynyddoedd uchaf yr ysgol gynradd/blynyddoedd isaf yr ysgol uwchradd, ond gan gadw cywirdeb y testun gwreiddiol ac ymgorffori'r ysgolheictod diweddaraf. Edwin Lewis fyddai'n gyfrifol am gyfieithu'r testun, a byddai Glyndwr Harris yn gweithredu fel ymgynghorydd academaidd a diwinyddol. Byddai Jennifer Eynon a Gareth Davies Jones yn sicrhau bod y cyfieithiad yn addas ar gyfer yr oedran darllen targed.

Ym mis Mai 1988, yn dilyn y cinio dathlu, cafwyd gwasanaeth i nodi pedwar canmlwyddiant y Beibl yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Wedi hynny, traddodwyd darlith i ddisgyblion hŷn ac athrawon yn Ysgol Glan Clwyd gan y Parch. Ddr John Tudno Williams, Prif Arholwr yr arholiadau Safon Uwch Atodol TAG mewn Astudiaethau Crefyddol.

Effeithiodd newidiadau addysgol canol y 1980au ar addysg grefyddol, ac ymatebodd MAGC drwy ddarparu hyfforddiant mewn swydd ar addysgu ar gyfer y dystysgrif newydd, sef Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU), o fis Medi 1986 ymlaen. Disodlwyd hen arholiadau'r Dystysgrif

Addysg Uwchradd a Safon Gyffredin y Dystysgrif Addysg Gyffredinol gan arholiadau TGAU, a chafwyd manyleb un haen, wedi'i llunio ar gyfer mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu, ar gyfer Astudiaethau Crefyddol. Roedd yr ymateb o'r ysgolion wedi bod yn dda, a chredai Jean Humphreys y dylai cymathu ei wasanaethau i gyflwyno TGAU barhau i fod yn flaenoriaeth i MAGC.

Pryderai Pat Williams, cynrychiolydd y Cyngor Proffesiynol dros Addysg Grefyddol, ynghylch cynlluniau yn San Steffan i basio Deddf Diwygio Addysg. Roedd y Cyngor hwnnw wedi cyfarfod â Kenneth Baker, Ysgrifennydd Gwladol Addysg a Gwyddoniaeth (yn Lloegr). Mynegodd Pat Williams ei hamheuon am ganlyniad y cyfarfod hwnnw, ac ofnai fod addysg grefyddol mewn perygl oherwydd y pwyslais ar wyddoniaeth a thechnegol mewn addysg ar draul hyrwyddo gwerthoedd a moesoldeb.

Lansiwyd ymgyrch i wneud addysg grefyddol yn Bwnc Sylfaen o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ym mis Medi 1987. Hawliai'r ymgyrchwyr mai tair llinell yn unig mewn un paragraff a gâi addysg grefyddol yn nogfennau'r Cwricwlwm, gan wneud i'r pwnc ymddangos yn un ymylol. Penderfynodd Cyngor MAGC geisio cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod y pryderon hyn. Gwrthododd Peter Walker gyfarfod â hwy, ond penderfynwyd codi'r mater gydag Adran Ysgolion y Swyddfa Gymreig. Ar yr adeg hon o newidiadau parhaus, rôl MAGC oedd hyrwyddo addysg grefyddol, a cheisio sicrhau bod y pwnc yn cael digon o amser addysgu, staffio ac adnoddau.

Un mater ymhlith llawer a wnâi waith yr Ysgrifennydd yn heriol yn 1987 oedd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Awgrymodd fod cynigion Kenneth Baker wedi golygu bod ceisio ennyn diddordeb disgyblion ac athrawon yng ngweithgareddau'r mudiad yn anodd; ni ddaeth neb i un cwrs a drefnwyd ganddi. Cydymdeimlai Cyngor MAGC â'i rhwystredigaeth ynghylch y cyllid newydd ar gyfer HMS ('dyddiau Baker', fel y gelwid hwy yn gyffredinol, a oedd yn cyfyngu ar gynlluniau'r awdurdodau addysg lleol), Addysg Dechnegol a Galwedigaethol, mater cyflogau athrawon, a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Er gwaethaf y newidiadau niferus oedd yn digwydd a hynny'n ddi-baid, fel storm o'r pedwar gwynt, penderfynwyd y dylai MAGC geisio diogelu presenoldeb addysg grefyddol yn y cwricwlwm, yn arbennig mewn Addysg Dechnegol a Galwedigaethol. Roedd angen gweithredu cadarnhaol i

werthu'r syniad i'r consortia newydd, a sylweddolai aelodau'r Cyngor y byddai'r misoedd nesaf yn rhai o ddal eu tir a chadw cyswllt â'r ysgolion.

Y mis Ionawr canlynol, fodd bynnag, adroddodd yr Ysgrifennydd ei bod wedi cael anawsterau wrth geisio trefnu cyrsiau HMS (y byrfodd newydd ar gyfer hyfforddiant mewn swydd), gan nad oedd digon o athrawon cyflenwi ar gael i ryddhau staff i'w mynychu. Roedd y cynnydd yng nghostau lleoliadau ar gyfer cynadleddau yn bryder i gangen De Morgannwg; roeddent wedi cael gwybod y byddai lleoliad a arferai gostio £60 i'w logi bellach yn costio £190, sef y gost mewn gwirionedd. Honnent y byddai'n anffodus pe bai cynadleddau oedd wedi'u hen sefydlu yn gorfod dod i ben oherwydd diffyg cyllid.

Roedd Jean Humphreys wedi cyhoeddi dair blynedd ynghynt ei bod bellach yn ymgeisydd am y weinidogaeth o fewn yr Eglwys Fethodistaidd, ond yn dilyn lleoli ei gŵr mewn cylchdaith eglwysig arall, gadawodd MAGC yn gynt na'r disgwyl. Wrth iddi annerch ei chyfarfod olaf o'r Cyngor ym mis Mai 1988, adroddodd i'r tymor hwnnw fod yn un llwyddiannus iawn – er gwaethaf y newidiadau mawr yn y byd addysg – a bod amrywiaeth da o waith wedi'i gyflawni.

Argyfwng annisgwyl: 1988–1994

Symudwyd ymlaen yn hwylus wrth i Tamsin Llwyd Lewis (Mrs Graves yn fuan wedi hynny) ddod yn Ysgrifennydd MAGC ym mis Medi 1988. Erbyn y flwyddyn ganlynol yr oedd swyddfa'r mudiad wedi'i symud i Dŷ'r Cymry, tŷ yn agos at ganol y brifddinas a ddefnyddid gan amrywiol elusennau.

Yn dilyn llawer o ohebu, cytunodd y Swyddfa Gymreig i gyfarfod â dirprwyaeth o dri aelod o MAGC i drafod goblygiadau Deddf Diwygio Addysg 1988. Adroddwyd i'r cyfarfod fod yn un cyfeillgar a chadarnhaol – cyfuniad o bwyntiau ymarferol ac athronyddol. Testun pryder arbennig oedd rôl a chyfansoddiad y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG), a oedd wedi'u sefydlu dan Ddeddf Addysg 1944 ond a oedd bellach wedi peidio â bod yn y rhan fwyaf o leoedd.

Yn ôl Adran 11 o Ddeddf 1988, yr oedd yn ddyletswydd ar bob awdurdod addysg lleol i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol er mwyn 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. Byddai gofyn i bob Awdurdod Addysg Lleol gyfethol cynrychiolydd o MAGC ar ei Gyngor Ymgynghorol, cais y teimlid oedd yn rhesymol o ystyried rôl hanesyddol y mudiad yn cynhyrchu canllawiau a meysydd llafur addysg grefyddol ar gyfer yr awdurdodau.

Ni fyddai Adran Addysg a Gwyddoniaeth Lloegr yn darparu cyllid i ymchwilio i dargedau cyrhaeddiad ar gyfer addysg grefyddol, ac yr oedd yr awgrym na allai addysg grefyddol fodoli yn bwnc ar wahân o fewn cwricwlwm integredig yn annerbyniol i Gyngor MAGC. Mewn llythyr at D. A. Bullen o Gangen Ysgolion y Swyddfa Gymreig, mynnwyd bod gan addysg grefyddol gyfraniad unigryw i'w wneud i'r cwricwlwm, ond drwy annog ei rhannu ar draws y cwricwlwm yr oedd perygl gwirioneddol y byddai'n cael ei glastwreiddio cymaint fel na fyddai'n bodoli yn y pen draw. Dylid diogelu ei nodweddion arbennig, pa ffordd bynnag y byddai ysgolion yn dewis addysgu neu drefnu eu cynlluniau gwaith.

Yn 1989, cytunwyd i fod yn rhan o stondin y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a dewiswyd logo at ddibenion cyhoeddusrwydd. Cyflwynodd y Trysorydd logo trilliw i'w ystyried, yn seiliedig ar fap o Gymru a chroes Geltaidd, a chynhyrchwyd fersiwn terfynol i'w ddefnyddio ar lenyddiaeth MAGC.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd newydd at ei hymweliadau â 18 o ysgolion i ddyfarnu'r gwobrau i enillwyr Cystadleuaeth Dathlu'r Beibl ar ran y mudiad. Teimlai fod y gost o £235 ar gyfer y gwobrau wedi'i lwyr gyfiawnhau yn sgil y diddordeb a'r brwdfrydedd a gafwyd ar gyfer addysg grefyddol. Adroddodd Miss Lewis fod cynlluniau ar y gweill i gynnal cynadleddau i ysgolion uwchradd ledled Cymru. Sefydlwyd canghennau ym Morgannwg Ganol ac yn Wrecsam, a byddai Dafydd Elis-Thomas, AS, yn cyflwyno darlith i gangen De Morgannwg ar y testun 'Crefydd a Gwleidyddiaeth'.

Yn ôl adroddiad y Trysorydd, yr oedd y sefyllfa ariannol yn un iach, yn enwedig oherwydd bod y cais am gyfraniadau gan yr Awdurdodau Addysg Lleol yn cael ei addasu'n flynyddol. Ac ystyried y tymor hir, gofynnodd y cwestiwn a ddylai gweithgareddau MAGC gael eu teilwra o fewn y gyllideb gyfredol, neu a ddylai'r gyllideb gael ei threfnu fel y byddai'n addas ar gyfer y gweithgareddau? Awgrymodd y dylid hefyd ystyried goblygiadau rheolaeth ariannol leol mewn ysgolion. Roedd yn ddrwg gan Edgar Lewis gyhoeddi, er hynny, ei ddymuniad i roi'r gorau i'w swydd ar ddiwedd y flwyddyn honno.

Yn y cyfamser, adroddodd Glenys Roberts fod pryderon wedi'u mynegi ledled y Deyrnas Unedig ynghylch goblygiadau hawl grwpiau ffydd i dynnu allan o wasanaethau mewn ysgolion. Cyfeiriwyd at achosion yn Swydd Efrog a Chaerdydd o'r straen ymarferol ac emosiynol a roddid ar benaethiaid a phlant wrth ddelio â thynnu grwpiau o'r gwasanaethau.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 1989 ochr yn ochr â Diwrnod Adnoddau Addysg Grefyddol ddydd Sadwrn, 7 Hydref, yng Ngholeg Addysg Bellach Maesyfed yn Llandrindod. Er gwaethaf rhai amheuon ynghylch gwahodd athrawon i dreulio'u dydd Sadwrn mewn diwrnod ar y thema 'Addysg Grefyddol wedi'r Ddeddf', roedd nifer dda yn bresennol. Cynhaliwyd gweithdai ar addysg grefyddol aml-ffydd a chafwyd arddangosfa o adnoddau gan nifer o fudiadau, ac adroddodd yr athrawon eu bod wedi mwynhau diwrnod buddiol.

Cytunodd y Cyngor i sefydlu rhwydwaith o bedwar ysgrifennydd cyswllt yn mhedair cornel Cymru erbyn y gwanwyn: Heulwen Humphreys yng Ngogledd Dyfed, Jean Humphreys yn Nwyrain Clwyd a Rhiannon Lloyd-Williams ar Ynys Môn. Adroddodd y pedwerydd gweithiwr maes newydd, sef y cyn-Ysgrifennydd Ann Bonner-Steel, fod athrawon addysg grefyddol yn mynegi diddordeb mewn cynadleddau i'r pedwerydd a'r chweched dosbarth, er gwaethaf amheuon ynghylch gadael pobl i mewn i ysgolion! Roedd y Cyngor yn gwerthfawrogi'r ffaith fod Bonner-Steel wedi atgyfodi gwaith MAGC yn Nyfed.

Roedd gwaith Is-bwyllgor Cyfieithu'r Beibl yn parhau ar ras. Y bwriad oedd gosod y testun Cymraeg dros fersiwn poced lliwgar Cymdeithas y Beibl o Efengyl Marc, *The Power of God: Great News from Mark*. Trafodwyd cymhlethdodau'r cyhoeddiad yn fanwl, yn y gobaith y byddai rhwng 3,000 a 5,000 o gopïau yn cael eu hargraffu yn unol ag awgrym Cymdeithas y Beibl. Cafwyd ymateb ffafriol iawn i'r addasiad gorffenedig gan grŵp sampl o ysgolion, a derbyniwyd y testun gyda chanmoliaeth unfrydol gan yr is-bwyllgor – ffrwyth dwy flynedd o waith a gofal.

Y bwriad oedd y byddai *Duw ar Waith* yn fersiwn haws o Efengyl Marc na fersiwn *Y Beibl Cymraeg Newydd*, oedd wedi'i gyhoeddi'r flwyddyn flaenorol. Ysgrifennwyd y cyfieithiad hwnnw mewn Cymraeg llenyddol safonol, ond lluniwyd testun MAGC ar gyfer pobl ifainc oedd yn siarad Cymraeg fel mamiaith. Yn ddiddorol, ysgrifennodd y Parch. Dewi Lloyd Lewis at aelodau'r is-bwyllgor i ofyn am gadarnhad fod iaith gynhwysol o ran rhywedd wedi'i defnyddio yn y cyfieithiad, ond yr unig beth a nodir yn y cofnodion yw y byddai ateb yn cael ei anfon ato i ddiolch am ei sylwadau.

Erbyn 1990, yr oedd yn amlwg na fyddai Cymdeithas y Beibl yn adargraffu *The Power of God* am rai blynyddoedd eto, ond yr oedd cymaint o amser ac egni eisoes wedi'u neilltuo i'r prosiect fel y penderfynwyd cyhoeddi'r Efengyl yn Gymraeg heb oedi ymhellach. Ym mis Mai dosbarthodd yr Ysgrifennydd (Mrs Graves, bellach, yn dilyn ei phriodas) broflenni lliw *Duw ar Waith*, a oedd wedi'u paratoi gan gwmni cyhoeddi Cristnogol o Abertawe. Roeddent wedi cytuno i argraffu 10,000 o gopïau am £6,793, a phenderfynwyd eu gwerthu am £1.50 yr un, a'u marchnata drwy ddefnyddio staff MAGC ei hun, swyddog addysg pob Awdurdod Addysg Lleol a CBAC.

Wrth edrych yn ôl, gellid ystyried y fenter gyhoeddi hon fel un eithriadol o anghyfrifol. Roedd y mudiad wedi penderfynu argraffu dros dair gwaith yr

isafswm a argymhellid gan Gymdeithas y Beibl, gan ddewis yr opsiwn drutaf o osod y deunyddiau ei hun, yn hytrach nag aros am yr argraffiad amlieithog maes o law. Er hynny, roedd yr adolygiadau yn y wasg Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd yn gadarnhaol ar gyfer *Duw ar Waith*. Ond ni chyrhaeddodd y gwerthiant yr hyn a ddisgwylid gan y rhai a symbylodd y prosiect.

Cynhaliwyd cinio i ddathlu pen-blwydd MAGC yn 25 oed yn y Royal Hotel, Caerdydd, y noson cyn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd hwn hefyd yn gyfle i gydnabod gwasanaeth maith T. Glyn Davies i'r mudiad. Roedd W. John Phillips, Prif Weithredwr Cyngor Sir Dyfed, wedi dod yn Gadeirydd y mudiad, a dilynwyd y Cyfarfod Blynyddol gan ddiwrnod adnoddau i athrawon oedd yn cynnwys sgwrs gan Dr Mary Jefferson ar y pwnc 'Beth allwn ni ei wneud mewn addysg grefyddol?'

Soniodd Ann Bonner-Steel am lwyddiant cynadleddau i ddisgyblion yn sir Benfro ar y cyd â Chymorth Cristnogol. Roedd hefyd wrthi'n brysur yn paratoi pecynnau adnoddau y gellid eu llungopïo ar brif grefyddau'r byd ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd; ei phecyn adnoddau ar Gristnogaeth fyddai'n barod yn gyntaf. Trafodwyd natur glytiog hyfforddiant mewn swydd ar gyfer addysg grefyddol, yn ogystal â'r gofid nad oedd yr arian oedd ar gael i'r Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer hyn yn cael ei ddefnyddio bob amser oherwydd diffyg gwybodaeth.

Awgrymai canllawiau'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth y dylid darparu 40 awr o leiaf ar gyfer addysg grefyddol mewn pedair blynedd o hyfforddiant cychwynnol i athrawon, a bod y 12 awr a gofnodwyd yn ddiweddar yng Ngholeg Gwent yn peri gofid mawr. Dywedwyd bod y lefelau'n debyg mewn colegau eraill hefyd.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Tachwedd 1990, ac yn ystod y cyfarfod cytunwyd bod llwyth gwaith yr Ysgrifennydd yn rhy eang, a bod angen blaenoriaethu i ryw raddau. Byddai Tamsin Graves yn canolbwyntio ar wasanaethu'r Awdurdodau Addysg Lleol drwy gysylltu'n fwy cyson â hwy. Gobeithid y byddai'n cyfarfod ag ymgynghorydd addysg grefyddol pob sir, ac yna'n cael cyfarfod gyda'r CYSAG a'r cyfarwyddwyr addysg cyn y cyfarfod nesaf. Byddai'r ysgrifenyddion cynorthwyol yn gweithredu fel cynrychiolwyr yr Ysgrifennydd Trefniadol yn y gwahanol ardaloedd. Byddai cynadleddau rhyng-ysgolion i ddisgyblion yn parhau i gael eu datblygu, a dylai MAGC barhau i drefnu dyddiau ymgynghorol i athrawon ar draws yr awdurdodau lleol.

Gofynnwyd i Herbert Hughes gyflwyno papur ar rôl MAGC i'r 1990au. Disgrifiodd y tirlun addysgol yng Nghymru fel un oedd wedi'i drawsnewid yn gyflymach hyd yn oed na'r tirlun crefyddol a chymdeithasol yn ystod y degawdau blaenorol. Ofnai Hughes y byddai craffu manylach eto ar gyllid yr Awdurdodau Addysg Lleol yn ei gwneud yn bwysicach i'r mudiad wasanaethu pob awdurdod dros gyfnod rhesymol o amser, yn ogystal â chael proffil uwch yn genedlaethol.

Yn ystod y deng mis cyntaf gwerthwyd 600 o gopïau o *Duw ar Waith*. Roedd angen deunyddiau dosbarth i gyd-fynd â'r Efengyl, a byddai ymgyrch hyrwyddo yn cael ei lansio drwy'r CYSAGau a'r eglwysi i gyd-daro â'r Degawd Efengylu. Paratowyd llawlyfr athrawon yn cynnwys rhaglenni astudio oedd yn seiliedig ar y maes llafur cytûn, a phenderfynwyd anfon copi sampl o *Duw ar Waith* ynghyd â'r llawlyfr i bob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Penodwyd Clive Canton yn ysgrifennydd cynorthwyol ar gyfer Powys yn 1991, a'r flwyddyn ganlynol ymgymerodd David Burch â'r un rôl yng Ngorllewin Morgannwg. Gofynnwyd i David Burch roi adroddiad ar y datblygiadau mewn addysg grefyddol yng Ngorllewin Morgannwg yn ystod y 17 mlynedd flaenorol. Pan ddaeth yr awdurdod newydd i fodolaeth, meddai, roedd y pwyslais mewn addysg grefyddol ar ddeunydd ffeithiol Beiblaidd a gâi ei brofi drwy wybodaeth a chofio testunau yn unig. Yng Ngorllewin Morgannwg newidiwyd strwythur yr arholiadau drwy gyflwyno cynllun Dull 2 ac roedd hyn wedi arwain at gynyddu hyder athrawon addysg grefyddol. O ganlyniad, roeddent wedi addasu'n rhwydd ac yn hyblyg i'r fethodoleg TGAU newydd oedd yn seiliedig ar feithrin dealltwriaeth; ychwanegwyd gwerthuso at wybodaeth fel nod pwysig i'r cwricwlwm.

Er bod ansawdd yr athrawon a'u harbenigedd o safon uchel, roedd David Burch yn dal yn bryderus ynghylch dau faes sylweddol: y ddarpariaeth addysg grefyddol i blant ag anghenion addysgol arbennig, a diffyg dull gweithredu ar sail ysgol gyfan mewn addysg grefyddol yn yr ysgolion cynradd er mwyn sicrhau rhaglen gytbwys a chydlynol.

Roedd MAG yr Alban wedi sicrhau grant i wyth disgybl hŷn a dau gynorthwyydd o bob un o'r tair cenedl Geltaidd i aros am wythnos yn y Ganolfan Ieuenctid Ewropeaidd yn Strasbourg yn 1992. Penderfynodd y Cyngor y dylid gofyn i ymgynghorydd addysg grefyddol pob sir i enwebu disgybl chweched dosbarth, a byddai'r Ysgrifennydd yn gofalu y byddai cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a Saesneg o fewn y grŵp.

Hefyd yn 1992, penderfynodd y mudiad dderbyn y cynnig i gael presenoldeb ym mhafiliwn yr eglwysi yng Ngŵyl Gerddi Cymru yng Nglynebwy. Amlinellodd Graham Rowlands, Swyddog Cyswllt Addysg yr Ŵyl, ei strategaeth addysg, a thynnodd yr Ysgrifennydd sylw at y cysylltiad oedd ymhlyg ynddi ag addysg grefyddol. Roedd cystadleuaeth MAGC i ysgolion cynradd y flwyddyn honno, 'Gofalu am Fyd Duw', yn cyd-fynd yn ddelfrydol â neges amgylcheddol yr ŵyl, a phenderfynwyd cyflwyno gwobrau cenedlaethol y gystadleuaeth yng Nglynebwy.

Cyfrannodd MAGC tuag at raglen addysgol yr eglwysi ar gyfer yr Ŵyl Gerddi drwy gynllunio gweithgareddau, cynhyrchu pecyn addysg grefyddol i athrawon cynradd, a chynnal arddangosfa o waith enillwyr y gystadleuaeth gynradd. Gwahoddwyd yr Archesgob Alwyn Rice Jones i agor arddangosfa MAGC a chyflwyno'r gwobrau i'r ysgolion cynradd.

Roedd Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg (PDAG) wedi sefydlu panel ar addysg grefyddol, ac wedi anfon adroddiad i gyfarfod Pwyllgor Gwaith MAGC ym mis Ebrill 1992. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i gais PDAG i adolygu, diwygio a chyfieithu'r gyfrol *Planning RE in School* yn unol â'r anghenion a'r meini prawf a nodwyd yng nghanllawiau Cyngor Cwricwlwm Cymru. Clywyd hefyd yng nghyfarfod mis Ebrill fod cynadleddau uwchradd yn cael eu trefnu ar gyfer disgyblion yn Nyfed, Powys a De Morgannwg, a bod cangen Canol Morgannwg yn gweithio ar becyn adnoddau ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 (oedran 4–7) mewn ymateb i geisiadau lleol.

Ymhellach, penderfynwyd y dylid sicrhau polisi blynyddol ar gyfer gwaith y mudiad. Byddai hwn yn seiliedig ar astudiaeth ddichonoldeb a fyddai'n cael ei llunio mewn ymgynghoriad â staff MAGC bob haf. Nodwyd bod elusennau addysgol tebyg yng Nghymru – Mudiad Ysgolion Meithrin, er enghraifft – yn cael arian o'r Swyddfa Gymreig. Tybed a ellid cyflwyno cynllun datblygu i'r Llywodraeth gyda golwg ar sicrhau grantiau?

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Y cyfarfod hwnnw ym mis Ebrill oedd y cynulliad 'amser heddwch' diwethaf am gryn amser, gan y daeth arwyddion pendant o fygythiad i fodolaeth y mudiad yn amlwg wrth i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor gyfarfod y tro nesaf yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ym mis Hydref. Roedd Tamsin Graves, yr Ysgrifennydd, ar gyfnod mamolaeth, ac roedd Janet Watson, athrawes addysg grefyddol yn Ysgol Gyfun y Bechgyn, y Barri, wedi cael secondiad

i'r swydd yn ystod ei habsenoldeb. Rhybuddiwyd y Pwyllgor Gwaith yng nghyfarfod y bore y byddai unrhyw gynlluniau i ehangu yn anghynaliadwy yn y sefyllfa ariannol bresennol, ond nid amlygwyd gwir natur yr argyfwng tan y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn y pnawn.

Datgelodd y Trysorydd nad oedd y cyfrifon a gyflwynwyd yn y gorffennol mewn gwirionedd wedi rhoi darlun cywir o gyllid MAGC, ac nad oedd cyllideb wedi'i pharatoi yn ystod y blynyddoedd diweddar ychwaith. Byddai diffyg o rhwng £1,000 a £7,000 yn y flwyddyn 1992/93, hyd yn oed pe byddai'r Awdurdodau Addysg Lleol nad oedd eto wedi talu yn gwneud hynny. Defnyddiwyd incwm blwyddyn i dalu dyledion y flwyddyn flaenorol, ond ni ellid caniatáu i hynny barhau gan y byddai anawsterau difrifol yn codi os byddai, neu pan fyddai, system bresennol yr Awdurdodau Addysg Lleol yn dod i ben.

Roedd *Duw ar Waith* eisoes wedi'i grybwyll fel ffactor pwysig yn argyfwng ariannol y mudiad. Roedd nifer fawr iawn o gopïau'n dal i gael eu cadw yn swyddfa Caerdydd, ac er gwaethaf ymgyrch hyrwyddo arall roedd yn amlwg bellach fod yn rhaid i unrhyw gyhoeddiadau yn y dyfodol fod yn uniongyrchol berthnasol i anghenion athrawon. Byddai'r tu hwnt i allu MAGC i fod yn symbylydd gweithgareddau yn y dyfodol, gan na allai fforddio ariannu mentrau o'r fath. Erbyn 1992, 30 mis ar ôl ei gyhoeddi, dilëwyd y ddyled ar *Duw ar Waith*.

Roedd angen newid proffil ariannol y mudiad yn ddiymdroi er mwyn gallu cydbwyso'r llyfrau, a hynny o fewn cyfnod o 18 mis. I wneud hynny, byddai angen toriadau mewn cyfleusterau swyddfa ac adnoddau dynol. Byddai is-bwyllgor yn cael ei alw i flaenoriaethu cynlluniau MAGC dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Wrth iddo gyfarfod am y tro cyntaf, ystyriodd y grŵp sut yr oedd gweddill iach y blynyddoedd diweddar wedi'i ddileu mor gyflym. Er hynny, yr oedd yn rhaid iddynt wneud argymhellion i ddelio â'r argyfwng ariannol presennol yn ddiymdroi.

I ddechrau, ystyriwyd bod yn rhaid cyfyngu ar nifer y dyddiau yr oedd staff maes y mudiad, sef yr ysgrifenyddion cynorthwyol, yn eu gweithio, yn ogystal â pheidio â pharhau i gyflogi ysgrifennydd rhan-amser yn y swyddfa. Roedd yn amlwg y byddai llai o alw am wasanaethau MAGC mewn siroedd lle roedd ymgynghorydd addysg grefyddol ar gael; felly, efallai y dylid targedu siroedd – megis Powys – lle nad oedd ymgynghorydd. Ystyriwyd newidiadau posibl eraill o ran cyfeiriad, ond yn y dadansoddiad terfynol cyfaddefodd

yr is-bwyllgor nad oedd dyfodol MAGC yn sicr; byddai blaenoriaethau ariannu'r Awdurdodau Addysg Lleol yn dod yn fwyfwy ansicr, ac roedd yn amhosibl ystyried unrhyw gynllun tymor hir, gan fod gormod o ansicrwydd ynghylch llawer o bethau. Efallai mai gweithwyr rhan-amser yn unig fyddai yn y dyfodol, gydag un ohonynt yn gweithredu fel cydlynydd.

Gwireddwyd y broffwydoliaeth hon yn llawer cynharach nag y gallai'r pedwar a gyfarfu ym Mhen-y-bont ar Ogwr – Janet Watson, Paul Morgan, Eldon Phillips a Rheinallt Thomas – fod wedi breuddwydio. O fewn deng mis, ni fyddai gan MAGC unrhyw ysgrifennydd llawn amser.

Er gwaethaf yr hyn y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, dewisodd yr is-bwyllgor orffen ar nodyn optimistaidd: roedd gan MAGC lawer i'w gynnig ar sail yr arbenigedd sylweddol ymysg ei aelodau. Roedd angen i'r mudiad farchnata'i gryfderau'n frwd, ac wynebu'r problemau a ddeuai yn sgil yr aildrefnu arfaethedig mewn llywodraeth leol wrth iddynt ddod yn eglur. Er hynny, nid oedd hyd yn oed yn bosibl llunio cynlluniau wrth gefn ar y pryd.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 1993, derbyniwyd adroddiad yr is-bwyllgor yn ddiolchgar. Ond gan na chaniatawyd lwfans ar gyfer rhwymedigaethau oedd yn ddyledus, eglurodd y Trysorydd y gallai'r diffyg yn y fantolen fod cymaint â £8,074 y flwyddyn ariannol honno, oherwydd bod angen talu lwfans mamolaeth yn ychwanegol at gyflog yr Ysgrifennydd. Cytunwyd y byddai peidio ag anrhydeddu cytundebau presennol HMS yn niweidiol i enw da proffesiynol MAGC. Felly, ni allai'r lleihad yn nyddiau gwaith yr ysgrifenyddion rhan-amser ddod i rym tan fis Medi y flwyddyn honno. Ond penderfynwyd na fyddai unrhyw ymrwymiadau newydd yn cael eu derbyn.

Ymhellach, ni theimlid bod cynadleddau disgyblion yn ddull ymarferol o godi arian, a hynny oherwydd yr anawsterau i ryddhau disgyblion o'u hymrwymiadau o ran amserlen a phrofion. Teimlai'r Pwyllgor Gwaith mai'r ffordd orau ymlaen i MAGC fyddai darparu HMS, er eu bod yn cyfaddef bod cystadleuaeth yn y maes bellach, gan gynnwys colegau addysg, ag adnoddau llawn eu sefydliadau y tu ôl iddynt.

Ar nodyn optimistaidd, dadleuodd y Llywydd, T. Glyn Davies, nad oedd yn credu y byddai ad-drefnu llywodraeth leol o reidrwydd yn golygu diwedd ar ariannu MAGC; byddai'n haws gwneud cysylltiadau personol yn yr Awdurdodau Addysg Lleol llai. Byddai llawer yn dibynnu faint o arian

fyddai'n cael ei ymddiried i'r ysgolion eu hunain. Cyfaddefai ei bod yn amhosibl ateb y cwestiwn hwn ar y pryd.

Er gwaethaf cynlluniau i fentro gwneud cais am arian gan y Swyddfa Gymreig, pwysleisiodd Glenys Roberts, yr Is-gadeirydd, fod yn rhaid wynebu'r gwaethaf. Dywedodd nad oedd unrhyw sicrwydd o dderbyn arian yn y dyfodol, ac felly roedd yn hanfodol i'r mudiad roi trefn ar bethau cyn gynted â phosibl. I'r diben hwn, roedd yn rhaid gwneud arbedion ar unwaith. Yn dilyn ystyriaeth ddwys iawn – gan fod yn ymwybodol o'r holl anawsterau y byddai eu penderfyniadau'n sicr o'u hachosi – cytunwyd yn unfrydol i roi'r gorau i rentu'r swyddfa yn Nhŷ'r Cymry; chwilio am le i'r cypyrddau ffeilio mewn eglwys oedd â lle i'w sbario; storio'r archifau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth; gwerthu'r llungopïwr; a cheisio cael cytundeb i lungopïo mewn ysgol neu ganolfan athrawon leol.

Gobeithiai'r Trysorydd y byddai'n bosib i'r mudiad, er gwaethaf popeth, ganfod gweledigaeth newydd ar gyfer y dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith mai pobl oedd wrth galon y mudiad ac mai dim ond drwy gymryd penderfyniadau diflas y pryd hwnnw y gellid diogelu ei bobl ar gyfer y dyfodol.

Ond yng nghyfarfod arbennig y Cyngor ym mis Chwefror 1993 y datgelwyd hyd a lled y dryswch a achoswyd gan benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith. Pryderai'r Ysgrifennydd Trefniadol am golli ei swyddfa – ni chredai fod y gwaith yn addas i'w wneud o'r cartref; ni chredai'r ysgrifenyddion cynorthwyol y byddai ychwanegu at lwyth gwaith Tamsin Graves yn gwneud iawn am leihau eu horiau hwy; gofidiai Audrey Hall, y cynorthwyydd ysgrifenyddol rhan-amser, at y modd y terfynwyd ei gwaith heb ymgynghori â hi; teimlai Bethan Evans, ymgynghorydd addysg grefyddol Dyfed, y byddai'r mesurau hyn yn niweidio MAGC yn y tymor hir, er eu bod efallai'n ymddangos yn ddeniadol yn y tymor byr; a chredai Ann Bonner-Steel fod angen Ysgrifennydd llawn amser er mwyn cadw hygrededd y mudiad.

Ond nid MAGC yn unig oedd mewn argyfwng. Roedd Awdurdod Addysg Powys newydd ddiswyddo 15 ymgynghorydd, yn cynnwys yr ymgynghorydd addysg grefyddol, a chynigiodd Stephen Orchard, Ysgrifennydd Cyffredinol MAG (Y Deyrnas Unedig), mai'r unig ffordd realistig ymlaen oedd drwy werthu gwasanaethau. Byddai'n rhaid rhoi gwerth ariannol ar holl waith MAGC, neu ni fyddai unrhyw arian yn dod o'r Awdurdodau Addysg Lleol. Awgrymodd y byddai ffi o £300 y dydd yn addas ar gyfer gwaith HMS.

Cytunodd y cyfarfod i gyfres o doriadau, cyfanswm o £11,900 yn ystod y flwyddyn ariannol 1993/94, yn cynnwys rhoi'r Ysgrifennydd ar gytundeb hanner amser. Cytunodd hithau fod hyn yn addas ar ei chyfer fel mam newydd. Ond, mewn cyfres o lythyrau a ysgrifennwyd ddiwedd Ebrill 1993, dymunai Tamsin Graves gael sicrwydd fod y toriadau'n ddigonol i ddiogelu dyfodol y mudiad. Ni wyddai a allai'r gweithwyr maes gytuno ar waith newydd gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol, a pha bris y dylid ei godi ar gyfer gwasanaethau HMS. Roedd yn rhaid iddi wybod sawl awdurdod oedd wedi ymrwymo i ariannu MAGC yn ystod 1993/94.

Mewn llythyr, y bwriadai iddo fod yn 'hollol gyfrinachol', at Stephen Orchard o MAG, cyfeiriodd at faterion a fyddai wedi achosi syndod mawr i lawer o aelodau Cyngor MAGC petaent wedi'u crybwyll yn agored. Ystyriai'r posibilrwydd y byddai annibyniaeth ariannol yn MAGC yn dod i ben, a gofynnai, felly, sut y gallai MAG (Y Deyrnas Unedig) gynnwys Cymru yn niffyg unrhyw staff cyflogedig gan MAGC?

A hithau eisoes wedi ysgrifennu at Gerson Davies, y Trysorydd, ac wedi siarad ag ef ar y ffôn, ddeuddydd yn ddiweddarach ysgrifennodd Tamsin Graves at y Cadeirydd, John Phillips. Roedd y Trysorydd wedi dweud wrthi nad oedd sicrwydd o gael arian gan yr Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, ac roedd hi'n awyddus i drafod a chael penderfyniad ynglŷn â pha sicrwydd y gellid ei gynnig i'r staff maes, gan fod pob cytundeb staffio yn dod i ben ar 31 Mawrth 1994.

Yn fuan iawn, daethpwyd yn ymwybodol o bryderon Tamsin Graves wrth iddi ysgrifennu ei llythyrau niferus ddiwedd Ebrill gan i'r Pwyllgor Gwaith, swyddogion a staff MAGC gael eu gwysio i gyfarfod yng Nghanolfan Gristnogol Cefn Lea, Dolfor, ar 25 Mai. Dwysawyd yr argyfwng yn sgil ffacs a anfonwyd gan y Trysorydd yn datgan y byddai diffyg o £3,800 yn debygol yn ystod 1993/94, er gwaethaf yr arbedion o £11,900. Felly, ni ellid estyn cytundeb unrhyw aelod o'r staff y tu hwnt i 31 Awst 1993, er y byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu cyn gynted ag y byddai pob Awdurdod Addysg Lleol wedi ymateb i geisiadau'r flwyddyn honno am danysgrifiadau.

Byddai'n rhaid galw cyfarfod o'r Cyngor ym mis Gorffennaf, gan fod y Comisiwn Elusennau wedi cadarnhau yr ystyrid pob aelod o'r Cyngor yn ymddiriedolwr, yn ôl rheolau'r Comisiwn. Bydd MAG (Y Deyrnas Unedig) yn trafod y sefyllfa ond pwysleisiwyd nad oedd crochan o aur wedi'i guddio y tu hwnt i Glawdd Offa. Adroddwyd mai'r gost am ddarpariaeth

broffesiynol HMS mewn addysg grefyddol oedd tua £300 y dydd, ond nad oedd yr adnoddau gan MAGC i'w sefydlu ei hun i gystadlu yn y maes.

Gan mai'r Awdurdodau Addysg Lleol oedd wedi mynd ati i sefydlu MAGC, dylid gofyn iddynt a oeddent am i'r mudiad barhau. Os hynny, byddai'n rhaid iddynt ei ariannu. Cytunodd y Cadeirydd, John Phillips, Prif Weithredwr Dyfed, i gynnull cyfarfod o'r wyth cyfarwyddwr addysg ynghyd â Hywel Evans, Glenys Roberts a Tamsin Graves.

Byddai pecyn dewis-a-dethol o wasanaethau MAGC yn cael ei gynnig i'r Awdurdodau Addysg Lleol, yn ogystal â chrynodeb o hanes y bartneriaeth yn ystod y 30 mlynedd flaenorol. O ystyried y newidiadau enfawr oedd wedi digwydd mewn addysg yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'n amheus a fyddai'r cyfarwyddwyr addysg wedi teimlo bod y ffaith mai'r 17 awdurdod blaenorol oedd wedi cytuno i ariannu'r mudiad arbennig hwnnw yn berthnasol o gwbl bellach. Roedd pen draw i'r hyn y gellid ei gyflawni ar sail sentiment, ac roedd yn rhaid i MAGC sylweddoli bod yr Awdurdodau Addysg Lleol yn gorfod gwneud penderfyniadau caled yn gyson er mwyn darparu'r addysg orau i blant ac ieuenctid eu siroedd.

Ar ddiwedd y cyfarfod yng Nghefn Lea, holodd Tamsin Graves ynghylch annibyniaeth MAGC oddi wrth MAG, y mudiad ar gyfer y Deyrnas Unedig. Gofynnodd a oedd dyblygu'r gwaith gweinyddol drwy redeg MAGC yn gorff annibynnol ar MAG yn ddoeth. Dywedwyd wrthi fod gweddill MAG yn symud tuag at ddatganoli, ac felly y byddai cadw MAGC yn gorff annibynnol yn drefniant derbyniol iawn.

Tawelodd storm mis Mai mor gyflym ag y cododd, ac ni ddigwyddodd y cyfarfod arfaethedig o'r Cyngor fel ymddiriedolwyr ym mis Gorffennaf. Wrth i Gerson Davies gyflwyno adroddiad y Trysorydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol mis Hydref, dywedodd fod y mudiad wedi llwyddo i symud o ddiffyg tebygol i ddarogan y byddai yna arian dros ben. Diolchwyd iddo ef a'i staff am gyflawni hyn. Yn dilyn y cyfarfod gyda'r cyfarwyddwyr addysg, gobeithid y byddai pob Awdurdod Addysg Lleol yn ymrwymo i danysgrifio'n llawn yn ystod 1994/95, ond er mwyn bod yn barod ar gyfer pob posibilrwydd, byddai llythyr yn cael ei anfon at yr wyth Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol yn gofyn iddynt anfon llythyr i'r Swyddfa Gymreig yn cefnogi gwaith MAGC.

Er hynny, roedd i'r argyfwng cynharach oblygiadau i sefyllfa staffio MAGC. Roedd David Burch wedi ymddiswyddo fel ysgrifennydd cynorthwyol yng Ngorllewin Morgannwg, a soniodd Clive Canton am yr anhawster o flaenoriaethu ei waith ym Mhowys oherwydd nifer cyfyngedig y dyddiau oedd ar gael iddo a'r amrywiol alwadau ar ei amser yno. Mynegodd yr Ysgrifennydd hefyd ei phryder ynghylch y pwysau amser arni yn sgil colli'r cymorth gweinyddol. Cadarnhaodd Tamsin Graves y byddai'n gadael y mudiad ddiwedd Mawrth, gan ei bod yn disgwyl ei hail blentyn ym mis Mai 1994. Felly, penderfynwyd bod yr amser yn addas i lunio disgrifiad swydd ac amodau gwaith newydd ar gyfer ei holynydd.

Yn y Pwyllgor Gwaith nesaf cynigiwyd mai Ann Bonner-Steel fyddai cyswllt canolog y mudiad, â'r tasgau gweinyddol yn cael eu cyflawni gan yr ysgrifenyddion cynorthwyol. Byddai penodiadau newydd yn cael eu gwneud, a byddai cytundebau blynyddol am 8–12 awr yr wythnos, yn ystod tymor yr ysgolion yn unig, yn cael eu cynnig i'r holl staff rhanbarthol.

Ym mis Tachwedd 1993 ysgrifennodd swyddogion MAGC at Syr Wyn Roberts, y Gweinidog Gwladol yn y Swyddfa Gymreig, i ofyn am gyfarfod er mwyn gallu cyfleu dymuniad y mudiad i barhau i gefnogi'r ysgolion. Cyfeiriodd y swyddogion yn ddiflewyn-ar-dafod at yr ansicrwydd oedd yn eu hwynebu yn dilyn yr ad-drefnu arfaethedig mewn llywodraeth leol. Dwysawyd y sefyllfa gan y ffaith fod nifer o swyddi ymgynghorol addysg grefyddol eisoes wedi'u colli i'r siroedd, ac roeddent yn bryderus iawn am ddyfodol y pwnc.

Atebodd Michael Parkinson, Ysgrifennydd Preifat Syr Wyn, gan ddweud bod Syr Wyn yn ymwybodol iawn o gyfraniad pwysig MAGC i'r ddarpariaeth addysg grefyddol mewn ysgolion. Credai y gallai T. Glyn Davies a'i gyd-aelodau o fewn y mudiad fod yn falch iawn o'u waith. Felly, roedd y Gweinidog yn gwerthfawrogi'r ffaith fod MAGC yn dymuno parhau â'i waith.

Yn benodol, ymatebodd i bryderon y mudiad ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol drwy gadarnhau y byddai'r awdurdodau newydd yn meddu ar yr un pwerau a chyfrifoldebau statudol ag a oedd gan yr Awdurdodau Addysg Lleol ar y pryd. Pwysleisiwyd y byddai cydweithrediad rhwng Awdurdodau Addysg Lleol Cymru yn bwysig yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno ystod o wasanaethau. Yn wir, yr oedd Syr Wyn yn falch o'r cydweithrediad oedd yn bodoli eisoes rhwng Awdurdodau Addysg Lleol wrth ddatblygu meysydd llafur cytûn.

Ysgrifennodd Hywel Evans at John Redwood, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, ym mis Mawrth 1994, y tro hwn i fynegi ei bryder y byddai'r amser oedd ar gael i addysgu addysg grefyddol yn yr ysgolion yn cael ei gyfyngu o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ymatebodd Syr Wyn gan ei sicrhau nad oedd gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau o'r fath, ac nad oedd Cyngor Cwricwlwm Cymru yn argymell gwneud hynny. Yn adroddiad terfynol y Cyngor Cwricwlwm, roedd lwfans ar gyfer isafswm damcaniaethol o 36 awr ar gyfer addysg grefyddol. Ychwanegodd Syr Wyn fod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn bwysig iawn mewn ysgolion, yn ei farn ef, gan eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol ac arbennig i addysg plant ysgol, cyfraniad na ellid ei danbrisio. Ac oherwydd hynny byddai addysg grefyddol yn parhau i fod yn ofyniad statudol o fewn y cwricwlwm.

Ym mis Mawrth 1994, daeth Clive Jones-Davies, Prifathro Coleg y Drindod, Caerfyrddin, yn Gadeirydd y mudiad. Yn ei hadroddiad olaf fel Ysgrifennydd Trefniadol, nododd Tamsin Llwyd Graves fod y staff wedi bod yn gyfrifol am 12 diwrnod HMS mewn tair sir yn ddiweddar yn ymwneud â chyflwyno'r meysydd llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Rhagwelid y byddai gweddill ariannol o £7,000 erbyn diwedd y flwyddyn, gan awgrymu bod yna ymyl arian i'w weld i'r cwmwl du a oedd wedi bygwth holl fodolaeth y mudiad ddeng mis yn gynharach, ac y byddai haul ar fryn unwaith eto.

Ad-drefnu: 1994–1996

Yn dilyn ymadawiad Tamsin Graves ym mis Ebrill 1994, daeth Ann Bonner-Steel yn Gydlynydd Cenedlaethol MAGC. Gan ei bod eisoes yn wael ei hiechyd oherwydd sglerosis ymledol, cytunwyd y byddai'n cyflawni ei dyletswyddau ar sail gyfyngedig, ran-amser, o'i chartref yn Nantgaredig.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Hydref, adroddodd y Trysorydd fod y cyfrifon yn dangos balans iach, gan nad oedd gan y mudiad unrhyw staff llawn amser na swyddfa. Er hynny, nid oedd dau Awdurdod Addysg Lleol, sef De Morgannwg a Chlwyd, wedi cyfrannu. Dywedodd y Cydlynydd Cenedlaethol newydd fod y pecynnau adnoddau a gynhyrchwyd ganddi yn gwerthu'n dda iawn: derbyniwyd dros £1,000 mewn gwerthiant yn ystod y pum mis blaenorol.

Mynegwyd cryn anfodlonrwydd ynghylch Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94. Er gwaethaf cyswllt cyson a beirniadaeth helaeth gan MAGC, y Cyngor Addysg Grefyddol, Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol a chyrff eraill, teimlent fod y Cylchlythyr Cymreig yn ddrych, bron, o'r hyn a gynhyrchwyd ar gyfer Lloegr. Cytunodd Glyndwr Harris i lunio rhestr o'r pryderon i'w hanfon at John Redwood, Ysgrifennydd Cymru, yn mynegi rhwystredigaeth MAGC; ymateb safonol a gafodd, yn honni bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r holl sylwadau a gafwyd.

Teimlai Glenys Roberts, yr Is-gadeirydd, fod gan MAGC rôl unigryw gan fod y mudiad yn ymwneud â phob agwedd ar addysg grefyddol yng Nghymru, heb fod yn bleidiol i unrhyw safbwynt. Honnai mai hwn oedd yr unig gorff annibynnol allai gynhyrchu ymagwedd eang a chytbwys tuag at addysg grefyddol. Er hynny, mewn papur ar ddyfodol y mudiad, cydnabuwyd na ddylid dyblygu gweithgareddau yr oedd mudiadau eraill eisoes yn eu cyflawni. Byddai cystadleuaeth yn wastraffus ac yn wrthgynhyrchiol.

Dylid gwneud cais i bwyllgor pontio pob awdurdod unedol newydd yng Nghymru yn gofyn iddynt barhau i roi cymhorthdal i MAGC. Un mater a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwaith oedd a ddylai'r mudiad weithredu mewn rôl ymgynghorol a chyflogi Cydlynydd rhan-amser a gweithwyr maes, a phrynu arbenigedd yn ôl y gofyn i ymgymryd â phrosiectau penodol. Yn

1995 archwiliodd Cyngor MAGC ymhellach y posibilrwydd o ddefnyddio, o fewn system staffio hyblyg, weithwyr proffesiynol oedd newydd ymddeol o'r maes addysg grefyddol, yn ogystal â chynllun i ofyn i'r Swyddfa Gymreig am gymhorthdal uniongyrchol, gan y teimlid, er gwaethaf addewidion Syr Wyn Roberts, fod bygythiad i'r ariannu yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd ei fod yn barod i dderbyn penodiad ar y cyd rhwng Canolfan Addysg Grefyddol ei goleg a MAGC. Gwnaed cynlluniau manwl i sefydlu Coleg y Drindod fel y prif ganolfan ar gyfer gweithgareddau MAGC, gyda gweithgareddau ar y cyd yn ei ganolfan adnoddau. Cytunwyd y dylid rhoi archif y mudiad yno dros dro, ond ni weithredwyd yr awgrymiadau eraill yn y pen draw.

Yn y cyfamser, roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gydag awdurdodau unigol. Cynhaliwyd cyfarfod yn Swyddfeydd y Sir yn Llandrindod ym mis Rhagfyr 1994 rhwng John Mitson, Swyddog Addysg Powys, a Clive Canton a Hywel Evans o MAGC i ffurfioli cyswllt y mudiad â'r sir ar gyfer 1995/96. Roedd pawb yn gytûn y dylid rhoi'r flaenoriaeth i barhau i gynnal gweithgarwch fyddai o fudd, yn hytrach na cheisio sicrhau bargeinion ariannol. Cytunwyd ar fanylion y ddarpariaeth adnoddau, dyddiau HMS a hyfforddiant i lywodraethwyr. Yn gynharach y flwyddyn honno, mewn cyfarfod o Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Powys, roedd Clive Canton wedi cyflwyno papur ar addysg grefyddol a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Roedd hwn yn seiliedig ar ddeunydd a gyhoeddwyd gan y Farwnes Mary Warnock, o'r Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr, Erica Brown ac Alan Brown. Roedd Clive Canton hefyd wedi cynhyrchu dogfen i Awdurdod Addysg Lleol Powys ar addoli ar y cyd.

Roedd gosod y berthynas rhwng MAGC a'r Awdurdodau Addysg Lleol newydd ar sylfaen gadarn yn bwysig iawn i Hywel Evans, er y cydnabyddid o'r dechrau na fyddai pob un o'r 22 awdurdod newydd yn cyfrannu. Yn y pen draw yr un fyddai ffiniau Awdurdod Unedol newydd Powys, wrth gwrs, â rhai'r sir a fodolai rhwng 1974 ac 1996.

Yn dilyn cynnig gwreiddiol gan Gyngor Cwricwlwm Cymru yn 1991, aeth Awdurdod Addysg Lleol Morgannwg Ganol ati i gynnull cyfarfod rhagarweiniol o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau) Cymru ym mis Tachwedd 1994. Lluniwyd cyfansoddiad drafft, ac fe'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod cyntaf Cymdeithas CYSAGau Cymru yn Abertawe ym mis Chwefror 1995.

Unwaith eto yn 1995 codwyd mater addoli ar y cyd. Adroddodd Glyndwr Harris fod nifer o gwestiynau, pryderon a phroblemau wedi'u codi'n ddiweddar, yn fwyaf arbennig gan Gymdeithas y Prifathrawon, a bryderai fod y gyfraith yn gofyn mwy nag y gallai'r ysgolion ei ddarparu. Yn wir, cyfeiriwyd mewn adroddiadau diweddar at anallu ysgolion i gyflawni'r gofyniad statudol dan Adrannau 6 a 7 Deddf Diwygio Addysg 1988 fod pob disgybl oedd yn bresennol mewn ysgol a gynhelir yn cymryd rhan bob diwrnod ysgol mewn addoli ar y cyd a oedd 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gristnogol ei gymeriad'. Awgrymodd Glyndwr Harris efallai ei bod yn bryd ailedrych ar y gofynion a'u hailfynegi mewn termau oedd yn berthnasol i fywyd cyfoes.

Ysgrifennodd David Burch, a fuasai'n ysgrifennydd cynorthwyol i MAGC cyn argyfwng ariannol 1992/93, at Ann Bonner-Steel yn gofyn am gael ei ailbenodi i'r swydd honno, a chytunwyd y gallai ailddechrau ar ei ddyletswyddau ym mis Ebrill 1995.

Roedd yr Archesgob Alwyn Rice Jones wedi derbyn llythyr oddi wrth John Redwood, Ysgrifennydd Cymru, yn dweud y byddai'n falch o gwrdd â dirprwyaeth o MAGC yn Llundain, ond nad oedd am i'r cyfarfod ganolbwyntio ar ariannu'r mudiad. Gofynnwyd i Rheinallt Thomas lunio papur drafft ar gyfer Redwood, yn cynnwys cefndir hanesyddol MAGC a'i rôl bwysig yn natblygiad addysg grefyddol yng Nghymru. Awgrymwyd y gellid gweu'r angen am barhad yn y cyllido i mewn i'r papur hwn. Wedi iddo dderbyn y papur drafft, dywedodd Hywel Evans mewn llythyr at Ann Bonner-Steel y teimlai fod yr arddull yn rhy ymosodol ac yn anaddas ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol, er bod ei gynnwys yn berthnasol ac yn gwbl briodol!

Yn ei bapur, *Religious Education and Collective Worship: Issues to be Discussed with the Secretary of State*, mae Rheinallt Thomas yn disgrifio Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94 fel dogfen bleidiol a geisiai gynnwys materion, deongliadau a safbwyntiau nad oedd yn rhan o Ddeddf 1988 ac a oedd, mewn mannau, yn ymwneud â materion a wrthodwyd yn benodol yn y ddadl seneddol. Mae'n gofyn paham y cafodd y consensws cyffredinol ar sail yr ymatebion i fersiwn drafft o'r Cylchlythyr Cymreig ei anwybyddu, gan fynd yn ôl, fwy neu lai, at y ddogfen ar gyfer Lloegr pan oedd y drafft ar gyfer Cymru wedi bod yn llawer mwy sensitif? Honna ei bod yn ymddangos fel petai'r broses ymgynghori wedi cael ei hanwybyddu'n llwyr.

Ymhellach, mae Rheinallt Thomas yn dadlau ei bod yn ymddangos bod llawer o ysgolion yn anwybyddu'n llwyr yr angen am ddarpariaeth ddigonol o ran amser cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol – hyd yn oed ar y lefel a awgrymid ar gyfer Cymru, a oedd yn is na'r lefel ar gyfer Lloegr (36 awr yng Nghyfnodau Allweddol 1–3 oedd y gofyniad yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig; roedd Cylchlythyr yr Adran Addysg 1/94 yn nodi 45 awr ar gyfer Lloegr). Pa gamau, gofynnai, allai'r Swyddfa Gymreig eu cymryd i sicrhau bod *pob* plentyn yn cael y ddarpariaeth oedd yn ofynnol?

Beth bynnag, ad-drefnwyd y Cabinet yn ystod yr haf, a chyfarfu'r Gwir Barchedig Alwyn Rice Jones, Clive Jones-Davies a Glenys Roberts â'r Ysgrifennydd Gwladol newydd, sef William Hague, ynghyd â'i Weinidog Gwladol, Rod Richards, ac aelodau eraill o staff uwch y Swyddfa Gymreig. Adroddwyd iddo fod yn gyfarfod cadarnhaol iawn, ac i gynrychiolwyr y mudiad gael derbyniad cynnes a gwrandawiad llawn cydymdeimlad. Sefydlwyd perthynas dda, a chydnabuwyd statws MAGC – ymysg asiantaethau eraill – fel un o'r prif gyfranwyr tuag at addysg grefyddol yng Nghymru.

Byddai gobaith yr Ysgrifennydd Gwladol fod yr awdurdodau'n cydnabod bod rôl MAGC yn parhau i fod yn un bwysig a bod ei waith yn parhau i gael ei gefnogi yn cael ei gyfleu i'r Awdurdodau Addysg Lleol. Golygai hyn y gallai apêl MAGC am gyfraniadau y flwyddyn honno ddefnyddio cymeradwyaeth gan y Swyddfa Gymreig mai'r mudiad oedd y darparwr cenedlaethol ar gyfer cyngor a chymorth i ysgolion ar faterion yn ymwneud ag addysg grefyddol, yn cynnwys astudio crefyddau eraill yn wrthrychol.

Parhawyd i weld newidiadau mawr a chyflym yn y byd addysg drwy gydol y 1990au. Yn ychwanegol at Gylchlythyr Rhif 10/94 y Swyddfa Gymreig, 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd', a gyhoeddwyd ym mis Medi 1994, cyhoeddodd Adran Addysg y Swyddfa Gymreig gyfarwyddeb, *Dyfodol disglair: sicrhau'r gorau i bob disgybl yn yr ysgol yng Nghymru*, ym mis Ebrill 1995. Yn ôl y ddogfen hon, roedd yn ofynnol i bob ysgol wella'i chynllun datblygu drwy gynnwys amcanion penodol i wella'r perfformiad ym mhob pwnc, yn cynnwys addysg grefyddol. Yn sylfaenol, roedd y cyddestun wedi symud o'r rôl, ymylol bron, a roddwyd i addysg grefyddol gan Ddeddf Diwygio Addysg Kenneth Baker yn 1988.

Ebrill 1996 oedd y dyddiad a bennwyd i'r wyth prif awdurdod sirol a fu'n gyfrifol, fel awdurdodau addysg lleol, am addysg ysgolion yng Nghymru er

diwygio llywodraeth leol ym mis Ebrill 1974 ildio'u pwerau i'r 22 awdurdod unedol newydd ledled y wlad.

Ym mhob un o'r wyth awdurdod oedd yn dod i ben, roedd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol gweithredol, a oedd wedi llunio, cyflwyno ac adolygu maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Ond yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol, yr oedd yn ofynnol i bob awdurdod newydd fabwysiadu ei faes llafur lleol, cytûn, ei hun.

Ym mis Medi cyhoeddodd Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACAC) gyfarwyddyd helaeth ar yr adolygiad o'r meysydd llafur addysg grefyddol cytûn. Ochr yn ochr â'r cyfrifoldeb statudol a roddwyd ar y CYSAGau, pwysleisiai cyfarwyddyd ACAC fod angen i'r CYSAGau ysgrifennu eu meysydd llafur mewn ffordd a fyddai'n galluogi ysgolion i fesur a gwella eu perfformiad.

Roedd hyn eto'n hwb i'r gweithwyr proffesiynol yn y maes addysg grefyddol a oedd wedi gresynu at y diffyg canlyniadau mesuradwy mewn addysg grefyddol pan gyflwynwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol gyntaf. I'r diben hwn, mynnodd ACAC y dylai'r meysydd llafur cytûn, lleol hyrwyddo safonau uchel o addysg grefyddol drwy osod safonau cyrhaeddiad clir a threfniadau asesu priodol. Mewn geiriau eraill, er gwaethaf y ffaith ei bod y tu allan i gylch gwaith y Cwricwlwm Cenedlaethol, yr oedd addysg grefyddol i'w haddysgu a'i hasesu ar lefel addas a fyddai'n cyflawni anghenion pob disgybl.

Yn ystod hydref 1995, yr oedd MAGC, fel corff proffesiynol o addysgwyr addysg grefyddol, yn rhan o broses ymgynghorol a arweiniodd at gyfarwyddyd ACAC. Ar sail ymateb Hywel Evans ar ran y mudiad, mae'n glir eu bod yn ystyried bod y cyfarwyddyd drafft yn rhy feirniadol o'r meysydd llafur cytûn oedd yn bodoli eisoes ac a fabwysiadwyd gyntaf gan yr wyth Awdurdod Addysg Lleol Cymreig, gyda chyfraniad sylweddol gan MAGC, bymtheng mlynedd ynghynt.

Ymhellach, yr oedd ymateb MAGC a'r un a anfonwyd ar ran Cymdeithas CYSAGau Cymru yn dangos yn glir fod gweithwyr proffesiynol addysg grefyddol yn pryderu nad oedd y pwnc yn cael y statws gofynnol o fewn llawer o ysgolion. Pwysleisiodd Hywel Evans nad oedd unrhyw faes llafur yn ymarferol os nad oedd amserlen yr ysgol yn rhoi amser digonol iddo, e.e. yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r oedran 16–19, gan ddweud bod MAGC yn

credu y dylai cynadleddau i gytuno ar feysydd llafur anelu at sicrhau bod digon o amser o fewn amserlenni ysgolion i ymdrin â'r maes llafur ym mhob Cyfnod Allweddol.

Roedd Hywel Evans, ynghyd â thua 70 o bobl eraill, yn bresennol yn y gynhadledd a drefnwyd yn Llandrindod ym mis Tachwedd 1995 i drafod canllawiau drafft ACAC. Cydnabu John Valentine Williams, Prif Weithredwr ACAC, rôl MAGC yn natblygiad meysydd llafur cytûn yng Nghymru. Mewn llythyr at Clive Jones-Davies, Cadeirydd MAGC a Phennaeth Coleg y Drindod, Caerfyrddin, awgrymodd fod cylch gwaith y mudiad yn amlwg yn wahanol i gylch gwaith unrhyw fudiad arall, a bod hynny'n cael ei adlewyrchu gan y ffaith ei fod yn un o dri mudiad yn unig oedd â statws sylwedydd yng Nghymdeithas CYSAGau Cymru.

Yn ei adroddiad terfynol yntau ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, roedd Cyngor Cwricwlwm Cymru wedi argymell yn gynharach fod isafswm damcaniaethol o 36 awr y flwyddyn yn cael eu neilltuo i addysg grefyddol yng Nghyfnodau 1, 2 a 3 (Derbyn hyd at Flwyddyn 9), a thua 5% o gyfanswm amser cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11). Yn ystod y broses ddrafftio terfynol yr oedd ACAC wedi rhoi ystyriaeth i sylwadau MAGC, yn ogystal â chyrff eraill o fewn y gymuned addysg grefyddol Gymreig. Dengys hyn ddylanwad parhaus y cyrff hyn ar y pryd, ac roedd yn gwbl wahanol i agwedd y Swyddfa Gymreig yn ystod yr ymgynghori ar gyfer Cylchlythyr 10/94.

Hefyd yn 1995, ymatebodd MAGC i'r ymgynghoriad ar y cyd rhwng ACAC ac Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Ysgolion yn Lloegr ar y meini prawf drafft ar gyfer cwrs byr TGAU newydd mewn Addysg Grefyddol. Tanlinellai ymateb MAGC y ffaith y byddai'n rhaid i unrhyw gwrs byr TGAU alluogi ysgolion i gyflawni eu gofyniad statudol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 (14–16 oed), ac roedd angen rhoi mwy o bwyslais ar archwilio ac ymateb i faterion ffydd a phrofiad.

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Yng Nghyfarfod Blynyddol 1995 traddodwyd darlith Ymddiriedolaeth Montgomery gan y Parch. Ddr Patrick Thomas ar y testun 'Perthnasedd Ysbrydolrwydd Celtaidd i Addysg Grefyddol mewn Ysgolion'. Roedd hyn yn ailsefydlu'r traddodiad o gael siaradwr gwadd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Yn gynharach yn ystod y dydd, cytunwyd y byddai Clive Canton

yn ymweld â'r Awdurdodau Addysg Lleol newydd i geisio cael cefnogaeth i waith y mudiad. Hefyd, gwahoddwyd T. Glyn Davies i ddod yn noddwr y mudiad, wedi iddo wasanaethu fel Cadeirydd, Trysorydd a Llywydd am dros 30 mlynedd. Y flwyddyn ganlynol cyflwynwyd pibell a gwydryn wisgi wedi'i lythrennu iddo (yn ei absenoldeb) i gydnabod ei wasanaeth maith i MAGC.

Dridiau ar ôl y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol, fodd bynnag, anfonodd Ann Bonner-Steel lythyr personol iawn at Hywel Evans a oedd yn dangos yn glir na theimlai fod penderfyniadau'r Cyngor yn rhai doeth. Datgelodd ei bod yn bryderus iawn ynghylch y mudiad, gan gyfaddef ei bod yn ddigalon ac yn ddiobaith yn dilyn y cyfarfod. Yn y bôn, credai'n gryf y dylid ceisio cael arian gan yr Awdurdodau Addysg Lleol newydd drwy gysylltiadau personol a'r CYSAGau, yn hytrach na thalu i Clive Canton ganfasio'r awdurdodau am gefnogaeth. Nid un sefydliad gwirfoddol arall yn chwilio am gardod oedd MAGC, yn ei barn hi.

Mynegodd nifer o bryderon eraill am sefyllfa gyfredol y mudiad a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol cyn cloi drwy gyfeirio at y rhybudd a gawsai gan Hywel Evans ynghylch swm y gwaith yr oedd hi'n ei wneud fel Ysgrifennydd ifanc i MAGC, ac nad oedd ef yn dymuno ysgrifennu ei beddargraff. Un mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, meddai, roedd yn derbyn ei gyngor, o'r diwedd.

Roedd Ann Bonner-Steel wedi bod yn awgrymu ers rhai misoedd ei bod am roi'r gorau i'w dyletswyddau gan fod ei hiechyd yn dirywio'n gyflym, ac ysgrifennodd at Hywel Evans eto ym mis Tachwedd 1995 yn gofyn am symud ffeiliau ac adnoddau'r mudiad o'i garej. Yn y cyfamser, roedd Philip, ei gŵr, wedi cyfrifo cyfraniadau'r awdurdodau unedol newydd o 1996/97 ymlaen.

Roedd ymweliad Glenys Roberts, Clive Canton a Hywel Evans â Chyfarwyddwr Addysg Clwyd (a oedd yn cynnwys Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ym mis Rhagfyr 1995 yn un llwyddiannus, a thrafodwyd rhestr gynhwysfawr iawn o wasanaethau posibl. Yn ystod y misoedd nesaf byddai Clive Canton hefyd yn ymweld ag Awdurdodau Unedol yn ne Cymru ar berwyl tebyg, ond awgrymodd ei fod yn teimlo'u bod yn fwy amheus eu hagwedd at y mudiad. Dywedodd ei bod yn annhebygol y byddai llawer o awdurdodau de-ddwyrain Cymru yn tanysgrifio.

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Pwyllgor Gwaith, gofynnwyd i David Burch weithredu fel Ysgrifennydd a Chydlynydd Cenedlaethol y mudiad dros dro, hyd at fis Awst 1996. Derbyniodd John Wrightson rôl y Trysorydd, a diolchwyd i Gerson Davies, Sir Benfro, am ei gyfraniad i MAGC. Yn ogystal, derbyniwyd llythyr gan ddisgyblion Blwyddyn 10 (pedwerydd dosbarth) yn Llanelli yn diolch i MAGC am y gynhadledd lwyddiannus oedd wedi'i threfnu ar eu cyfer.

Derbyniodd y Pwyllgor Gwaith hefyd bapur trafod ar gynllun datblygu MAGC. Roedd y mudiad, meddid, ar drobwynt naturiol yn ei ddatblygiad, a hynny oherwydd y bygythiad yn sgil ansicrwydd ariannol a'r newid strwythurol sylweddol wrth ad-drefnu llywodraeth leol, adleoli swyddfa MAGC a phenodi staff newydd, yn arbennig yr Ysgrifennydd cenedlaethol newydd.

Roedd y papur yn seiliedig ar y dybiaeth optimistig y byddai'r rhan fwyaf o'r awdurdodau newydd yn cefnogi gwaith y mudiad. Cafwyd cryn dipyn o fanylder yn y saith tudalen ynghylch y pecyn o wasanaethau y gellid eu cynnig i'r Awdurdodau Addysg Lleol, ac roedd yn glir fod angen cadw rheolaeth lem ar wariant. Wrth edrych yn ôl, fodd bynnag, gellid gofyn a oedd yr Is-bwyllgor Datblygu wedi datgan gweledigaeth glir ynghylch pa rôl y gallai MAGC ei chwarae mewn gwirionedd yn y cyd-destun addysgol newydd. Mewn geiriau arall, a wnaeth y grŵp ystyried o ddifrif a oedd angen gwasanaethau'r mudiad yn 1996, ynteu ai dymuniad ei Gyngor yn syml oedd sicrhau parhad bodolaeth sefydliad oedd yn 30 oed?

Ym mis Mawrth 1996 trefnodd Ann Bonner-Steel sgwrs gan Stephen Orchard, Ysgrifennydd Cyffredinol MAG (Y Deyrnas Unedig), ar ganllawiau i adolygu meysydd llafur cytûn yn seiliedig ar athroniaeth y mudiad ynghylch addysg grefyddol. Er mwyn bod gam ar y blaen, fel petai, a chyflwyno MAGC fel mudiad oedd yn edrych ymlaen at barhau i gynnig cymorth i Awdurdodau Addysg Lleol gyda'r gwaith o ddatblygu meysydd llafur cytûn, gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob Awdurdod Addysg Lleol newydd i'r cyfarfod.

Er hynny, roedd yn amlwg fod ymdrechion y mudiad yn ystod y flwyddyn flaenorol i feithrin perthynas â 22 awdurdod lleol newydd Cymru yn cael eu hystyried yn fygythiad gan eraill o fewn y gymuned addysg grefyddol. Roedd dyhead MAGC i'w gynnal a'i ailsefydlu ei hun fel y prif gorff ymgynghori a chefnogi yn peri anesmwythyd ymysg aelodau'r Panel

Ymgynghorol Cenedlaethol dros Addysg Grefyddol. Ddechrau mis Mawrth 1996 ysgrifennodd Rheinallt Thomas (oedd yn gweithredu fel Ysgrifennydd Gohebol y Panel Ymgynghorol) at David Burch, Ysgrifennydd Dros Dro MAGC, yn nodi'r hyn a ddisgrifiwyd gan Rheinallt Thomas fel 'pryderon dwys' y Panel Ymgynghorol ynghylch cyswllt y mudiad a'r awdurdodau unedol newydd.

Yn sylfaenol, roedd y Panel Ymgynghorol yn bryderus oherwydd bod MAGC, mewn rhai achosion, wedi cyfarfod â'r Awdurdodau Addysg Lleol newydd heb gynnwys yr ymgynghorwyr addysg grefyddol ar y pryd, ac y gallai argymhellion MAGC danseilio gwaith yr ymgynghorwyr addysg grefyddol oni wneid y cysylltiadau hynny mewn ymgynghoriad â hwy. Yn broffwydol, teimlai'r Panel Ymgynghorol y gallai gweithredoedd y mudiad beryglu swyddi ymgynghorwyr/athrawon ymgynghorol, a fyddai'n golygu na fyddai unrhyw arbenigwyr proffesiynol llawn amser/parhaol yn y maes addysg grefyddol yn gweithio i'r Awdurdodau Addysg Lleol.

Roedd beirniadaeth Rheinallt Thomas o ymddygiad MAGC yn mynd cyn belled â gofyn tybed a oedd y penderfyniadau a weithredid gan staff a swyddogion MAGC mewn gwirionedd wedi'u pasio gan ei Gyngor ei hun. Cyflwynodd gynnwys ei lythyr at Bwyllgor Gwaith y mudiad yn ei gyfarfod yr wythnos ddilynol. Cytunwyd i ymateb i bryderon y Panel Ymgynghorol (ac amheuon cynharach Ann Bonner-Steel) drwy egluro bod y Cyngor, yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y mis Hydref blaenorol, wedi awdurdodi ei aelodau i weithredu. Mynnent mai'r drefn oedd y dylid cysylltu â'r Awdurdodau Addysg Lleol drwy eu cyfarwyddwyr addysg, ac mai mater mewnol i'r awdurdodau hynny oedd gwahodd staff ymgynghorol i'r cyfarfodydd.

Ymhellach, honnwyd bod MAGC wedi'i gwneud yn gwbl amlwg ym mhob cyfarfod â'r awdurdodau fod y mudiad yn dymuno cydweithredu'n llawn â'r staff ymgynghorol. Roedd MAGC yn llwyr ymwybodol o bryderon cyd-weithwyr ymgynghorol yn yr hinsawdd ansicr ar y pryd, a chredai fod ganddo gyfraniad i'w wneud i addysg grefyddol yng Nghymru heb danseilio gwaith yr ymgynghorwyr.

Ond mynegodd Gavin Craigen – a ysgrifennai fel athro ymgynghorol addysg grefyddol pedwar cyn-Awdurdod Addysg Lleol Clwyd, sef Bwrdeistref Sirol Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint a Bwrdeistref Sirol Wrecsam – ei bryder a'i ddryswch ynghylch dyfodol cefnogaeth gan MAGC. Pwysleisiodd

wrth David Burch y byddai'n ddefnyddiol gwybod yn glir pa gytundebau a gafwyd rhwng MAGC a'r pedwar Awdurdod Addysg Lleol yr oedd yn eu gwasanaethau, a bod y sawl oedd yn gweithredu ar ran MAGC yn cysylltu ag ef.

Hefyd yng Nghyngor mis Mawrth 1966 cyhoeddodd Hywel Evans fod cryn ddiddordeb ymysg rhai a ddymunai ymuno â rhwydwaith o arbenigwyr addysg grefyddol a fyddai ar alw i weithio ar sail ran-amser, dros dro, i ymateb i ofynion am gefnogaeth broffesiynol. Roedd 23 o geisiadau wedi'u derbyn, ac roedd gan 11 ohonynt botensial amlwg i weithio o fewn amrywiol feysydd gweithgareddau MAGC. Oherwydd y diffyg cefnogaeth tybiedig mewn rhannau o Gymru, fodd bynnag, penderfynwyd y byddai'n annoeth ymgymryd ag unrhyw ymrwymiadau ariannol newydd. Yn bwysicaf, penderfynwyd newid y rheol gyffredinol y dylai 20% o wariant MAGC fod ar gostau gweinyddol canolog. Cyfaddefwyd y byddai'n fwy realistig adolygu hyn i ffigwr o 50% o'r incwm.

Agoffwyd y cyfarfod gan John Wrightson, y Trysorydd, fod goroesiad y mudiad yn y farchnad addysgol ar y pryd yn dibynnu ar gynnig y gwasanaethau cywir yn y man cywir, ar yr adeg gywir ac am y pris cywir ac o'r ansawdd cywir. Gan adleisio geiriau'r Trysorydd, awgrymodd Clive Canton y byddai goblygiadau ariannol mabwysiadu ethos 'y farchnad' yn sylweddol.

I John Wrightson, yr oedd dau fater ymylol a wnâi sefyllfa'r mudiad yn anos fyth. Un oedd y codiad cyflog i athrawon, nad oedd wedi'i ariannu'n ddigonol, a'r llall oedd estyn cyllidebau wedi'u dirprwyo i'r ysgolion. Byddai'r codiad cyflog yn rhoi mwy o bwyslais ar y cyllidebau, ac yn cael ei gyfuno â gofynion y Swyddfa Gymreig i'r Awdurdodau Addysg Lleol ddirprwyo mwy eto. Byddai'n bosibl y gallai hyn gynnwys yr adnoddau a delid cyn hynny i fudiadau megis MAGC. Yn fuan ar ôl yr ad-drefnu, roedd rhai Awdurdodau Addysg Lleol yn feirniadol yn agored o MAGC, ac yn gofyn pam y dylent gefnogi'r mudiad pan oeddent eisoes yn penodi eu staff ymgynghorol addysg grefyddol eu hunain.

Yn 1995 yr oedd y Cyngor Proffesiynol dros Addysg Grefyddol wedi awgrymu cael Diwrnod Addysg Grefyddol Cenedlaethol (h.y. Prydeinig) er mwyn codi proffil y pwnc, yn ogystal â gwella'i ansawdd ar lefel leol. Erbyn y flwyddyn ddilynol roedd y cynlluniau hyn wedi'u hadolygu i gynllunio Gŵyl Genedlaethol Addysg Grefyddol ym mis Hydref 1997, gan

fabwysiadu'r slogan 'Dathlwch Addysg Grefyddol!' Penderfynodd MAGC gefnogi'r ymdrechion hyn. Yn ogystal, derbyniodd adroddiad gan y Cyngor Addysg Grefyddol ar gyfer Cymru a Lloegr ar y difaterwch a deimlid gan fyrddau arholi tuag at ymgeiswyr o leiafrifoedd crefyddol. Roedd hyn yn ymwneud hefyd â chynnwys ansensitif mewn cwestiynau arholiad a diffyg hyblygrwydd o ran amserlenni arholiadau yn ystod cyfnodau ymprydio a dathlu.

Adnewyddu a dirywio: 1996–2015

Penodwyd Sali Roberts, athrawes brofiadol o Fachynlleth, yn seithfed ysgrifennydd parhaol y mudiad, i weithio'n rhan-amser, yn ystod hydref 1996. Wrth imi ysgrifennu'r gyfrol hon, hi oedd wedi cyflawni swydd ysgrifennydd MAGC am y cyfnod hwyaf yn ei hanes, am dros 20 mlynedd, gan weithio o swyddfa yn ei chartref drwy gydol y cyfnod.

Ym mis Mai 1966 roedd Gavin Craigen, athro ymgynghorol addysg grefyddol i'r pedwar Awdurdod Addysg Lleol yng ngogledd-ddwyrain Cymru, wedi ceisio cael gwybodaeth ynghylch gweithgarwch MAGC yn ei ardal ef. Erbyn mis Hydref yr oedd wedi cael cyfarfod gyda Hywel Evans, a phenderfynwyd llunio cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r pedwar awdurdod. Roedd Gavin Craigen yn gweld gwerth yn ymrwymiad MAGC i ddatblygu adnoddau, ac yn dilyn hynny penderfynodd yr Is-grŵp Datblygu roi blaenoriaeth uchel i gomisiynu a chynhyrchu adnoddau newydd a gwreiddiol. Gwnaed cytundeb tebyg gyda Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 1997, gan roi gwerth ariannol ar yr amrywiol wasanaethau i ysgolion a'r Awdurdod Addysg Lleol ei hun o danysgrifiad y sir i MAGC.

Diwedd 1996, penderfynwyd y byddai Ann Bonner-Steel yn parhau i fod â rôl weithredol yn y mudiad. Cytunodd i ddod yn Ysgrifennydd Adnoddau am ddiwrnod yr wythnos, a lluniwyd amlinelliad o raglen i gynhyrchu adnoddau. Byddai MAGC yn cyfrannu £1,000 tuag at offer cyfrifiadurol, a fyddai'n hanfodol iddi yn ei gwaith o lunio'r deunyddiau, yn ei swyddfa yn ei chartref. Byddai David Burch a Clive Canton yn parhau fel ysgrifenyddion cynorthwyol.

Yn ystod blwyddyn gyntaf yr Awdurdodau Addysg Lleol newydd, derbyniwyd incwm o £18,866 mewn tanysgrifiadau o'r neuaddau sirol newydd. Er mai ychydig dros hanner y swm y gofynnwyd amdano (£35,000) oedd hyn, dim ond £100 yn llai na'r swm a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn olaf yr hen Awdurdodau Addysg Lleol sirol ydoedd. Erbyn mis Rhagfyr 1996 yr oedd saith awdurdod wedi cyfrannu'n llawn yn unol â'r fformiwla; roedd saith wedi cyfrannu'n rhannol (yn amrywio o swm o £100 yn unig i dros 80% o'r swm y gwnaed cais amdano); bu'n rhaid gwneud cais pellach i dri awdurdod;

roedd un wedi addo talu, a'r pedwar arall wedi gwrthod yn glir.

Roedd 98 o ddisgyblion yn bresennol mewn cynhadledd yn Ysgol Gyfun Syr Thomas Picton, Hwlffordd, ym mis Ionawr 1997. Ond golygai'r dull newydd o godi tâl fod yr ysgolion yn cael eu hanfonebu am bob plentyn oedd yn bresennol, gan mai ychydig yn unig o arian yr oedd Sir Benfro wedi'i gyfrannu at waith y mudiad.

Ar ôl 18 mis yn y swydd, mynegodd John Wrightson, y Trysorydd, ei fwriad i ymddiswyddo. Ymgymerodd Rheinallt Thomas, o'r Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, â'r gwaith, ac mae'n parhau'n drysorydd wrth i'r mudiad ddathlu ei hanner canmlwyddiant. Awgrymiadau olaf John Wrightson i'w olynydd ac i MAGC yn 1997 oedd fod angen monitro'r cytundebau a wnaed gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol er mwyn sicrhau bod y mudiad yn cyflawni'r hyn a addawyd ganddo ac yn gallu dangos hynny'n glir. Byddai angen i'r awdurdodau oedd yn tanysgrifio i'r gwasanaeth weld eu bod yn cael gwerth eu harian. Yn ail, pwysleisiodd fod angen monitro costau a phrisio adnoddau yn gyson; roedd yn rhaid rheoli'r costau.

Ym mis Gorffennaf 1997, cyhoeddodd Victor Steele ei fod bellach yn bwriadu cilio'n raddol o weithgareddau'r mudiad yn dilyn hanner can mlynedd o wasanaeth, yn gyntaf i'r Sefydliad Addysg Gristnogol ac yna i MAGC. Dywedodd ei fod wedi ceisio ailgynnau'r diddordeb mewn cynadleddau i'r pedwerydd neu'r chweched dosbarth (Blynyddoedd 10 a 12 erbyn hynny), ond nad oedd cangen De Morgannwg yn weithredol bellach, ac felly byddai'n trosglwyddo'r £200 oedd yn weddill i gyfrif canolog MAGC.

Y prif ddigwyddiad yng nghyfraniad MAGC i Ŵyl Addysg Grefyddol y Cyngor Proffesiynol dros Addysg Grefyddol oedd yr anerchiad agoriadol a roddwyd gan y Gwir Barchedig Rowan Williams, Esgob Mynwy. Ei destun oedd 'Addysgu'r Ysbryd'. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, nodwyd bod ymddeoliad tri ymgynghorydd addysg grefyddol yn golygu lleihad sylweddol yn yr arbenigedd pwnc oedd ar gael i ysgolion Cymru. Adroddodd Tudor Thomas, swyddog pwnc addysg grefyddol CABC, wrth y Cyngor fod nifer y rhai oedd yn dilyn cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cynyddu, yn arbennig y rhai oedd yn dilyn y Cwrs Byr. Gofynnwyd i'r Trysorydd newydd lunio rhestr o'r ddarpariaeth addysg grefyddol yng Nghymru.

Yn ei adroddiad, cyflwynodd Rheinallt Thomas ddadansoddiad manwl o'r ddarpariaeth ymgynghorol yn yr Awdurdodau Addysg Lleol yn ogystal â'r

darparwyr mewn addysg bellach ac addysg uwch; arweiniwyd y darllenydd i'r casgliad anorfod na welwyd cymaint o brinder addysgwyr addysg grefyddol o fewn cof. Mae'n cyfaddef nad oedd unrhyw ymgynghorwyr pwnc ar gyfer addysg grefyddol yn y 17 Awdurdod Addysg Lleol oedd mewn bodolaeth ar y pryd, cyn yr ad-drefnu a gafwyd yn 1974. Ond yr oedd adran addysg grefyddol ym mhob un o'r wyth coleg hyfforddi athrawon ac yn y pedwar coleg prifysgol a oedd yn hyfforddi athrawon. Roedd aelodau o staff nifer o golegau addysg bellach hefyd wedi trefnu cynadleddau MAGC. Roedd arbenigedd a darpariaeth mewn swydd Arolygiaeth ei Mawrhydi hefyd yn ychwanegu at ehangder a sylwedd y gymuned addysg grefyddol academaidd yng Nghymru, fel y gwelwyd yn amrywiaeth helaeth yr arbenigwyr ar bwyllgor y maes llafur a ddrafftiodd Faes Llafur Cytûn 1963 ar gyfer ysgolion Cymru.

Yn ddiweddarach yn y 1970au, dechreuodd yr wyth Awdurdod Addysg Lleol newydd benodi ymgynghorwyr pwnc – rhai â mwy o arbenigedd mewn addysg grefyddol na'i gilydd. Yn anffodus, dechreuodd y prifysgolion a'r colegau lle roedd digonedd o staff addysg grefyddol cyn hynny dynnu'n ôl o ddarparu hyfforddiant mewn swydd, ac o ganlyniad cafwyd gostyngiad yn y lefelau staffio. Yn sgil ymddeoliadau a'r cwtogi yn dilyn yr ad-drefnu a gafwyd yn 1996, ynghyd â lleihad sylweddol mewn addysg bellach ac addysg uwch, daeth Rheinallt Thomas i'r casgliad fod y ddarpariaeth ymgynghorol ar gyfer addysg grefyddol bellach yn brin iawn.

Pan gyflwynodd Rheinallt Thomas ei adroddiad, yr oedd Cymdeithasau CYSAGau Cymru a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol dros Addysg Grefyddol eisoes wedi ysgrifennu at Ron Davies, Ysgrifennydd Cymru, i fynegi eu pryder ynghylch y diffyg cefnogaeth arbenigol i'r cwricwlwm addysg grefyddol ledled Cymru. Tynnodd Clive Jones-Davies, Pennaeth Coleg y Drindod, sylw at y posibilrwydd y byddai prinder sylweddol yn y gefnogaeth oedd ar gael i addysg grefyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sgil y ffaith fod tri chorff yn rhannu'r un pryderon, teimlid mai mynd at Ysgrifennydd Cymru gyda'i gilydd fyddai orau.

Awgrymodd Rheinallt Thomas ei hun fod profiad MAGC wedi dangos nad oedd dibynnu ar staff rhan-amser ar gytundebau achlysurol wedi bod yn llwyddiannus, ac mai un o'r rhesymau dros hynny oedd fod newidiadau'n digwydd mor gyflym nes bod cyd-weithwyr yn colli eu hygrededd yn sydyn iawn ar ôl ymddeol. Dywedodd hefyd nad oedd cyhoeddi adnoddau – yn

enwedig yn Gymraeg – yn weithgarwch hunan-gynhaliol. Siaradai ar sail ei brofiad maith yn y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol gan egluro mai nifer cyfyngedig o gwsmeriaid oedd ar gael, a bod cystadleuaeth hefyd am yr arian i brynu adnoddau.

Lluniodd Ben Wigley, arolygydd ysgolion oedd wedi ymddeol, holiadur, a gylchredwyd i'r athrawon gan Sali Roberts. Ynddo, gofynnid sut y gallai MAGC ddiwallu anghenion yr ysgolion uwchradd mewn addysg grefyddol yn y dyfodol. Yn benodol – a chan gofio bod dosbarthiadau chweched dosbarth yn aml yn cynnwys niferoedd bychain – gofynnwyd i'r athrawon pa ffordd fyddai orau i ddod â disgyblion Safon Uwch a Safon Uwch Atodol at ei gilydd fel y gallent rannu profiadau. Sut ddylid trefnu cynhadledd neu ymgynghoriad rhwng disgyblion addysg grefyddol chweched dosbarth, os o gwbl? Eto, teimlid bod angen i MAGC fabwysiadu agwedd hollol newydd o Ebrill 1999 ymlaen. Er gwaethaf nifer o ymdrechion dros y chwe blynedd blaenorol, nid oedd eto wedi dod o hyd i ddull boddhaol o weithredu.

Cafwyd ymatebion i'r holiadur ar y ddarpariaeth ôl-16 oed gan hanner cant o ysgolion, ac fe roddodd hyn sylfaen dda i MAGC weithio arni. Roedd rhai ysgolion wedi adrodd bod eu disgyblion chweched dosbarth yn derbyn cyn lleied ag un awr o addysg grefyddol y mis, er bod disgyblion mewn ysgolion eraill yn derbyn awr yr wythnos. Gan fod addysg grefyddol yn parhau'n orfodol i ddisgyblion y chweched dosbarth, awgrymwyd y dylid comisiynu un o'r athrawon i ysgrifennu pamffled yn egluro sut y gellid integreiddio addysg grefyddol ag addysg foesol a moesegol yng Nghyfnod Allweddol 5. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal rhaglen o gynadleddau ysgol i fyfyrwyr 16+ yn seiliedig ar becyn adnoddau MAGC, *Liberation*.

Ymddiswyddodd Clive Canton fel ysgrifennydd cynorthwyol ym mis Mai 1998. Credai ef hefyd fod MAGC wedi colli ei ffordd drwy addo rhoi gwasanaethau penodol i'r Awdurdodau Addysg Lleol. Y brif broblem a wynebai'r mudiad oedd ceisio cyfuno realiti'r sefyllfa ariannol â chynnal gweledigaeth ar gyfer addysg grefyddol. Ond agwedd bragmataidd oedd gan Rheinallt Thomas: er bod rhai awdurdodau'n cyfrannu 'rhodd' i'r mudiad, ni fyddai eraill yn cyfrannu o gwbl heblaw am y cytundebau lefel gwasanaeth.

Mynegodd y Cadeirydd, sef Pennaeth Coleg y Drindod, ei bryder ynghylch y bocseidiau o ddeunydd ac adnoddau MAGC a oedd wedi'u stori yng nghefn ei lyfrgell er 1995. Bellach, roedd angen y lle arno. Cododd y Parch. Ddr Edwin Lewis ei bryder personol ynghylch natur argyhoeddiad aelodau

MAGC – beth oedd yn gwneud iddynt fod yn rhan o MAGC? Cytunwyd, er hynny, gan mai addysgol oedd prif amcanion MAGC, na ddylai argyhoeddiadau personol unigolion fod dan ystyriaeth, a chymryd nad oedd safbwyntiau'r mudiad yn cael eu camliwio mewn unrhyw ffordd.

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Roedd 14 (o blith 22) o awdurdodau wedi tanysgrifio i MAGC yn ystod 1999/2000, blwyddyn gyntaf y Cynulliad yng Nghaerdydd. Mynegodd Hywel Evans ei farn efallai mai dyma'r adeg i drafod newid enw'r mudiad, gan y credai y gallai'r awgrym fod y mudiad yn un 'Cristnogol' fod yn rhwystr rhag cael cymorth gan gyrff allanol. Nodwyd bod Mudiad Addysg Gristnogol yr Alban eisoes wedi'i ailenwi'n Fudiad Addysg Grefyddol yr Alban.

Ym mis Chwefror 2000 ysgrifennodd Philip Bonner-Steel, gŵr Ann, at Hywel Evans yn gofyn a fyddai'n briodol enwebu enw Ann i dderbyn anrhydedd, ac a fyddai'n barod i ysgrifennu llythyr yn cefnogi'r cais. Ysgrifennodd Ann ei hun lythyr dridiau yn ddiweddarach i ddweud y byddai'n rhaid iddi ymddiswyddo ar sail iechyd, ond ei bod wedi cael pleser mawr yn gweithio gydag aelodau o'r mudiad am dros 25 mlynedd. Roedd Philip Bonner-Steel eisoes wedi bod yn gwneud y gwaith gweinyddol oherwydd cyflwr iechyd bregus Ann. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith na fyddai'n ceisio penodi Swyddog Adnoddau yn lle Ann, ond y dylid gofyn i Philip weithredu fel Hwylusydd Gweinyddol, yn cael ei dalu am y gwaith a gyflawnai.

Yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines ym mis Mehefin 2001, dyfarnwyd MBE i Ann am wasanaeth oes i addysg grefyddol yng Nghymru, yn ogystal â'i chefnogaeth i ddioddefwyr sglerosis ymledol ac eraill ag anableddau.

Erbyn 2000/01, yr oedd nifer yr awdurdodau a gyfrannai wedi gostwng i naw, ac roedd eu tanysgrifiadau wedi aros yr un fath â'r hyn oeddent yn 1996/97. Cytunodd Dafydd Whittall, Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd a Chadeirydd newydd MAGC, i drafod y mater mewn cyfarfod â'i gyd-gyfarwyddwyr addysg ym mis Mawrth 2001.

Ym mis Ebrill 2001, canodd y clychau rhybudd pan gysylltodd Peter Hughes Griffiths, Pennaeth y Ganolfan Adnoddau Addysgu yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, i hysbysu Hywel Evans fod yn rhaid symud y swm sylweddol o eiddo MAGC a adawyd yno chwe blynedd yn gynharach, neu y byddai'n cael gwared ohono. Fis yn ddiweddarach, derbyniodd Sali Roberts rybudd

pellach – un terfynol – ar ffurf neges ffacs yn dweud y byddai'r eiddo'n cael ei roi mewn sgip, oni fyddai wedi'i symud erbyn 30 Mehefin. Roedd Clive Jones-Davies eisoes wedi codi'r mater hwn mor gynnar â mis Hydref 1998.

Yr wythnos ganlynol ysgrifennodd Sali Roberts at Hywel Evans yn pwysleisio bod yn rhaid gweithredu ar hyn cyn y dyddiad penodedig, a theimlai hi a Rheinallt Thomas ei bod yn bwysig fod llawer o'r deunyddiau archif yn cael eu rhoi mewn llyfrgell ymchwil, fel y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Wedi derbyn ei hymholiad, dywedodd adran llawysgrifau'r Llyfrgell y byddent yn croesawu'r cyfle i roi cartref parhaol i archifau MAGC. Byddai'r llyfrgell yn fodlon derbyn dogfennau'n ymwneud â sefydlu'r mudiad, cofnodion pwyllgorau, adroddiadau blynyddol, yn ogystal â gohebiaeth y prif swyddogion. Yn wir, mae'r gwaith hwn wedi'i seilio'n bennaf ar y deunyddiau archif a symudwyd o Goleg y Drindod ym mis Mehefin 2001. Ac mae'r awdur yn sicr yn falch nad mewn sgip y rhoddwyd y deunyddiau hynny!

Codwyd y mater o gael gwefan ar gyfer MAGC am y tro cyntaf mewn neges e-bost gan Philip Bonner-Steel at Sali Roberts ym mis Gorffennaf 2001. Awgrymodd mai hon fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o hysbysebu a gwerthu pecynnau adnoddau'r mudiad, mae'n debyg. Cytunodd Rheinallt Thomas y byddai'n syniad da, ond, yn ogystal â chael rhywun i lunio'r wefan, y byddai angen rhywun i'w chynnal a'i diweddaru'n rheolaidd. Trafodwyd y mater yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ond pwysleisiwyd eto y byddai'n rhaid gwneud hyn yn broffesiynol.

Roedd MAG wedi cynhyrchu cyhoeddiad Saesneg, *What the Churches Say?*, yn cyflwyno agwedd nifer o'r prif enwadau tuag at faterion cymdeithasol, a phenderfynodd MAGC gynhyrchu fersiwn dwyieithog o'r cyhoeddiad yn amlinellu safbwyntiau'r enwadau yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2001 trefnodd Rheinallt Thomas gyfarfod o gynrychiolwyr yr enwadau yn Llanfair-pwll i roi cychwyn ar y broses o gynhyrchu'r cyhoeddiad.

Ym mis Medi 2001, mewn ymateb uniongyrchol i holiadur a anfonwyd i'r ysgolion yn ne-ddwyrain Cymru, trefnodd Martin Rawle gynhadledd chweched dosbarth ar y cyd rhwng MAGC ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, a gynhaliwyd yn yr Athrofa. Ariannwyd y gynhadledd gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Roedd tua 200 o ddisgyblion o ardal eang yn bresennol yn y gynhadledd a theimlid bod hwn wedi bod yn ddiwrnod gwerth chweil. Roedd Sali Roberts yn bresennol yn sesiwn y bore, pan

gynhaliwyd dadl ar erthylu o safbwynt moesol. Yn y prynhawn roedd Tudor Thomas, CBAC, yn bresennol yn y sesiwn dan ofal y Prif Arholwr Dr Noel Davies, a ddefnyddiodd gyflwyniad rhyngweithiol i dywys y myfyrwyr drwy ofynion papurau TAG Moeseg. Bu aelodau o Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol Prifysgol Bangor yn ymweld ag ysgolion gogledd Cymru i gyflwyno sesiynau ar athroniaeth crefydd ac Iddewiaeth.

Tynnwyd sylw at y cyfeiriad Cristnogol yn enw'r mudiad unwaith eto ym mis Tachwedd 2001, gan na chafwyd unrhyw benderfyniad ar hyn mewn dwy flynedd, bron. Mynegodd nifer o aelodau'r Cyngor y farn y gallai'r enw fod yn rhwystr, ac y dylid ceisio cael enw mwy cynhwysol. Ond mynnodd y Cadeirydd fod angen mwy na newid enw ar y mudiad; roedd angen iddo ystyried o ddifrif y gwasanaethau yr oedd yn eu darparu i'r ysgolion. Felly, roedd angen i MAGC edrych ar y gwasanaethau yr oedd wedi'u darparu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'i weithgareddau cyfredol.

Y mis canlynol, cyfarfu Hywel Evans, Rheinallt Thomas a Sali Roberts fel gweithgor i baratoi dogfen drafod yn seiliedig ar argymhelliad Dafydd Whittall. Wrth iddynt ystyried yr hyn a ddarparwyd, penderfynwyd bod rhai awdurdodau wedi derbyn gwasanaeth cynhwysfawr o ran y cyrsiau, y cylchlythyr *R. E. Ideas* / *Syniadau A.G.* bob tymor, dathliadau'r mileniwm, adnoddau o bob math a chyngor yn ôl y gofyn. Awgrymwyd y gellid cynnig copïau o'r cylchlythyr am bris atyniadol am dair blynedd i ysgolion cynradd o fewn yr awdurdodau hynny nad oedd yn tanysgrifio i dderbyn gwasanaethau'r mudiad. Hefyd, gallai'r awdurdodau hynny oedd yn tanysgrifio i'r gwasanaethau glustnodi 25% o'u tanysgrifiad i dderbyn gwasanaethau ychwanegol gwerthfawr, yn cynnwys adnoddau.

Ystyriodd y tri a gyfarfu fel gweithgor enw'r mudiad hefyd. Er bod pobl eisoes yn gyfarwydd ag elfen addysg grefyddol *Syniadau A.G.* a'r ffaith fod gwasanaethau'r mudiad yn cwmpasu addysgu pob crefydd a dderbynnid dan Deddf Diwygio Addysg 1988, penderfynwyd argymell na ddylid newid yr enw.

Pan drafodwyd eu papur yng nghyfarfod y Cyngor yn Llanidloes ym mis Chwefror 2002, roedd yr argymhelliad i beidio â newid enw Mudiad Addysg Gristnogol Cymru yn destun pryder i lawer o'r rhai oedd yn bresennol. I Ben Wigley, roedd y gair 'Mudiad' ei hun yn faen tramgwydd, a chododd Nia Williams arwyddocâd y gair 'Cristnogol'. Pwysleisiwyd mai at yr addysg yr oedd y gair 'Cristnogol' yn cyfeirio, ac nid at y mudiad. Darllenodd y

Trysorydd *Aims of Christian Education* y Mudiad Addysg Gristnogol (Y Deyrnas Unedig), a oedd bellach yn cael ei alw'n syml yn 'Addysg Gristnogol', gan fynnu mai yr un oedd amcanion MAGC. Ystyrid Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bartneriaid o fewn y sefydliad hwn, ac roedd ganddynt seddau ar y bwrdd. Nid oedd MAGC ar y pryd yn barod i gofleidio newid mor arwyddocaol i'w hunaniaeth.

Er hynny, yn ei gyflwyniad i Adroddiad Blynyddol 2003/04, ysgrifennodd Llywydd MAGC, y Gwir Barchedig Saunders Davies, oedd newydd ymddeol o'i swydd fel Esgob Bangor, fod sylweddoli bod Cymru yn rhan o un pentref byd-eang wedi ei ysgogi i ystyried a ddylid cyfeirio at y mudiad yn y dyfodol fel Mudiad Addysg Grefyddol Cymru. Roedd y symbyliad i newid eisoes wedi'i greu a'r cwestiwn erbyn hyn oedd 'pryd' – yn hytrach nag 'os' – y byddai'r mudiad yn cael ei ail-lansio â hunaniaeth newydd.

Cyhoeddwyd nifer o adnoddau newydd yn ystod 2003, yn cynnwys y gyfrol *Iesu*, astudiaeth o fywyd a gwaith Iesu oedd yn addas ar gyfer pob oedran yn yr ysgol gynradd. Cynhaliwyd cynhadledd ar gyfer athrawon addysg grefyddol yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe, ar y testun 'Anelu at Ragoriaeth mewn Addysg Grefyddol'. Roedd dros 80 o athrawon ac aelodau'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol yn bresennol. Cynhaliwyd digwyddiadau i nodi Diwrnod Cofio'r Holocost ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac aeth 3,500 o ddisgyblion ysgol gynradd i weld arddangosfa mewn cydweithrediad â Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain ym Mharc Margam. Yn ogystal, prynodd MAGC arteffactau crefyddol yn cynrychioli Hindŵaeth, Islam ac Iddewiaeth i'w rhoi yng nghanolfan athrawon Ceredigion yn Felin-fach.

Gyda'r penderfyniad wedi'i wneud mewn egwyddor i newid enw MAGC, eglurwyd ym mis Gorffennaf 2004 y byddai hyn yn digwydd mewn ymateb i anghenion athrawon a'u disgyblion. Dylid perswadio'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r newid fod diwygiadau diweddar i'r gyfraith wedi golygu bod gofynion yr ysgolion yn newid, ac felly fod y mudiad yn gweld yr angen i adlewyrchu'r newidiadau hynny. Oni wneid hynny, yna ni fyddai cyrsiau ac adnoddau MAGC yn ymateb i anghenion yr ysgolion roeddent yn eu gwasanaethu.

Ym mis Awst, mynegodd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr y farn fod y cyfansoddiad newydd arfaethedig yn golygu newid sylweddol i amcanion yr elusen. Ni ellid ystyried mai newid bychan yn unig fyddai ehangu'r

amcanion o hyrwyddo addysg Gristnogol i hyrwyddo'r 'grefydd Gristnogol a chrefyddau eraill'.

Pryderai'r Comisiwn yn arbennig ynglŷn â'r cwestiwn a oedd yr Awdurdodau Addysg Lleol a'r sefydlwyr eraill wedi cyfrannu i'r mudiad at ddibenion crefyddol ehangach na'r bwriad a nodwyd yn wreiddiol. Ymhellach, gofynnodd y Comisiwn a oedd gan y mudiad y gallu gweinyddol angenrheidiol i gyflawni'r amcanion ehangach hyn. Fis yn ddiweddarach, pwysleisiodd y Comisiwn eto ei fod am geisio sicrhau na fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud a fyddai'n effeithio ar ddibenion yr elusen mewn modd mor sylfaenol fel na fyddent wedi'u hystyried yn rhesymol gan y rhai oedd yn ei chefnogi. Roedd y cwestiwn a ellid disgrifio'r newid arfaethedig fel un y gellid ei 'ystyried yn rhesymol' ai peidio yn dibynnu ar bwrpas yr elusen: ai hyrwyddo addysgu, darparu addysg grefyddol ynteu hyrwyddo'r grefydd Gristnogol?

Ysgrifennodd John Phillips at Sali Roberts, Ysgrifennydd MAGC, ym mis Hydref yn mynnu mai'r elusen ei hun, drwy ei hymddiriedolwyr a'i Chyngor, oedd wedi gwneud y newid arfaethedig ac mai nod y mudiad oedd hyrwyddo addysg grefyddol, yn hytrach na'r grefydd Gristnogol, ac nad oedd cyfeirio at grefyddau eraill yn groes i fwriad gwreiddiol y mudiad. Mynnodd ymhellach fod dyletswydd ar yr Ymddiriedolwyr i adolygu dibenion MAGC o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i'w fwriad gwreiddiol o gefnogi addysgu addysg grefyddol o fewn yr amgylchfyd addysgol cyfredol.

Yng Nghyfarfod Cyffredinol y Cyngor, a gyfarfu yng Ngholeg Catholig Dewi Sant, Caerdydd, ym mis Tachwedd, fodd bynnag, cafwyd ar ddeall bod y Comisiwn Elusennau bellach yn fwy parod i dderbyn y newidiadau arfaethedig. Felly, penderfynodd y Cyngor fabwysiadu cyfansoddiad newydd y mudiad, a defnyddio'r enw Mudiad Addysg Grefyddol Cymru. Ond yr un, i bob pwrpas, fyddai amcanion y mudiad, ei ddibenion a'i weledigaeth. Ni chadarnhawyd hyn yn derfynol am flwyddyn arall oherwydd materion trefniadol: roedd angen i Ymddiriedolwyr (waeth pa mor amwys eu diffiniad ar y pryd) y mudiad argymell unrhyw newidiadau cyfansoddiadol i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Ym mis Chwefror 2005 ymddiswyddodd Saunders Davies o lywyddiaeth MAGC ar ôl ymddeol o fod yn Esgob Bangor. Yn ei lythyr ymddiswyddo, honnodd fod yn rhaid i'r Llywydd, os oedd am fod yn effeithiol, fod mewn

swydd ddylanwadol. Byddai'r Llywydd wrth y llyw yn ystod ail-lansio'r mudiad, meddai, gan ddymuno pob llwyddiant i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru yn y dyfodol o fewn y cyd-destun addysgol a chrefyddol oedd yn datblygu'n barhaus. Ategwyd bod presenoldeb yr Esgob Saunders mewn cyfarfodydd wedi cael ei werthfawrogi'n fawr, yn ogystal â'i gyngor cadarn a chadarnhaol yn ystod y broses o newid.

Wrth iddo baratoi i gael ei ail-lansio, roedd sefyllfa ariannol y mudiad yn iach iawn. Byddai ymgynghorwyr addysg grefyddol yn yr Awdurdodau Addysg Lleol oedd yn cyfrannu at y mudiad yn cael gwahoddiad i ddefnyddio 50% o gyfraniad yr Awdurdod tuag at MAGC (cynnydd o'r 25% blaenorol) i gyhoeddi a dosbarthu unrhyw ddeunyddiau a baratowyd gan athrawon i'w defnyddio yn ysgolion y sir neu'n ehangach na hynny. Ychydig iawn o arian oedd ar gael i wneud hyn yn llawer o'r Awdurdodau, a gallai MAGC ddarparu'r gwasanaeth hwn mewn gwirionedd.

Ategodd Dilwyn Roberts-Young, UCAC, ei bod yn bwysig rhannu'r gwaith da a gynhyrchid gan athrawon, ac y gallai MAGC fod yn gyfrwng i wneud y dasg hon. Gan fod MAGC, er ei ddyddiau cynnar, wedi cefnogi hyfforddiant a chyhoeddi deunyddiau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, roedd hwn yn gam naturiol. Manteisiodd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Powys, er enghraifft, ar y cynllun hwn ym mis Mai 2005 i gyhoeddi deunyddiau hyfforddi ar addoli ar y cyd a ddatblygwyd gan Ian Elliott, Pennaeth Ysgol Penmaes.

Mewn llythyr at Sali Roberts a Rheinallt Thomas ym mis Mai 2005, trafododd Hywel Evans y drwgdeimlad oedd yn parhau yn y berthynas rhwng MAGC a'r mudiad Addysg Gristnogol (Christian Education). Mynegwyd yr angen i gael eglurdeb ynglŷn â'r mater ym mis Gorffennaf: honnai Addysg Gristnogol ei bod yn elusen oedd yn gweithio ledled y Deyrnas Unedig mewn partneriaeth â Mudiad Addysg Gristnogol Gogledd Iwerddon, Mudiad Addysg Grefyddol yr Alban (a oedd eisoes wedi newid ei enw) a Mudiad Addysg Gristnogol Cymru. Pwysleisiai Addysg Gristnogol ei bod yn gweithredu fel partneriaeth o bedair cenedl, ac nad oedd yn fudiad a oedd yn cynrychioli Lloegr yn benodol.

Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, oedd lleoliad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ar 2 Tachwedd. Adroddodd y Trysorydd fod £35,000 wedi'i fuddsoddi er mwyn sicrhau y byddai digon o gyllid ar gael wrth law i ddirwyn y mudiad i ben dros gyfnod o dair blynedd, petai angen gwneud

hynny. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen i'r Awdurdodau Lleol weld bod MAGC yn gwario arian ar gefnogi a hyrwyddo addysg grefyddol yn eu hysgolion. Ymatebodd y Trysorydd drwy ddweud bod angen cynhyrchu deunyddiau Cymraeg i'w rhoi ar y We ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion uwchradd.

Awgrymodd Hywel Evans y dylid neilltuo £9,000 dros y tair blynedd nesaf i wneud hyn. Byddai hefyd yn ffordd o godi proffil MAGC, yn ogystal â chyfrannu tuag at adnodd eithriadol ac angenrheidiol. Byddai'r cymhorthdal yn cael ei gynnig drwy'r Athro Leslie Francis, a oedd bellach yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, ar yr amod fod logo MAGC yn ymddangos wrth ochr yr adnoddau, a dylid rhoi cydnabyddiaeth briodol i gefnogaeth ariannol y mudiad.

Gan mai Cyfarfod Blynyddol oedd hwn, roedd yr amser wedi dod o'r diwedd i wneud penderfyniad ffurfiol i fabwysiadu'r cyfansoddiad newydd. Ar ôl 40 mlynedd o fodolaeth, daeth Mudiad Addysg Gristnogol Cymru yn Fudiad Addysg Grefyddol Cymru, a byddai'r Comisiwn Elusennau'n cael ei hysbysu o'r newid ar unwaith.

Ond torrodd materion ymarferol ar draws achlysur mor dyngedfennol â hwn, hyd yn oed, a hynny ar ffurf trafodaeth ar wefan y mudiad. Roedd £2,000 eisoes wedi'i dalu i ddatblygu presenoldeb ar y We ond roedd wedi bod yn amhosibl cael mynediad i'r safle. Penderfynwyd y dylid hawlio ad-daliad os byddai'r problemau hyn yn parhau.

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Ar 21 Tachwedd 2005 ysgrifennodd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr at fudiad ac iddo enw newydd, sef Mudiad Addysg Grefyddol Cymru, yn cadarnhau bod Cofrestr Ganolog yr Elusennau wedi'i diwygio i adlewyrchu'r cyfansoddiad newydd a fabwysiadwyd bythefnos ynghynt. Roedd ailenedigaeth y mudiad wedi'i chydnabod gan y Llywodraeth.

Un o'r cyrff cyntaf i ymateb i hunaniaeth newydd y mudiad oedd Cyngor Bahá'i Cymru. O glywed am yr ail-lansio, anfonodd Christine Abbas ddymuniadau gorau Cyngor y Bahá'i i'r mudiad ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd Cyngor y Bahá'i yn croesawu'r cyfle i sefydlu cyswllt â'r mudiad cyn gynted â phosibl, a thrafodwyd ei neges gan y Cyngor ym mis Ebrill 2006. Cytunwyd y byddai'n ddymunol ystyried y posibilrwydd o gydweithio â chrefydd eraill, yn sgil y newidiadau i gyfansoddiad y mudiad, ac yn dilyn hyn

croesawyd Christine Abbas fel cynrychiolydd y Bahá'i. Eglurodd Rheinallt Thomas yn glir, er hynny, nad oedd strwythur cenedlaethol cydnabyddedig i rai crefyddau yng Nghymru, a bod angen ystyried yn ofalus sut y byddai crefyddau eraill yn cael eu cynrychioli.

Parhaodd Ysgrifennydd y mudiad i anfon ceisiadau blynyddol am arian i'r 22 awdurdod lleol. Yn anffodus, roedd ei hymdrechion yn aml yn cael eu gwrthod. Er enghraifft, dywedodd swyddogion addysg Merthyr Tudful yn 2006 fod y ddarpariaeth a gynigid yn dyblygu'r hyn oedd eisoes ar gael i raddau helaeth, er eu bod yn cefnogi'r gwaith yr oedd y mudiad yn ei wneud. Roedd Cyngor Sir Powys yn parhau i wneud defnydd da o'r adnoddau a gynigid iddo am y tanysgrifiad blynyddol i MAGC. Yn 2006, gofynnodd a ellid defnyddio rhan o'r £700 a ddyrannwyd iddo i ariannu amser cyflenwi i alluogi aelod o staff i weithio ar gasglu'r adnoddau at ei gilydd.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Mudiad Addysg Grefyddol Cymru yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ym mis Tachwedd 2006. Llongyfarchwyd Peter Morris ar ddylunio logo newydd i'r mudiad, a diolchwyd iddo. Ar awgrym Aled Davies, cynrychiolydd Cyngor yr Ysgolion Sul, cytunwyd y dylid ceisio cael trefniant a fyddai'n sicrhau bod deunyddiau addysg grefyddol yn Saesneg ar gael am bris gostyngol i ysgolion o fewn yr awdurdodau oedd yn cyfrannu'n ariannol at y mudiad.

Gan mai'r cyfarfod hwn fyddai ail-lansiad cyhoeddus y mudiad, penderfynwyd gwahodd Dr Jack Priestley, cyn-Bennaeth Coleg Addysg Westhill, Birmingham, i draddodi darlith ar y pwnc 'Dysgu sut i Feddwl yn Grefyddol', ac yr oedd cynulleidfa luosog a brwd yn bresennol.

Adroddwyd nad oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u derbyn yn ystod 2005/06, yn anffodus, gan dri Awdurdod Addysg Lleol – Rhondda Cynon Taf, Torfaen ac Abertawe – a fu gynt yn gyfranwyr ffyddlon. Felly, roedd penderfyniadau ariannol pwysig yn wynebu Cyngor MAGC. Roedd gan y mudiad asedau o £82,000: £47,000 ar gael i'w defnyddio, a'r £35,000 oedd yn weddill yn cael eu cadw yn unol â'r polisi i ddirwyn y mudiad i ben, petai angen gwneud hynny.

Y mis Chwefror canlynol mynegodd y Trysorydd ei bryder na fyddai MAGC yn llwyddo i glirio'i gostau yn ystod 2005/06, ac y byddai diffyg o £2,000. Nodwyd yn glir yng nghofnodion y Cyngor fod penderfyniad wedi'i wneud rai blynyddoedd ynghynt, gan ystyried barn nifer o gyrff eraill, i newid

enw'r mudiad ac ehangu ei orwelion i gynnwys pob crefydd. Byddai hyn yn annog yr awdurdodau i gefnogi a chyfrannu – ond nid oeddent wedi ymateb. Cafwyd ychydig o ysgafnder yn y cyfarfod pan ddatganodd y Cadeirydd mai hon oedd y flwyddyn gyntaf i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru – dan yr enw hwnnw – wneud colled!

Roedd Richard Parry Jones, Cadeirydd MAGC, yn Gyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) yng Nghyngor Sir Môn. Mewn llythyr, dyddiedig 15 Mawrth 2007, at Sali Roberts, cyfaddefodd ei fod yn destun pryder iddo nad oedd yr Awdurdodau Addysg Lleol yn gyffredinol yn cefnogi gwaith MAGC, a oedd yn cael ei werthfawrogi cymaint gan yr ysgolion yn ei awdurdod ef. Drwy gymdeithas y cyfarwyddwyr addysg a thrwy gysylltiadau personol, addawodd geisio mynd i'r afael â'r diffyg cefnogaeth ymddangosiadol gan benaethiaid eraill.

Ond gosodwyd perthynas MAGC â'r Awdurdodau Lleol yn glir yn ei chyddestun mewn llythyr gan Gyngor Sir Mynwy ym mis Ebrill y flwyddyn honno. Ynddo, datgelwyd bod sefyllfa ariannol y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes a Hamdden yn peri gwir bryder, a byddai'n rhaid iddynt ddiswyddo nifer o'u cyd-weithwyr. Hefyd, ym mis Gorffennaf, ysgrifennodd Hywel Williams, Prif Swyddog Dysgu a Chyflawni Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar ran ei Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol yn gofyn am eglurhad sut yr oedd eu tanysgrifiad i MAGC yn cael ei wario er budd ysgolion. Yn benodol, gofynnodd pam na allai'r 50% o'r tanysgrifiadau a oedd ar gael i'r awdurdodau eu defnyddio gael eu cadw gan yr awdurdodau yn y lle cyntaf. Os mai pwrpas yr arian oedd cefnogi ysgolion yn Wrecsam, pam roedd angen ei sianelu drwy MAGC?

Ym mis Mehefin 2007 cyhoeddodd Abbie Wightwick erthygl yn y *Western Mail* yn datgelu i ba raddau yr oedd ysgolion uwchradd Cymru yn anwybyddu'r gofyniad cyfreithiol am addoli ar y cyd. Yn yr erthygl dyfynnwyd sylwadau Gareth Jones, ysgrifennydd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, oedd wedi clywed adroddiadau am arolygwyr Estyn yn amseru cyfnodau o fyfyrio mewn sesiynau tiwtorial, gan adrodd na ellid diffinio unrhyw gyfnod o'r fath oedd yn llai nag 20 eiliad o fyfyrdod fel addoli ar y cyd.

Ymhellach, roedd un dirprwy bennaeth anhysbys wedi dweud nad oedd pob arolygydd yn chwilio am yr un peth yn yr arolygiad yn ei ysgol ef. Ond mynnai Estyn, yr arolygiaeth ysgolion, yn ei gyfarwyddyd i arolygwyr y

dylent ystyried pob gweithred o addoli ar y cyd yn ei hawl ei hun ac yn ei chyd-destun.

Anfonodd Tania ap Siôn neges e-bost at Sali Roberts a Rheinallt Thomas ym mis Tachwedd i'w hysbysu bod y cyfieithiadau Cymraeg, yr oedd y mudiad wedi talu amdanynt, o ddeunydd addoli ar y cyd i ysgolion uwchradd ar gael drwy ddefnyddio dolen ar wefan y Gymdeithas er Hyrwyddo Gwybodaeth Gristnogol (SPCK). Roedd cyfraniad ariannol gwerthfawr MAGC tuag at gyfieithu'r deunydd yn cael ei gydnabod ar bob tudalen. Symudwyd y deunyddiau addoli i wefan SPCK yn sgil amharodrwydd Prifysgol Bangor i gynnal gwefan y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol. Teimlai Tania ap Siôn fod hyn yn beth cadarnhaol, gan fod y deunydd Cymraeg bellach ar gael i gynulleidfa mor eang â phosibl. Roedd yn cyfaddef mai yn araf yr oedd y deunydd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan, a hynny oherwydd prinder deunydd gwreiddiol. Ond roedd arian MAGC yn cael ei ddiogelu mewn cyfrif ar wahân i dalu am y cyfieithiadau pan fyddent ar gael.

Roedd y trafferthion gyda gwefan MAGC yn parhau, ac anfonwyd apêl gyda'r ddogfennaeth ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2007 yn gofyn, yng ngeiriau Sali Roberts, 'yn daer!' am wasanaeth rhywun a fyddai'n barod i drefnu cynnwys gwefan y mudiad, yn ogystal â'i chynnal a'i diweddaru. Cafwyd tri gwirfoddolwr, yn ogystal â pherson arall yn cynnig rhoi cyfarwyddyd.

Yn y cyfarfod blynyddol ei hun ystyriwyd y rhesymau pam yr oedd llawer o'r awdurdodau lleol yn amharod i gyfrannu'n ariannol tuag at MAGC. Teimlai rhai efallai fod y swyddogion addysg yn credu bod y mathau o weithgareddau a ddarperid gan y mudiad eisoes yn cael eu gwneud gan eu Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol eu hunain. Ond roedd MAGC yn ymwneud â chynnydd disgyblion yn yr ysgolion. Roedd cyllid eto'n achosi pryder, ac er i'r Cadeirydd atgoffa MAGC i gofio am ei bolisi wrth gefn, roedd yn amlwg fod angen arian i ddarparu ei wasanaethau gwerthfawr i gefnogi addysg grefyddol yng Nghymru. Byddai ysgrifennu pwt ym mhob rhifyn o *Newyddion A.G.* yn fanteisiol, gan y byddai'n dod â MAGC i sylw'r ysgolion.

Codwyd mater gwisg grefyddol yng nghyd-destun polisi gwisg ysgol yn 2007 yn dilyn achos disgybl oedd yn Sîc yn Ysgol Gyfun y Merched, Aberdâr. Roedd angen i MAGC fod yn ymwybodol o faterion o'r fath, er y teimlai aelodau'r Cyngor y byddai'n annoeth i'r mudiad ymyrryd yn uniongyrchol

ar y pryd gan y byddai'n dod yn fater cyfreithiol. Yn y pen draw, gwelid hyn fel mater o hawliau dynol, lle roedd angen cysondeb agwedd a gweithredu.

Yn amlwg, nid oedd Cyngor Sefydlog Addysg Grefyddol Rhondda Cynon Taf na staff a chorff llywodraethol Ysgol y Merched, Aberdâr, wedi gofyn am gyngor MAGC ynghylch gwisg grefyddol Sikhaidd; gwylio â diddordeb wnaeth Cyngor MAGC. Cafodd cyngor y Llywodraeth i ysgolion ynghylch gwisg grefyddol ei gylchredeg yn ddiweddarach, a chytunwyd y dylai MAGC ddangos cydymdeimlad tuag at geisiadau gan ddisgyblion i wisgo dillad oedd yn gydnaws â'u crefydd.

Dechreuodd 2008 gydag ymdrech i ad-drefnu Cyngor MAGC. Roedd is-bwyllgor wedi'i sefydlu i ystyried ei aelodaeth gyda golwg ar gynnwys cynrychiolaeth ehangach o'r gwahanol grefyddau oedd yn cael eu harddel yng Nghymru. Argymhelliad yr is-bwyllgor oedd y dylid penodi pum aelod i gynrychioli'r prif grefyddau eraill, yn ychwanegol at y pedwar aelod a oedd yn cynrychioli'r enwadau crefyddol (a benodid gan Cytûn). Byddai angen iddynt fod yn aelodau rhagweithiol o'r Cyngor, a bod â diddordeb penodol yn agwedd addysgol crefydd.

Roedd y problemau gyda'r wefan yn parhau, ac addawodd Peter Morris geisio datrys y broblem. Mynegodd Euros Jones, cynrychiolydd Undeb yr Annibynwyr, bryder ynghylch y paratoad a gâi athrawon i ddysgu Cristnogaeth yn yr ysgolion. Roedd erthygl wedi ymddangos yn *Y Cymro* ychydig cyn hynny yn mynegi pryderon ynghylch y cynnwys Cristnogol yn y cwricwlwm ysgol. Trafodwyd cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru hefyd. Pwysleisiwyd bod angen addysg grefyddol o safon uchel o hyd ar gyfer y sector ôl-16 oed.

Sefydlwyd Canolfan y Santes Fair yn Llyfrgell Deiniol Sant, Penarlâg, i gynnal gwaith ymchwil ar gyfer addysg grefyddol, yn ogystal â pharatoi adnoddau. Roedd ystod y gweithgareddau a fwriedid ar gyfer y Ganolfan yn eang iawn; roedd yno ddigonedd o staff, ac ymysg ei amcanion yr oedd datblygu cyrsiau a chefnogi'r cwricwlwm.

Ym mis Mehefin 2008 anfonwyd llythyr ar y cyd gan Brifysgol Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin, at y gymuned addysg grefyddol yng Nghymru. Cydnabyddai fod Ymddiriedolaeth y Santes Fawr wedi penderfynu symud ei arian o'r Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol a ffafrio Canolfan y Santes Fair. Er gwaethaf hyn, cyhoeddodd Prifysgol Bangor y

byddai'n gweithio mewn partneriaeth â Cholegy Drindod, Caerfyrddin, i wasanaethu'r gymuned addysg grefyddol ddwyieithog ledled Cymru gyfan. Byddent yn ceisio gweithio gyda'i gilydd i adeiladu ar enw da'r Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol.

Cyfrannodd 12 o 22 Awdurdod Addysg Lleol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2008/09, a rhoddwyd Darlith Flynyddol y mudiad gan y Gwir Barchedig John Davies, Esgob Abertawe ac Aberhonddu, ar y teitl 'Addysg neu Wthio Syniadau'. Yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol safodd aelodau'r Cyngor mewn parch i nodi marwolaeth Hywel Evans. Fel y dengys y gyfrol hon, roedd Hywel Evans wedi bod yn flaengar gyda gwaith y mudiad yn ystod 43 o flynyddoedd ei fodolaeth hyd at hynny. Gwyddai'r Cyngor y teimlid ei golli'n fawr iawn, gan mai ef oedd angor y mudiad.

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd mynegodd Vaughan Salisbury ei bryder nad oedd y gostyngiad yng nghyfraniadau'r Awdurdodau Addysg Lleol yn argoeli'n dda. Gofynnodd y Cadeirydd a'r Trysorydd a ddylai'r Cyngor ystyried faint o ddylanwad oedd gan MAGC mewn gwirionedd. Eglurodd Rheinallt Thomas fod lle addysg grefyddol mewn addysg wedi newid. Roedd yr angen am gyrsiau wedi diflannu gan fod yr awdurdodau lleol a chyrff megis CBAC bellach yn eu darparu. Un canlyniad pwysig i'r newid hwn oedd y dylai'r mudiad ganolbwyntio ar ddarparu adnoddau o hynny ymlaen. Ond, ar wahân i'r cylchlythyr *Syniadau A.G.*, oedd wedi cael ei gyhoeddi ers tro byd, a'r wefan ar gyfer gwasanaethau boreol, cyndyn iawn fu MAGC i gyhoeddi unrhyw ddeunyddiau pellach.

Mynegwyd y pryderon hyn eto ym mis Chwefror 2009: roedd ymateb yr Awdurdodau Addysg Lleol yn gymysg iawn, a thrwy ei raglen gyhoeddi yr oedd MAGC yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r byd addysg grefyddol. Roedd yn glir i'r rhai oedd yn bresennol mai'r ffordd fwyaf effeithiol oedd cyhoeddi llyfrau Cymraeg i ysgolion cynradd. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r gyfres *Ymchwilio i ...*, ond derbynnid y byddai cynhyrchu llyfrau ar gyfer y farchnad uwchradd yn unig yn aruthrol o ddrud. Bwriedid gofyn i'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol dros Addysg Grefyddol roi arweiniad ynghylch beth fyddai orau i'r ysgolion.

Ar y pryd, roedd llyfrau MAGC yn cael eu cyhoeddi ar golled sylweddol. Er enghraifft, gwariwyd £6,300 ar y tri llyfr a gyhoeddwyd yn ystod y

cyfnod hwnnw, ond dim ond £1,100 a dderbyniwyd drwy werthiant. Erbyn mis Mehefin, roedd yn amlwg fod y diddordeb yn y mudiad yn lleihau, gan fod y cofnodion erbyn hyn yn mynegi siom fod cyn lleied o'r aelodau'n mynychu'r cyfarfodydd.

O ran aelodaeth y Cyngor, er gwaethaf ymdrechion Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn, i annog cynrychiolaeth o arweinwyr ffydd yng Nghymru ar MAGC, roedd yr ymateb hyd hynny wedi bod yn wael iawn. Roedd MAGC ei hun yn deall pa mor hanfodol bwysig oedd cael cynrychiolaeth o bob un o'r prif grefyddau ar y Cyngor, a phenderfynwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn estyn gwahoddiad pellach iddynt.

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Sir Mynwy yn datgan bod ei ysgolion yn derbyn cefnogaeth sylweddol gan ei ymgynghorydd addysg grefyddol ei hun, oedd yn cael ei gyflogi ar sail flynyddol i gynghori ei Gyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol ac i gynhyrchu deunyddiau. Roedd hon, meddent, yn ffordd effeithiol iawn o ddefnyddio'r arian oedd ar gael gan yr Awdurdod Addysg Lleol i gefnogi ei athrawon. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, addawodd adran addysg Dinas a Sir Abertawe dalu ei danysgrifiad i MAGC y flwyddyn honno, er ei bod yn pwysleisio bod y sefyllfa o ran cyllid yn anodd iawn.

Mynegodd y Cyngor hefyd ei bryderon am y diffyg darpariaeth Gymraeg gan Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr, yn ogystal ag absenoldeb unrhyw ethos Cymreig. Roedd y cylchlythyrau rheolaidd a gyhoeddid gan y Cyngor Addysg Grefyddol, a sefydlwyd yn 1973, yn wir yn Seisnig iawn eu gogwydd, a phrin iawn oedd unrhyw drafodaeth ar faterion oedd yn uniongyrchol berthnasol i Gymru.

Derbyniwyd penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i ganiatáu i ddisgyblion ôl-16 eu heithrio eu hunain o'r addoli ar y cyd fel un anochel, er bod Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ceisio sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer hyn. Roedd MAGC yn falch o ddeall bod arweiniad yn cael ei gynnig ar y mater hwn, er ei fod yn siomedig fod cyn lleied o drafod wedi digwydd yn gyhoeddus.

Ym mis Mehefin 2009, awgrymodd Eirian Samuel, Cydlynydd Addysg Cymorth Cristnogol yng Nghymru, y gellid anfon papurau MAGC drwy e-bost o hynny ymlaen, yn ogystal â chynhyrchu *Syniadau A.G.* fel ffeil PDF i'w dosbarthu drwy e-bost. Eglurodd y byddai hyn yn lleihau'r costau, yn ogystal â bod yn ffordd o sicrhau eu bod yn cael eu dosbarthu mor eang â phosibl.

Y mis canlynol, derbyniwyd llythyr gan adran addysg Cyngor Sir Powys yn mynegi gyda gofid na fyddent yn gallu cefnogi MAGC, gan egluro bod sicrhau adnoddau bellach yn fater i ysgolion, a hwy fyddai'n penderfynu sut i wario'u harian. Roedd hon yn amlwg yn ergyd bellach i'r mudiad, oherwydd roedd ei berthynas â Phowys wedi bod yn agwedd allweddol ar ei waith lleol am 25 mlynedd.

Mewn e-bost, trafododd Mary Parry, Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i Gynghorau Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, yr anawsterau o drefnu cyrsiau HMS; nid yn unig yr oedd angen talu am y cyrsiau eu hunain, ond hefyd am y gost o ddarparu athrawon cyflenwi ar y raddfa ddyddiol, yn ogystal â chostau teithio a chostau eraill i'r athrawon fyddai'n mynychu'r cyrsiau.

Yn ystod 2009/10, penderfynwyd symud cwrs y Dystysgrif Addysg i Raddedigion mewn addysg grefyddol uwchradd o gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru: y Drindod, Dewi Sant, i Ysgol Addysg Prifysgol Fetropolitaidd Abertawe. Roedd MAGC yn ceisio sicrhau y gallai'r myfyrwyr barhau i astudio ar gyfer Tystysgrif Addysg i Raddedigion mewn Addysg Grefyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mis Mehefin 2010, lliniarwyd pryderon yr aelodau pan gyhoeddwyd y byddai darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhaglen Tystysgrif Addysg y Brifysgol Fetropolitaidd.

Erbyn 2010, yr oedd MAGC wedi cyfrannu £9,000 tuag at Ganolfan y Santes Fair ym Mhenarlâg i dalu am gyfieithu'r gwasanaethau uwchradd a roddwyd ar wefan y Gymdeithas er Hyrwyddo Gwybodaeth Gristnogol (SPCK) i'r Gymraeg. Bu'r fenter hon yn ddefnyddiol iawn ar gyfer addoli ar y cyd yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, oherwydd roedd y gwasanaethau Cymraeg yn derbyn 25,000 o drawiadau'r mis ar y wefan. Penderfynwyd rhoi £3,000 arall i'r Ganolfan i barhau â'r gwaith.

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 2010 yn mynegi eu gofid na fyddent, oherwydd pwysau ariannol, yn gallu cyfrannu'r arian y gofynnwyd amdano. Ni allai Cyngor Dinas Casnewydd adnewyddu ei danysgrifiad ychwaith. Er yn cydnabod bod ariannu cyrff megis MAGC yn ddymunol, ni theimlid ei fod yn hollol angenrheidiol i gynnal y gwasanaeth. Parhaodd y gyfres o lythyrau gwrthod wrth i Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, yn ei thro, honni bod ganddi ganolfan adnoddau ddigonol ar gyfer pob agwedd o'r cwricwlwm ysgol, ac felly nad oedd arni angen y gwasanaethau a gynigid gan MAGC.

Wrth i John Phillips gael ei ethol yn unfrydol yn Llywydd y mudiad, dywedodd y Trysorydd ym mis Mehefin y byddai'r toriadau a wnaed gan

lywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraeth Cymru i wariant yn y sector cyhoeddus yn cael effaith gynyddol niweidiol ar y mudiad, gan ei fod yn llwyr ddibynnol ar y cyfraniadau a dderbyniai gan awdurdodau lleol Cymru. Datgelodd adroddiad Rheinallt Thomas fod ffigurau gwerthiant dwy gyfrol a gyhoeddwyd gan MAGC yn ddiweddar wedi bod yn siomedig iawn; gwerth £482 yn unig a werthwyd gan y Cyngor Llyfrau yn ystod y flwyddyn honno. Ymhellach, penderfynwyd na fyddai'n ymarferol cyhoeddi unrhyw deitlau eraill y pryd hwnnw.

Roedd rôl Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (a Mudiad Addysg Gristnogol Cymru cyn hynny) yn parhau i gael ei gwerthfawrogi mewn rhai mannau. Er nad oedd yn cyfrannu'n ariannol at y mudiad bellach, ysgrifennodd CYSAG Powys yn gofyn am gyfethol cynrychiolydd newydd ar ran MAGC, a hynny fel mater o frys. Roedd Clive Canton ar fin ymddeol o'r CYSAG, ac roeddent yn dymuno cael rhywun yn ei le cyn gynted â phosibl. Dywedent fod cynrychiolwyr y mudiad wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r drafodaeth yng nghyfarfodydd CYSAG dros y blynyddoedd, yn ogystal â chyfraniadau sylweddol tuag at ganlyniadau'r cyfarfodydd hynny.

Rhagwelwyd y byddai wyth awdurdod lleol yn cyfrannu yn ystod 2011/12. Y diffyg yn ystod y flwyddyn flaenorol oedd £7,5000, a disgwylid y byddai diffyg tebyg yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr at bob awdurdod lleol oedd wedi cyfrannu yn y gorffennol. I ddechrau byddai gair o ddiolch am eu cyfraniadau yn ystod y blynyddoedd a fu; yna, byddai'r gobaith yn cael ei fynegi y byddent yn cyfrannu eto, unwaith y byddai'r sefyllfa ariannol mewn llywodraeth leol wedi gwella. Er hynny, yr oedd y Trysorydd yn dal yn ochelgar rhag cyhoeddi rhagor o lyfrau ar y pryd.

❖ ❖ ❖ ❖ ❖

Erbyn 2012, roedd tua 300 o wasanaethau i'w defnyddio mewn ysgolion uwchradd wedi'u cyfieithu gan ddefnyddio'r arian a roddwyd gan MAGC. Roedd chwe neu saith gwasanaeth yn cael eu rhoi ar wefan y Gymdeithas er Hyrwyddo Gwybodaeth Gristnogol (SPCK) bob mis; roeddent yn safonol yn ieithyddol ac wedi'u haddasu i'r cyd-destun Cymreig. Cytunwyd i roi £3,200 arall i gynhyrchu cyfieithiadau newydd. Ond penderfynwyd peidio â chynhyrchu rhagor o ddeunyddiau gwreiddiol y flwyddyn honno. Byddai'r mudiad yn cysylltu eto â'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol dros Addysg Grefyddol i weld pa anghenion penodol y gallai MAGC eu diwallu. Mynnai Nia Williams fod angen rhywbeth newydd a fyddai'n ysbrydoli.

Un cyhoeddiad a ystyriwyd, fodd bynnag, oedd y gyfrol bresennol i adrodd hanes y mudiad.

Cyn y cyfarfod o'r Cyngor yn Llanidloes ym mis Mai 2013, mynegodd y Cadeirydd, Ben Wigley, bryder, a adleisiwyd gan aelodau eraill, nad oedd MAGC bellach yn effeithiol fel mudiad i hybu addysg grefyddol mewn ysgolion. Nid oedd yr adnoddau, er eu bod yn gyfoes ac yn safonol, yn gwerthu'n dda. Ond cytunwyd i gynhyrchu adnoddau, petai'r angen yn codi. Disgwylid y byddai diffyg o £9,683 ar weithgareddau'r flwyddyn honno gan mai Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Benfro a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unig oedd yn parhau i danysgrifio i wasanaethau'r mudiad.

Cyfrannodd y mudiad £1,000 i gefnogi gwefan Newyddion Addysg Grefyddol, oedd yn cael ei lletya gan Brifysgol Cymru: y Drindod, Dewi Sant, a Phrifysgol Bangor. Roedd y cylchlythyr *Syniadau A.G.* yn parhau i gael ei anfon at yr awdurdodau oedd yn cyfrannu at y mudiad, ond nid oedd unrhyw werth ariannol i weddill y stoc adnoddau a byddent yn cael eu dosbarth yn rhad ac am ddim i unrhyw ysgol a hoffai eu cael. Byddai Sali Roberts, yr Ysgrifennydd, yn ysgrifennu at bob Awdurdod Addysg Lleol lle roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynnig y llyfrau hyn iddynt. Cytunwyd hefyd i beidio â chynnal y ddarlith flynyddol; nid oedd modd rhyddhau'r athrawon o'r ysgolion, ac roedd y disgyblion dan bwysau cynyddol.

Ym mis Tachwedd 2014 penderfynwyd na fyddai'r mudiad yn gofyn am gyfraniadau gan Awdurdodau Addysg Lleol Cymru. Gwynedd ac Ynys Môn oedd y ddau awdurdod olaf oedd yn dal i danysgrifio i'r mudiad, a deufis cyn pen-blwydd MAGC yn 50 oed penderfynwyd dirwyn ei berthynas ariannol ffurfiol ag Awdurdodau Addysg Lleol Cymru i ben. Ar ôl 1 Ebrill 2015 ni fyddai unrhyw gyswllt ffurfiol â'r Awdurdodau Addysg Lleol, gan na fyddent bellach yn aelodau o MAGC.

Y flwyddyn honno, cafwyd gorwariant o £9,500, gan adael gweddill o £65,000. Dywedodd Rheinallt Thomas, y Trysorydd, ei bod yn annhebygol y ceid Adroddiad Blynyddol llawn yn y dyfodol, dim ond mantolen yn unig. Gan ystyried y byd addysg grefyddol yn ei gyfanrwydd, pwysleisiodd yr Ymddiriedolwyr yn eu hadroddiad i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor brinder ymgynghorwyr addysg grefyddol a'r crebachu oedd yn digwydd i rôl cyrff megis Cymdeithas CYSAGau Cymru a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol dros Addysg Grefyddol.

Er hynny, yr oedd arian ar gael i gynnal amcanion elusennol y mudiad, a derbyniwyd cymynrodd hael o £14,516 yn ystod 2015, sef elw gwerthiant

mans oedd yn perthyn i gapel Annibynnol ym Mro Morgannwg. Credai Tudor Thomas ei bod yn hanfodol parhau i gynhyrchu adnoddau i'w dosbarthu am ddim. Nid oedd arian gan yr ysgolion, meddai, ond roeddent yn gwerthfawrogi'r adnoddau a'r cyrsiau. Byddai hyn yn rhywbeth gwerth chweil, hyd yn oed os byddai'n byrhau oes MAGC yn y pen draw. Iddo ef, yr oedd byw am bum mlynedd yn well na bodoli am ddeng mlynedd.

Daw'r hanes i'w derfyn wrth i'r mudiad gyrraedd ei hanner canrif, ond heb lawer o'r bywiogrwydd a oedd wedi bod yn greiddiol iddo drwy gydol ei fodolaeth. Yn ei flynyddoedd olaf, roedd cyfarfodydd Cyngor MAGC wedi cynnwys teyrngedau i nifer o arwyr ddoe oedd wedi mynd i ymuno â'r Is-bwyllgor Mawr yn y Nef, gan drafod eu papur diweddaraf, yn ddiamau, ar ddyfodol y mudiad. Roedd yr Ysgrifennydd ffyddlon, Ann Bonner-Steel, wedi ymuno â'r llu hwn ym mis Chwefror 2011, er ei bod wedi ysgrifennu ei beddargraff yn gynamserol yn 1995.

Ond nid bwriad yr hanes hwn yw bod yn feddargraff i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru a'i ragflaenwyr. Yn hytrach, saif yn dyst i weledigaeth a dygnwch rhai cannoedd o ferched a dynion sydd wedi ymdrechu – ac sy'n dal i ymdrechu – i wasanaethu achos y gwerthoedd gorau posibl mewn addysg: ceisio ffurfio pob merch, pob bachgen yn berson cyflawn, gan eu tynnu i mewn i ymchwil gyffredin y ddynoliaeth am yr hyn sydd yn ei bodloni mewn gwirionedd.

Prif swyddogion y mudiad

Noddwr – T. Glyn Davies (1995–1997)

Llywydd – Syr Ben Bowen Thomas (1965–1971)
T. Glyn Davies (1971–1995)
Y Parchedicaf Alwyn Rice Jones (1995–2002)
Y Gwir Barchedig Saunders Davies (2002–2005)
Hywel I. Evans (2005–2008)
W. John Phillips (2010–2014)
Ben Wigley (2014–2015)
Bethan Evans (2015 ymlaen)

Cadeirydd – T. Glyn Davies (1965–1968)
Y Parch. T. Gwilym Davies (1968–1971)
Hywel I. Evans (1971–1976)
Fred J. Adams (1976–1982)
John Beale (1982–1987)
Derrick Orrell (1987–1990)
W. John Phillips (1990–1994)
D. Clive Jones-Davies (1994–2001)
Dafydd Whittall (2001–2006)
Richard Parry Jones (2006–2009)
Ben Wigley (2009–2014)
Y Parch. Eldon Phillips (2014–2016)
Tudor Thomas (2016 ymlaen)

Trysorydd – D. Hamer Jones (1965–1969)
T. Glyn Davies (1969–1971)
T. Alun V. Evans (1971–1987)
Edgar Lewis (1987–1991)
Gerson Davies (1991–1995)
John Wrightson (1995–1997)
Rheinallt A. Thomas (1997 ymlaen)

Ysgrifennydd – Y Parch. Herbert D. Hughes (1965–1969)
Y Parch. John M. Lewis (1969–1973)
Ann Bonner-Steel (Evans, gynt) (1974–1984)
Jean Humphreys (1984–1988)
Tamsin Llwyd Graves (Lewis, gynt) (1988–1994)
Janet Watson (Cyfnod mamolaeth, 1992–1993)
Ann Bonner-Steel (1994–1996)
David Burch (Ysgrifennydd dros dro, 1996)
Sali Roberts (1996 ymlaen)